



Cynulliad Cenedlaethol Cymru The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 12 Hydref 2011
Wednesday, 12 October 2011

Cynnwys Contents

3	Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau Questions to the Minister for Education and Skills
28	Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Questions to the Minister for Local Government and Communities
48	Datganiad: Dulliau Llywodraeth Cymru i Sbarduno'r Economi Statement: The Welsh Government's Approach to Economic Stimulus
57	Cynnig i Ethol Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn yr Aelodau Motion to Elect Trustees of the Members' Pension Scheme
57	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate
84	Dadl Plaid Cymru Plaid Cymru Debate
111	Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate
140	Dadl Fer Short Debate

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Y Llywydd: Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

The Presiding Officer: Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau Questions to the Minister for Education and Skills

Llythrennedd Ariannol

1. Mark Isherwood: *Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu llythrennedd ariannol mewn ysgolion. OAQ(4)0036(ESK)*

The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews): We have embedded financial education in the curriculum to ensure that young people develop the skills required to manage money effectively and make informed financial decisions. Schools are supported to deliver effective financial education through the Welsh financial education unit, and secondees from local authorities are currently being recruited to the unit.

Mark Isherwood: I welcome that answer, and the fact that you determined that the Welsh financial education unit would continue to operate after the independent evaluation, in which the general conclusion was that there should be a shift towards greater support and planning, incorporating financial education in curriculum delivery. How do you propose to develop that curriculum delivery and to incorporate, for example, qualifications such as those provided by the IFS School of Finance, which has been proved to be successful at schools such as Ysgol y Berwyn, Y Bala, not only with the staff, the headteacher and the head of business studies, but also with the pupils who gave evidence to the former Communities and Culture Committee inquiry into this area?

Leighton Andrews: We have had the independent evaluation of the unit's progress, and, as a result of that, we have agreed that the Welsh financial education unit will continue to operate after 2011. We are in the process of recruiting new staff to the unit to

Financial Literacy

1. Mark Isherwood: *What is the Welsh Government doing to encourage financial literacy in schools. OAQ(4)0036(ESK)*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews): Yr ydym wedi ymgorffori addysg ariannol yn y cwricwlwm i sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i reoli arian yn effeithiol a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus. Mae ysgolion yn cael eu cefnogi i ddarparu addysg ariannol effeithiol drwy uned addysg ariannol Cymru, ac mae secondeion o awdurdodau lleol yn cael eu recriwtio i'r uned ar hyn o bryd.

Mark Isherwood: Yr wyf yn croesawu'r ateb hwnnw, a'r ffaith eich bod wedi penderfynu y bydd uned addysg ariannol Cymru yn parhau i weithredu ar ôl y gwerthusiad annibynnol, a ddaeth i'r casgliad cyffredinol y dylid symud tuag at fwy o gefnogaeth a chynllunio, gan ymgorffori addysg ariannol wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Sut ydych yn bwriadu i'r cwricwlwm gael ei gyflwyno a sut y byddwch yn cynnwys, er enghraifft, cymwysterau megis y rhai a ddarperir gan Ysgol Cyllid yr IFS, sydd wedi profi'n llwyddiannus mewn ysgolion megis Ysgol y Berwyn, Y Bala, nid yn unig gyda'r staff, y pennaeth a phennaeth astudiaethau busnes, ond hefyd gyda'r disgyblion a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad y cyn Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i'r maes hwn?

Leighton Andrews: Yr ydym wedi cael y gwerthusiad annibynnol o gynnydd yr uned, ac, o ganlyniad i hynny, rydym wedi cytuno y bydd uned addysg ariannol Cymru yn parhau i weithredu ar ôl 2011. Rydym yn y broses o recriwtio staff newydd i'r uned i gyflwyno

deliver a further work programme from 2012, working in partnership with local authorities to embed financial education in primary and secondary schools, including the qualifications that you are talking about.

Jocelyn Davies: Minister, I was surprised recently to see the results of a survey of young people that found that a sizeable percentage thought that the higher the annual percentage rate on a loan, the better the deal they were getting. You will also recall, Minister, that, earlier this year, Blackwood Primary School was held as an example of best practice for teaching financial literacy through using a number of interesting and exciting methods. I am sure that you would join me in praising its work. Estyn has stated that an effective way of co-ordinating financial literacy in schools is by appointing a member of staff who can lead on the matter. Do you have any plans to roll out such good practice across the nation's schools, so that widespread financial illiteracy can be tackled?

Leighton Andrews: You raise important points, and the recent Estyn report, 'Money Matters', looked at the provision of financial education for seven to 19-year-olds in primary and secondary schools in Wales. What we want to ensure is that the examples of best practice that you gave are rolled out across Wales. We have also worked to ensure that the credit union network is supported to provide information directly to schools; indeed, some schools work with credit unions, or have established credit union facilities on their premises, to enable young people to get a better understanding of safer ways to invest.

Ailstrwythuro Addysg Uwch

2. Nick Ramsay: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei bolisïau ar gyfer ailstrwythuro addysg uwch. OAQ(4)0045(ESK)*

Leighton Andrews: I shall be considering representations received on the Higher

rhaglen waith pellach o 2012, gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i ymgorffori addysg ariannol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys y cymwysterau yr ydych yn sôn amdanynt.

Jocelyn Davies: Weinidog, yr oeddwn yn synnu yn ddiweddar i weld canlyniadau arolwg o bobl ifanc, lle yr oedd canran sylweddol o'r farn po uchaf y gyfradd ganrannol flynyddol ar fenthyciad, y gorau oedd y fargen yr oeddent yn ei chael. Fe gofiwch hefyd, Weinidog, yn gynharach eleni, y cafodd Ysgol Gynradd y Coed Duon ei chrybwyll yn enghraifft o arfer gorau o ran addysgu llythrennedd ariannol drwy ddefnyddio nifer o ddulliau diddorol a chyffrous. Yr wyf yn siŵr y byddech yn ymuno â mi i ganmol ei gwaith. Mae Estyn wedi datgan mai un ffordd effeithiol o gydlyn llythrennedd ariannol mewn ysgolion yw drwy benodi aelod o staff sy'n gallu arwain ar y mater. A oes gennych chi unrhyw gynlluniau i gyflwyno arferion da ar draws ysgolion y genedl er mwyn mynd i'r afael â'r lefelau uchel o anllythrennedd ariannol?

Leighton Andrews: Yr ydych yn codi pwyntiau pwysig, ac edrychodd adroddiad diweddar Estyn, 'Materion Ariannol' ar ddarpariaeth addysg ariannol i blant saith i 19 oed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru. Yr hyn yr ydym am ei sicrhau yw bod yr enghreifftiau o arfer gorau a roesoch yn cael eu cyflwyno ar draws Cymru. Rydym hefyd wedi gweithio i sicrhau bod y rhwydwaith o undebau credyd yn cael ei gefnogi i ddarparu gwybodaeth yn uniongyrchol i ysgolion; yn wir, mae rhai ysgolion yn gweithio gydag undebau credyd, neu wedi sefydlu cyfleusterau undeb credyd ar eu safleoedd, er mwyn galluogi pobl ifanc i gael gwell dealltwriaeth o ffyrdd mwy diogel o fuddsoddi.

Restructuring Higher Education

2. Nick Ramsay: *Will the Minister provide an update on his policies for restructuring higher education. OAQ(4)0045(ESK)*

Leighton Andrews: Byddaf yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ar gynigion ad-

Education Funding Council for Wales's reconfiguration proposals. The most pressing issue facing Welsh higher education is the future of the University of Wales, and I gave a statement on that on Monday and answered questions on it yesterday.

Nick Ramsay: As you say, currently, there are great concerns surrounding the situation with the University of Wales, so I would appreciate it if you could provide the Chamber with an update on that situation. Many young people in my constituency study at the University of Wales, Newport, and in light of recent weeks' news that the University of Wales will cease to award degrees to graduates of Newport university, what are you doing to ensure that young people currently in the process of getting a degree are reassured that their study will deliver a qualification that is equitable to previous qualifications and which will provide them with the basis that they need to move into the world of work?

Leighton Andrews: Degree-awarding issues are for the universities themselves to resolve. The situation with regard to the University of Wales, Newport is that the qualifications will exist for the next 12 months. There will, therefore, be a time period for it to resolve those issues. As I said in the Chamber yesterday, there is nothing wrong with a University of Wales degree that is properly earned, and we want the quality of that degree brand to be understood.

Vaughan Gething: As with others across the Chamber, I have been appalled at recent revelations regarding the University of Wales. However, the University of Wales has an impact on the potential restructuring of higher education, particularly given the well-known proposal that could see it effectively becoming a regional institution, but still carrying the name of the nation. Have you had any response thus far from the University of Wales about taking responsibility for the current problems, as well as about how the current problems may affect higher education in Wales, on a national and an international level, and the future structure for education here?

Leighton Andrews: You are right to raise

drefnu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Y mater mwyaf dybryd sy'n wynebu addysg uwch yng Nghymru yw dyfodol Prifysgol Cymru, a rhoddais ddatganiad ar hynny ar ddydd Llun ac atebais gwestiynau arno ddoe.

Nick Ramsay: Fel y dywedwch, ar hyn o bryd, mae pryderon mawr ynghylch y sefyllfa o ran Prifysgol Cymru, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi diweddariad ar y sefyllfa honno yn y Siambr. Mae llawer o bobl ifanc yn fy etholaeth i yn astudio ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd, ac o ystyried y newyddion diweddar na fydd Prifysgol Cymru yn parhau i ddyfarnu graddau i raddedigion o brifysgol Casnewydd, beth ydych yn ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc sydd ar hyn o bryd yn y broses o gael gradd yn cael sicrwydd y bydd eu hastudiaethau yn arwain at gymhwyster sy'n gyfartal i gymwysterau blaenorol ac a fydd yn rhoi iddynt y sail sydd ei hangen arnynt i symud i'r byd gwaith?

Leighton Andrews: Mae materion ynghylch dyfarnu graddau yn faterion i'r prifysgolion eu hunain eu datrys. Y sefyllfa o ran Prifysgol Cymru, Casnewydd yw y bydd y cymwysterau yn bodoli ar gyfer y 12 mis nesaf. Felly, bydd cyfnod o amser i ddatrys y materion hynny. Fel y dywedais yn y Siambr ddoe, nid oes unrhyw beth o'i le gyda gradd Prifysgol Cymru sydd wedi ei hennill yn iawn, ac rydym am i ansawdd brand y radd honno gael ei ddeall.

Vaughan Gething: Fel eraill ar draws y Siambr, yr wyf wedi fy siomi gan ddatgeliadau diweddar ynghylch Prifysgol Cymru. Fodd bynnag, mae Prifysgol Cymru yn cael effaith ar ailstrwythuro posibl addysg uwch, yn enwedig o ystyried y cynnig sydd wedi dod i'r amlwg y dylai fod yn sefydliad rhanbarthol i bob pwrpas, gan barhau i gario enw'r genedl. A ydych wedi cael unrhyw ymateb hyd yn hyn oddi wrth Brifysgol Cymru o ran cymryd cyfrifoldeb am y problemau presennol, yn ogystal ag o ran sut y gall y problemau presennol effeithio ar addysg uwch yng Nghymru, ar lefel genedlaethol a lefel ryngwladol, ac am strwythur addysg yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Yr ydych yn gywir i

the issue of the potential impact of these reputational issues affecting the University of Wales on higher education in Wales and on the country. I have had no response so far to the statements made by the Welsh Government in the past few days. The new vice-chancellor of the University of Wales needs to look carefully at the arrangements that he is putting in place to bring together that institution, the University of Wales Trinity Saint David and Swansea Metropolitan University. In that context, decisions will be taken, I assume, on the future of the University of Wales brand.

Simon Thomas: A allwch chi gadarnhau fod y broses ymgynghorol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi bod yn annibynnol ar y Llywodraeth?

Leighton Andrews: We have been involved in a stakeholder engagement exercise on HEFCW's proposals, and submissions have come into my department on the proposals that HEFCW has put forward. Therefore, no, I cannot confirm that.

Simon Thomas: I thank the Minister for that clarification, which explains certain things for some institutions. He will know that the programme for government has a definite target of no institution in Wales being under the 75 per cent median of UK institutions by 2013. However, he will also know that the stakeholder engagement exercise that he has just set out states clearly that this is not based on evidence, but on a judgment call. If he now receives evidence from institutions against merger, setting out the evidence why they should have a different regional or strategic relationship with universities, will he use his judgment call to go with the flow of organic development in the sector, rather than forcing through any artificial changes?

Leighton Andrews: We have a manifesto commitment in favour of a smaller number of stronger universities, which was, essentially, the policy position of the One Wales Government. The Cabinet of that previous Government endorsed proposals in the HEFCW corporate plan, which outlined the effective optimal size for higher education

godi'r mater o effaith bosibl y materion hyn o ran enw da Prifysgol Cymru ar addysg uwch yng Nghymru ac ar y wlad. Nid wyf wedi cael unrhyw ymateb hyd yn hyn i'r datganiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru dros y dyddiau diwethaf. Mae angen i is-ganghellor newydd Prifysgol Cymru edrych yn ofalus ar y trefniadau y mae'n eu rhoi ar waith i ddwyn ynghyd y sefydliad hwnnw, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe. Yn y cydestun hwnnw, bydd penderfyniadau'n cael eu cymryd, yr wyf yn tybio, ar ddyfodol brand Prifysgol Cymru.

Simon Thomas: Can you confirm that the consultation process by the Higher Education Funding Council for Wales has been independent of Government?

Leighton Andrews: Rydym wedi cymryd rhan mewn ymarfer i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynigion CCAUC, ac mae sylwadau wedi eu cyflwyno i fy adran ar y cynigion y mae CCAUC wedi eu cyflwyno. Felly, na, ni allaf gadarnhau hynny.

Simon Thomas: Diolch i'r Gweinidog am yr eglurhad hwnnw, sy'n esbonio pethau penodol ar gyfer rhai sefydliadau. Bydd yn gwybod bod y rhaglen lywodraethu yn cynnwys targed pendant na fydd unrhyw sefydliad yng Nghymru o dan y canolrif o 75 y cant ar gyfer sefydliadau yn y DU erbyn 2013. Fodd bynnag, bydd hefyd yn gwybod bod yr ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid y mae newydd ei osod allan yn datgan yn glir nad yw hyn yn seiliedig ar dystiolaeth, ond ar farn. Os bydd yn awr yn derbyn tystiolaeth gan sefydliadau yn erbyn uno, yn nodi'r dystiolaeth pam y dylent gael perthynas rhanbarthol neu strategol gwahanol gyda phrifysgolion, a fydd yn defnyddio ei farn i fynd gyda llif y datblygiad organig yn y sector, yn hytrach na gorfodi newidiadau artifisial?

Leighton Andrews: Mae gennym ymrwymiad manifest o blaid nifer llai o brifysgolion cryfach, a dyna oedd, yn ei hanfod, safbwynt polisi Llywodraeth Cymru'n Un. Bu i Gabinet y Llywodraeth flaenorol gymeradwyo cynigion yng nghynllun corfforaethol CCAUC, a oedd yn amlinellu'r maint gorau posibl ar gyfer

institutions in Wales. We will be proceeding properly to evaluate the responses received through the stakeholder engagement exercise and we will reach judgments accordingly as a Government, in line with our manifesto commitment.

Aled Roberts: Rhaid imi ddatgan buddiant fel llywodraethwr yng Ngholeg Iâl, Wrexham. Cyfeiriwyd eisoes at ailstrwythuro addysg uwch, ac mae rhaglen trawsnewid hefyd yn y sector addysg bellach. A yw'n bosibl inni edrych i newid y berthynas rhwng addysg uwch ac addysg bellach fel rhan o'r sefyllfa hon, os yw'r problemau mae Simon Thomas eisoes wedi'u crybwyll yn achosi pryder i'r Gweinidog?

Leighton Andrews: Our higher education strategy, 'For Our Future', which was published nearly two years ago by my predecessor, made it clear that we look to ensure that the higher education system builds on the progression from further education, and that we expect further education institutions to work alongside higher education institutions. Those issues will be taken into account as we respond to the stakeholder engagement exercise.

Aled Roberts: On the governance issue, which is causing us all a great deal of concern at the moment, will any aspect of governance arrangements within higher education be dealt with as part of the restructuring or the review of higher education? Are you able to make any announcements on that?

Leighton Andrews: We published the McCormick review of governance in higher education, before the election, and it was a manifesto commitment of my party that we would subsequently legislate on the governance of higher education. We will bring forward proposals for consultation in due course.

David Rees: On the flip side of Simon Thomas's question, if mergers occur, will you assure me, Minister, that the mission statements of individual institutions are maintained? They are significantly different from each other and serve different

sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Byddwn yn bwrw ymlaen yn iawn i werthuso'r ymatebion a dderbyniwyd drwy'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a byddwn yn cyrraedd dyfarniadau yn unol â hynny fel Llywodraeth, yn unol â'n hymrwymiad maniffesto.

Aled Roberts: I must declare an interest as a governor of Yale College, Wrexham. The restructuring of higher education has already been mentioned, and there is also a transformation programme in the further education sector. Is it possible to look at changing the relationship between HE and FE as part of this situation, if the problems that Simon Thomas has already alluded to are causing concern to the Minister?

Leighton Andrews: Yr oedd ein strategaeth addysg uwch, 'Er Mwyn Ein Dyfodol', a gyhoeddwyd bron ddwy flynedd yn ôl gan fy rhagflaenydd, yn ei gwneud yn glir ein bod yn ceisio sicrhau bod y system addysg uwch yn adeiladu ar y dilyniant o addysg bellach, a'n bod yn disgwyl i sefydliadau addysg bellach weithio ochr yn ochr â sefydliadau addysg uwch. Bydd y materion hynny'n cael eu hystyried wrth i ni ymateb i'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Aled Roberts: Ar fater llywodraethu, sy'n peri pryder mawr i ni i gyd ar hyn o bryd, a fydd unrhyw agwedd ar drefniadau llywodraethu o fewn addysg uwch gael eu trin fel rhan o'r ailstrwythuro neu'r adolygiad o addysg uwch? A ydych yn gallu gwneud unrhyw gyhoeddiadau ar hynny?

Leighton Andrews: Bu inni gyhoeddi adolygiad McCormick ar lywodraethiant mewn addysg uwch cyn yr etholiad, ac yr oedd yn ymrwymiad ym maniffesto fy mhlaid y byddem wedyn yn deddfu ar lywodraethu o fewn addysg uwch. Byddwn yn cyflwyno cynigion maes o law a fydd yn destun ymgynghoriad.

David Rees: I droi cwestiwn Simon Thomas ar ei ben, os bydd uno yn digwydd, a wnewch chi fy sicrhau, Weinidog, y bydd datganiadau cenhadaeth sefydliadau unigol yn cael eu cadw? Maent yn wahanol iawn i'w gilydd ac yn gwasanaethu gwahanol gymunedau yng

communities within Wales. It is important that all our students in Wales have an opportunity to go to an institution in Wales to meet their aspirations.

Leighton Andrews: Clearly, if the missions of individual higher education institutions are in accordance with our higher education strategy, as set out in 'For our Future', we will want to ensure that those missions continue in the future.

Colegau Addysg Bellach

3. Mike Hedges: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol colegau addysg bellach yng Nghymru. OAQ(4)0038(ESK)*

Leighton Andrews: We are considering responses to the consultation on FE governance. The sector has responded well to the transformation policy. Its commitment to meeting the independent review of the structure of education services in Wales will provide valuable efficiencies and ensure that learners enjoy greater access to high-quality courses.

Mike Hedges: I agree with your proposals to merge colleges across Wales. However, I have concerns. I am aware that each institution has full autonomy over the curriculum and courses on offer. Will you tell me what the Welsh Government is doing to ensure that a full range of subjects and courses will be available in each of the new merged colleges?

Leighton Andrews: We want to ensure that learners have an effective choice before them. Sometimes, that will be undertaken by a single institution, and sometimes it will be undertaken by institutions collaborating with each other, whether they are FE colleges or whether they are school sixth forms. What we want to ensure is that we do not have unnecessary competition, where too many institutions are providing the same subject but with class sizes that are too small. Therefore, what we are looking for is proper collaboration between institutions to deliver a good range of subjects.

William Graham: With regard to the higher

Nghymru. Mae'n bwysig bod pob myfyriwr yng Nghymru yn cael cyfle i fynd i sefydliad yng Nghymru i gwrdd â'i ddyheadau.

Leighton Andrews: Yn amlwg, os yw bwriadau sefydliadau addysg uwch unigol yn unol â'n strategaeth addysg uwch, fel y nodwyd yn 'Er Mwyn Ein Dyfodol', yr ydym yn awyddus i sicrhau eu bod yn parhau at y dyfodol.

Further Education Colleges

3. Mike Hedges: *Will the Minister make a statement on the future of further education colleges in Wales. OAQ(4)0038(ESK)*

Leighton Andrews: Yr ydym yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ar lywodraethu addysg bellach. Mae'r sector wedi ymateb yn dda i'r polisi trawsnewid. Bydd ei ymrwymiad i fodloni'r adolygiad annibynnol o strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru yn darparu effeithlonrwydd gwerthfawr ac yn sicrhau mynediad gwell at gyrsiau o ansawdd uchel i ddysgwyr.

Mike Hedges: Yr wyf yn cytuno â'ch cynigion i uno colegau ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae gennyf bryderon. Yr wyf yn ymwybodol bod gan bob sefydliad ymreolaeth lawn dros y cwricwlwm a'r cyrsiau sydd ar gael. A wnewch chi ddweud wrthyf beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau y bydd ystod lawn o bynciau a chysiau ar gael ym mhob un o'r colegau cyfunedig newydd?

Leighton Andrews: Rydym am sicrhau bod dewis effeithiol gan ddysgwyr. Weithiau, fe fydd hynny'n cael ei wneud gan un sefydliad, ac weithiau bydd yn cael ei wneud gan sefydliadau sy'n cydweithio â'i gilydd, p'un a ydynt yn golegau addysg bellach neu chweched dosbarth ysgolion. Yr hyn yr ydym am ei sicrhau yw nad oes gennym gystadleuaeth ddiangen, lle mae gormod o sefydliadau yn darparu'r un pwnc ond gyda dosbarthiadau sy'n rhy fach. Felly, yr hyn yr ydym yn chwilio amdano yw cydweithredu priodol rhwng sefydliadau i ddarparu ystod dda o bynciau.

William Graham: O ran y sector addysg

education sector, which is presently enjoying some confusion, how are you going to ensure that the future of higher education courses, particularly those taught in further education colleges, will be maintained and enhanced?

Leighton Andrews: Our higher education strategy, 'For our Future', made it clear that we are interested in the delivery of higher education through both higher education institutions and further education institutions. We have some excellent examples of where the further education sector is providing courses, often in collaboration with higher education institutions—Bridgend College is one example, but there are many others. What we want to ensure is that those activities continue and that further education colleges, where they wish, are involved in the awarding of foundation degrees.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. Will you enhance the Chamber's understanding of your strategy, particularly with regard to part-time courses, which are so vital for our skills agenda?

Leighton Andrews: I made a statement on the proposed fee arrangements for part-time students before the recess. We have made it clear that we see part-time study as an important part of the programme of delivery of higher education. We remain committed to it. We have seen some great successes in Wales through a number of institutions, not least the Open University.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, mae gennyf gwestiwn penodol ichi ynglŷn â strwythurau llywodraethu sefydliadau addysg bellach. A gytunwch ei bod yn bwysig bod llais myfyrwyr yn cael ei glywed ar y cyrff llywodraethu? A oes gennych unrhyw fwriad i sicrhau bod hynny yn digwydd ar batrwm cyffredinol drwy Gymru gyfan ac yn yr holl sefydliadau?

Leighton Andrews: Certainly, we regard it as important that the voice of learners is heard within further and higher education institutions. One of the ways in which that can be done is through properly resourced student unions, but also through representation, as appropriate, on governing

uwch, sydd ar hyn o bryd yn profi rhywfaint o ddryswch, sut fyddwch chi'n sicrhau bod dyfodol cyrsiau addysg uwch, yn enwedig y rhai a addysgir mewn colegau addysg bellach, yn cael ei gynnal a'i wella?

Leighton Andrews: Mae ein strategaeth addysg uwch, 'Er Mwyn Ein Dyfodol', wedi ei gwneud yn glir ein bod am weld addysg uwch yn cael ei gyflwyno drwy sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach. Mae gennym rai enghreifftiau gwych lle mae'r sector addysg bellach yn darparu cyrsiau, yn aml ar y cyd â sefydliadau addysg uwch—mae Coleg Penybont yn un enghraifft, ond mae llawer o enghreifftiau eraill. Yr hyn yr ydym am ei sicrhau yw bod y gweithgareddau hynny'n parhau a bod colegau addysg bellach, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn dyfarnu graddau sylfaen.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weinidog. A wnewch chi wella dealltwriaeth y Siambr o ran eich strategaeth, yn enwedig o ran cyrsiau rhan-amser, sydd mor hanfodol i'n hagenda sgiliau?

Leighton Andrews: Gwneuthum ddatganiad am y trefniadau ffioedd arfaethedig ar gyfer myfyrwyr rhan-amser cyn y toriad. Yr ydym wedi dweud yn glir ein bod yn gweld astudiaeth ran-amser fel rhan bwysig o'r rhaglen o ddarparu addysg uwch. Mae ein hymrwymiad iddo'n parhau. Rydym wedi gweld rhai llwyddiannau mawr yng Nghymru drwy nifer o sefydliadau, yn enwedig y Brifysgol Agored.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, I have a specific question on the governance structure of further education institutions. Do you agree that it is important that the voice of students is heard on governing bodies? Do you have any intention of ensuring that that happens in a uniform way across Wales and in all institutions?

Leighton Andrews: Yn sicr, yr ydym yn ei ystyried yn bwysig bod llais dysgwyr yn cael ei glywed mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch. Un o'r ffyrdd y gellid gwneud hynny yw drwy undebau myfyrwyr sydd â'r adnoddau priodol, ond hefyd drwy gynrychiolaeth, fel y bo'n briodol, ar gyrff

bodies. When we bring forward our conclusions on the FE governance review, I expect to have something to say on that.

llywodraethu. Pan fyddwn yn cyflwyno ein casgliadau ar yr adolygiad o lywodraethu addysg bellach, yr wyf yn disgwyl y bydd gennyf rywbeth i'w ddweud am hynny.

1.45 p.m.

Peter Black: Minister, I understand that the foundation degrees and higher education provision that FE colleges deliver are basically provided through a higher education institution, which, effectively, commissions the work from the FE sector. Have you given any thought to that work being funded directly by the Higher Education Funding Council for Wales, particularly in relation to foundation degrees, which FE colleges seem to be in a good position to deliver?

Peter Black: Weinidog, yr wyf yn deall bod y graddau sylfaen a'r ddarpariaeth addysg uwch a gyflwynir gan golegau addysg bellach yn cael eu darparu, yn sylfaenol, trwy sefydliad addysg uwch, sydd, i bob pwrpas, yn comisiynu'r gwaith o'r sector addysg bellach. A ydych chi wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i ariannu'r gwaith hwnnw'n uniongyrchol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yn enwedig mewn perthynas â graddau sylfaen, y mae colegau addysg bellach yn ymddangos fel pe baent mewn sefyllfa dda i'w darparu?

Leighton Andrews: As we take forward the programme of higher education reforms, we anticipate that more people will want to study closer to home, and that will be one of a number of issues that we will need to address.

Leighton Andrews: Wrth inni fwrw ymlaen â'r rhaglen o ddiwygiadau addysg uwch, rydym yn rhagweld y bydd mwy o bobl am astudio yn nes at adref, a bydd hynny'n un o nifer o faterion y bydd angen inni roi sylw iddynt.

Mick Antoniw: In view of the announcement that you made earlier in the year on funding arrangements and changes to the funding for the twenty-first century schools programme, can you give us an update on the current state of that programme and any timetables involved in applications for support?

Mick Antoniw: O ystyried y cyhoeddiad a wnaethoch yn gynharach yn y flwyddyn ar drefniadau cyllido a newidiadau i'r cyllid ar gyfer rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni ar gyflwr cyfredol y rhaglen honno ac unrhyw amserlenni sy'n ymwneud â cheisiadau am gymorth?

Leighton Andrews: We have asked local authorities to make submissions to us during the course of this term. Ideally, we would like to make a further announcement to the National Assembly before the Christmas recess. This is an opportunity for local authorities to look again at their programmes and at the prospects of bringing forward additional support from their resources on the basis of a 50 per cent intervention rate.

Leighton Andrews: Rydym wedi gofyn i awdurdodau lleol wneud cyflwyniadau inni yn ystod y tymor hwn. Yn ddelfrydol, hoffwn wneud cyhoeddiad pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn toriad y Nadolig. Mae hwn yn gyfle i awdurdodau lleol edrych eto ar eu rhaglenni ac ar y rhagolygon o ddod â chefnogaeth ychwanegol ymlaen o'u hadnoddau ar sail cyfradd ymyrryd o 50 y cant.

Paul Davies: Minister, you talked about FE colleges being able to deliver HE courses when appropriate. As you will be aware, Pembrokeshire College has been substantially disadvantaged due to a decision by HEFCW to cut its funding down to 21 per cent of the college's current HE programme. That is a

Paul Davies: Weinidog, fe wnaethoch chi sôn am golegau addysg bellach yn gallu cyflwyno cyrsiau AU pan fo hynny'n briodol. Fel y gwyddoch, mae Coleg Sir Benfro wedi bod dan anfantais sylweddol o ganlyniad i benderfyniad gan CCAUC i dorri ei gyllid i lawr i 21 y cant o raglen AU gyfredol y

huge cut, and I am sure that you appreciate that it will have an enormous impact on the ability of the college to offer HE courses in future. It will also have a negative impact on local employers, who have relied on such courses in the past to improve employees' knowledge and skills. I appreciate that you, as Minister, have to remain at arm's length from HEFCW's funding decisions, but will you acknowledge and agree that a decision such as this will have a huge impact on the ability of the college to deliver HE courses in Pembrokeshire?

Leighton Andrews: HEFCW has to ensure that there is a balance between institutions in Wales in delivering higher education courses; it does so based on the units that it has assessed as appropriate. These are decisions for the Higher Education Funding Council for Wales; they are not decisions for me.

Ieithoedd Tramor Modern

4. Mohammad Asghar: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag ysgolion i gynyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol 4. OAQ(4)0043(ESK)*

The Deputy Minister for Skills (Jeff Cuthbert): I thank Mohammad Asghar for that question. Through the 'Making languages count' action plan, we are promoting a range of activities to widen the opportunities for pupils aged 14 and over to study modern foreign languages. This includes new national vocational qualification provision and the development of foreign language units linked to the Welsh baccalaureate qualification.

coleg. Mae hynny'n doriad enfawr, ac yr wyf yn siŵr eich bod yn deall y bydd hyn yn cael effaith enfawr ar allu'r coleg i gynnig cyrsiau addysg uwch yn y dyfodol. Bydd hefyd yn cael effaith negyddol ar gyflogwyr lleol, sydd wedi dibynnu ar gyrsiau o'r fath yn y gorffennol i wella gwybodaeth a sgiliau gweithwyr. Yr wyf yn sylweddoli bod yn rhaid i chi, fel Gweinidog, aros hyd braich o benderfyniadau cyllido CCAUC, ond a fyddwch yn cydnabod ac yn cytuno y bydd penderfyniad fel hwn yn cael effaith enfawr ar allu'r coleg i gyflwyno cyrsiau AU yn sir Benfro?

Leighton Andrews: Mae'n rhaid i CCAUC sicrhau bod cydbwysedd rhwng sefydliadau yng Nghymru o ran darparu cyrsiau addysg uwch; mae'n gwneud hynny ar sail yr unedau y mae wedi'u hasesu yn rhai priodol. Mae'r rhain yn benderfyniadau i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; nid ydynt yn benderfyniadau i mi.

Modern Foreign Languages

4. Mohammad Asghar: *Will the Minister provide an update on how the Welsh Government is working with schools to boost the take-up of modern foreign languages by pupils at key stage 4. OAQ(4)0043(ESK)*

Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau (Jeff Cuthbert): Diolch i Mohammad Asghar am y cwestiwn hwnnw. Drwy gynllun gweithredu 'Sicrhau bod ieithoedd yn cyfrif', rydym yn hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau i ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion 14 oed a throsodd i astudio ieithoedd tramor modern. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth cymhwyster galwedigaethol cenedlaethol newydd a datblygu unedau iaith dramor yn gysylltiedig â chymhwyster bagloriaeth Cymru.

Mohammad Ashgar: I have expressed concerns that, during the third Assembly, there was a 14 per cent fall in the number of 15-year-olds entered for GCSE examinations for modern foreign languages. You have accepted the need to halt this worrying trend, and have also highlighted the importance of pupils learning languages such as Mandarin, Spanish and Arabic, given their increasing global importance. These three languages are among the four most-spoken languages, and are all official languages of the United Nations. However, only 1,645 15-year-old pupils were entered for GCSE examinations in Spanish in 2010, and only a handful had the opportunity to study—

The Presiding Officer: Order. Are we getting to a question?

Mohammad Asghar: Only a handful went for Arabic and Mandarin. Since you launched the ‘Making languages count’ action plan last year, are you confident that progress is being made? Crucially, why is there no mention of modern languages in the programme for government?

Jeff Cuthbert: I could just say ‘yes’ to that question.

The Presiding Officer: Thank you. Shall we move on, then, or are you going to expand on that answer?

Jeff Cuthbert: I will, if I may. We acknowledge that there has been a steady fall in the take-up of modern foreign languages, and we are taking action to encourage greater take-up, through the 14-19 learning pathways and CILT Cymru. We have invested £675,000 in the latter this financial year to support its programme of work. I daresay that this matter will be referred to in the qualifications review that I announced two weeks ago.

Jenny Rathbone: I recently attended an autumn festival celebration laid on by the Confucius Institute, which included presentations by children from several schools who are being encouraged to learn Mandarin. As Mandarin is by far the world’s

Mohammad Ashgar: Yr wyf wedi mynegi pryderon y bu gostyngiad yn ystod y trydydd Cynulliad o 14 y cant yn nifer y disgyblion 15 mlwydd oed a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau TGAU mewn ieithoedd tramor modern. Yr ydych wedi derbyn yr angen i atal y duedd hon, sy’n peri pryder, ac yr ydych hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd dysgu ieithoedd megis Mandarin, Sbaeneg ac Arabeg, o ystyried eu pwysigrwydd byd-eang cynyddol. Mae’r tair iaith hyn ymhlith y pedair iaith a siaredir fwyaf, ac maent i gyd yn ieithoedd swyddogol y Cenhedloedd Unedig. Fodd bynnag, dim ond 1,645 o ddisgyblion 15 mlwydd oed a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau TGAU yn Sbaeneg yn 2010, a dim ond llond llaw a gafodd y cyfle i astudio—

Y Llywydd: Trefn. A ydym ar fin cyrraedd y cwestiwn?

Mohammad Asghar: Dim ond llond llaw a ddewisodd Arabeg a Mandarin. Ers i chi lansio cynllun gweithredu ‘Gwneud i ieithoedd gyfrif’ y llynedd, a ydych yn hyderus bod cynnydd yn cael ei wneud? Yn hanfodol, pam nad oes sôn am ieithoedd modern yn y rhaglen lywodraethu?

Jeff Cuthbert: Gallaf i jest ateb ‘ydw’ i’r cwestiwn hwnnw.

Y Llywydd: Diolch yn fawr. A gawn ni symud ymlaen, neu a ydych yn mynd i ehangu ar yr ateb hwnnw?

Jeff Cuthbert: Gwnaf, os caf. Rydym yn cydnabod y bu gostyngiad cyson yn y niferoedd sy’n astudio ieithoedd tramor modern, ac rydym yn cymryd camau i annog mwy i wneud hynny, drwy’r llwybrau dysgu 14-19 a CILT Cymru. Yr ydym wedi buddsoddi £675,000 yn CILT Cymru yn y flwyddyn ariannol hon i gefnogi ei rhaglen waith. Mae’n debygol iawn y bydd y mater hwn yn cael ei gyfeirio ato yn yr adolygiad cymwysterau a gyhoeddais bythefnos yn ôl.

Jenny Rathbone: Yn ddiweddar, mynychais ddathliad gŵyl yr hydref a gynhaliwyd gan Sefydliad Confucius, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan blant o nifer o ysgolion sydd yn cael eu hannog i ddysgu Mandarin. Gan taw Mandarin yw’r iaith a siaredir fwyaf

most-used language, and is increasingly the language of business and crucial for promoting future business, could the Minister tell us how we will encourage more pupils to learn Mandarin?

Jeff Cuthbert: I thank the Member for that question. I accept that Mandarin is probably the language spoken by the greatest number of people in the world, but whether it is the most widely spoken is a matter for discussion. Nevertheless, we accept fully the desirability of improving our provision for the teaching of that language. CILT Cymru is working closely with the Confucius Institute at Cardiff University and the University of Wales Trinity Saint David, and has provided direct support for the Wales-China school project. Indeed, we have recently provided funding support of £45,000 for that purpose.

Alun Ffred Jones: Dylai'r niferoedd sy'n astudio ail neu drydedd iaith yn ein hysgolion fod yn achos pryder mawr i'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae problem arall, sef ansawdd y dysgu a'r addysgu. Yn y 1970au yr oedd cryn dipyn o ddatblygiadau yn y maes hwn, ond nid yw pasio arholiad TGAU mewn ail iaith erbyn hyn yn golygu eich bod yn gallu siarad yr iaith yn rhugl, neu hyd yn oed yn hanner rhugl. Felly, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i geisio hyrwyddo dulliau dysgu sy'n golygu bod y rhai sy'n llwyddo yn yr arholiadau hefyd yn gallu siarad yr iaith?

Jeff Cuthbert: I thank Alun Ffred Jones very much for that question. I think that I have already answered the question, at least in part, by referring to the work that we are doing with CILT Cymru and to the new units that we have developed. I also expect this matter to be referred to considerably in the qualifications review. Teaching methods have to be appropriate, whatever the subject being taught. I am sure that we will want to take that matter on board.

William Powell: As a former teacher of modern foreign languages, I share the Minister's commitment to this important

yn y byd, a'i bod yn fwyfwy yn iaith busnes ac yn hanfodol ar gyfer hybu busnes yn y dyfodol, a all y Gweinidog ddweud wrthym sut y byddwn yn annog mwy o ddisgyblion i ddysgu Mandarin?

Jeff Cuthbert: Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwnnw. Derbynai mai Mandarin, mae'n debyg, yw'r iaith a siaredir gan y nifer fwyaf o bobl yn y byd, ond ai Mandarin yw'r iaith y siaredir yn fwyaf eang? Mae hynny'n fater i'w drafod. Serch hynny, rydym yn derbyn yn llwyr y dymuniad i wella ein darpariaeth ar gyfer addysgu'r iaith honno. Mae CILT Cymru yn gweithio'n agos gyda Sefydliad Confucius ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac mae wedi rhoi cymorth uniongyrchol ar gyfer prosiect ysgol Cymru-Tsieina. Yn wir, rydym wedi darparu cefnogaeth ariannol o £45,000 yn ddiweddar at y diben hwnnw.

Alun Ffred Jones: The numbers studying a second or third language in our schools should be a matter of great concern to the Government. However, there is another problem, and that is the quality of the learning and teaching. In the 1970s there were considerable developments in this area, but passing a GCSE exam in a second language these days does not mean that you can speak the language fluently, or even half fluently. Therefore, what is the Government doing to try to promote teaching methods that mean that those who succeed in the exams are also able to speak the language?

Jeff Cuthbert: Diolch yn fawr i Alun Ffred Jones am y cwestiwn hwnnw. Credaf fy mod eisoes wedi ateb y cwestiwn, o leiaf yn rhannol, drwy gyfeirio at y gwaith yr ydym yn ei wneud gyda CILT Cymru ac at yr unedau newydd yr ydym wedi'u datblygu. Rwyf hefyd yn disgwyl i'r adolygiad o gymwysterau gyfeirio at y mater hwn yn helaeth. Mae'n rhaid i ddulliau addysgu fod yn briodol, beth bynnag yw'r pwnc sy'n cael ei addysgu. Yr wyf yn sicr y byddwn yn awyddus i gymryd y mater hwnnw i ystyriaeth.

William Powell: Fel cyn athro ieithoedd tramor modern, yr wyf yn rhannu ymrwymiad y Gweinidog i'r maes pwysig

area. In recent years, there has been a sharp fall-off in the number of native-speaker language assistants employed in our schools. Would the Minister agree that the development of a programme to increase the number of assistants would be desirable and should be a priority for the Government?

Jeff Cuthbert: As I have said—for the third time now, I think—CILT Cymru is working on this matter on our behalf. If it makes that recommendation, I am sure that we would consider it seriously.

Arolygiadau Ysgolion

5. Bethan Jenkins: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am arolygiadau ysgolion. OAQ(4)0040(ESK)*

Leighton Andrews: Anne Keane, y Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant, sy'n gyfrifol am arolygiadau yng Nghymru. Mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, a dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am faterion gweithredol at y prif arolygydd. Mae gan arolygu annibynnol rôl allweddol i'w chwarae o ran dal ysgolion i gyfrif.

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb. Mae'n debyg y byddaf yn ysgrifennu at yr arolygydd penodol gyda'r cwestiwn hwn. Yr wyf yn datgan buddiant gan fod fy mam yn athrawes. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod rota pump i chwe blynedd ar hyn o bryd o ran arolygiadau ysgolion. Felly, er bod ysgolion yn cael hysbysiad o tua 15 diwrnod gwaith cyn bod arolygiad yn digwydd, mae nifer o ysgolion yn aros am yr amlen i ddod drwy'r post, ac yn barod wedi paratoi ar gyfer yr arolygiadau penodol hynny. A yw'r Gweinidog yn credu y dylid cael adolygiadau yn y fan a'r lle heb roi gwybod i'r ysgol o flaen llaw, er mwyn caniatáu i rieni a phawb arall sy'n ymwneud â'r ysgolion gael darlun cliriach o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol o ddydd i ddydd?

Leighton Andrews: I think that the new common inspection framework, which Estyn has embarked upon in the last 12 months, is proving to be a rigorous form of inspection. It is more reliant on full-time inspectors directly employed by Estyn. It demonstrates to

hwn. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad sydyn yn nifer y cynorthwyr iaith gyntaf a gyflogir yn ein hysgolion. A fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod y gwaith o ddatblygu rhaglen i gynyddu nifer y cynorthwyr yn ddymunol ac y dylai fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth?

Jeff Cuthbert: Fel yr wyf wedi dweud—am y trydydd tro yn awr, yr wyf yn meddwl—mae CILT Cymru yn gweithio ar y mater hwn ar ein rhan. Os yw'n gwneud yr argymhelliad hwnnw, yr wyf yn siŵr y byddem yn ei ystyried o ddifrif.

School Inspections

5. Bethan Jenkins: *Will the Minister make a statement on school inspections. OAQ(4)0040(ESK)*

Leighton Andrews: School inspections in Wales are the responsibility of Ann Keane, the Chief Inspector of Education and Training. Estyn is independent of the Welsh Government and issues relating to operational matters should be referred to the chief inspector. Independent inspection plays a key role in holding schools to account.

Bethan Jenkins: Thank you for that answer. I am sure that I will be writing to the specific inspector with this question. I declare an interest as my mother is a teacher. The Minister will be aware that there is a five to six year school inspection rota at present. Therefore, although schools are given around 15 working days' notice of an inspection, many schools are waiting for the envelope to come through the post, and have already prepared for those particular inspections. Does the Minister believe that there should be spot inspections without advance notice to the school, to allow parents and others who are involved with the school to have a clearer picture of what goes on in the school from day to day?

Leighton Andrews: Yr wyf yn meddwl ein bod ni'n gweld bod y fframwaith arolygu cyffredin newydd, a gychwynnwyd gan Estyn yn y 12 mis diwethaf, yn ffordd drylwyr o arolygu. Mae'n fwy dibynnol ar arolygwyr llawn-amser a gyflogir yn uniongyrchol gan

schools that there is a rigour in the inspection process, and that is to be welcomed.

William Graham: Minister, do you agree with Councillor Peter Fox—the Welsh Local Government Association’s lead spokesman on education—that the WLGA remains fully committed to local government being the best place to deliver education? How do you intend to support local authorities in improving the delivery of education and to ensure that that is reflected in future school inspections?

Leighton Andrews: We work closely with the Welsh Local Government Association and its education spokesperson, Councillor Peter Fox, who is the leader of Monmouthshire County Council. I am interested in the questions that you have raised, because, from my understanding of your party’s policy, you want to fund schools directly, and that is not the policy of the Welsh Local Government Association.

Prydau Ysgol am Ddim

6. Kirsty Williams: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r gwaith mae ei adran yn ei wneud i wella cyrhaeddiad disgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim. OAQ(4)0046(ESK)*

Leighton Andrews: Outcomes for pupils on free school meals are unacceptable. Tackling deprivation is at the heart of my 20 actions for schools. The banding system will demonstrate which schools are performing well in addressing this issue.

Kirsty Williams: Thank you for that answer, Minister. I agree that the current statistic on the attainment of pupils who receive free school meals is deplorable. It is a section of society that we need to do much more to help. What action does the Government intend to take, and what additional support might the Government be able to provide for those children to improve their access to opportunities and improve the outcomes that they are able to obtain?

Estyn. Mae’n dangos i ysgolion fod trylwyrdd yn y broses arolygu, ac mae hynny i’w groesawu.

Gwyn R. Price: Thank you for that answer, Minister. I recently addressed the school council of Pontllanfraith Comprehensive School about participation in elections. Will you join me in congratulating Pontllanfraith Comprehensive School on organising this meeting, and do you agree with me that school councils are an excellent introduction to democratic participation for schools across Wales?

Gwyn R. Price: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ddiweddar, anerchais gyngor ysgol Ysgol Gyfun Pontllanfraith am gymryd rhan mewn etholiadau. A wnewch ymuno â mi i longyfarch Ysgol Gyfun Pontllanfraith am drefnu'r cyfarfod hwn, ac a ydych yn cytuno â mi fod cynghorau ysgol yn gyflwyniad ardderchog i gyfranogiad democrataidd ar gyfer ysgolion ledled Cymru?

Leighton Andrews: I am very pleased to join the Member for Islwyn in congratulating Pontllanfraith Comprehensive School on its work and the work of its school council. The Assembly Commission itself has a very good scheme in place, whereby school councils can come to the home of democracy in Wales to undertake their own scrutiny processes and deliberations. I know that many schools throughout Wales have taken up that opportunity, and I agree that it is a great way to learn about democracy.

Leighton Andrews: Yr wyf yn falch iawn i ymuno â'r Aelod dros Islwyn i longyfarch Ysgol Gyfun Pontllanfraith ar ei gwaith a gwaith ei chyngor ysgol. Mae gan Gomisiwn y Cynulliad ei hun gynllun da iawn ar waith, lle gall cynghorau ysgol ddod i gartref democratiaeth yng Nghymru i gynnal eu prosesau a thrafodaethau craffu eu hunain. Gwn fod llawer o ysgolion ledled Cymru wedi manteisio ar y cyfle hwnnw, ac yr wyf yn cytuno ei bod yn ffordd wych o ddysgu am ddemocratiaeth.

Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau Questions to the Minister for Local Government and Communities

The Presiding Officer: Question 1, OAQ(4)0051(LGC), has been withdrawn.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 1, OAQ (4) 0051 (LGC) yn ôl.

Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau

Misusing Alcohol and Drugs

2. Elin Jones: *Sut mae'r Llywodraeth yn*

2. Elin Jones: *How is the Government*

darparu cymorth i gleifion sy'n camddefnyddio alcohol a chyffuriau. OAQ(4)0037(LGC)

providing support for patients who misuse alcohol and drugs. OAQ(4)0037(LGC)

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I thank the Member for Ceredigion for the question. The Welsh Government continues to invest over £50 million to implement the actions within the 10-year substance misuse strategy for Wales, 'Working Together to Reduce Harm', and build upon its achievements such as improving access, availability and quality of children and young people's services and tackling alcohol misuse.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Diolch i'r Aelod dros Geredigion am y cwestiwn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi dros £50 miliwn i weithredu'r camau yn y strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd ar gyfer Cymru, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', ac yn adeiladu ar ei gyflawniadau fel gwella mynediad, argaeledd ac ansawdd gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc a mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol.

Elin Jones: Last year, there were 47 referrals for tier 4 residential rehabilitation services to residential centres in Wales, but there were also 40 referrals from Wales to English centres, therefore almost half were referred out of Wales for these services. There are good residential rehabilitation centres in Wales, including Rhosserchan in my constituency. What plans do you have to increase the number of referrals staying in Wales, and will you agree to visit Rhosserchan in my constituency to see its good work?

Elin Jones: Y llynedd, roedd 47 o atgyfeiriadau i'r gwasanaethau adsefydlu haen 4 i ganolfannau preswyl yng Nghymru, ond hefyd cafwyd 40 o atgyfeiriadau o Gymru i ganolfannau yn Lloegr, felly roedd bron i hanner wedi'u hatgyfeirio allan o Gymru ar gyfer y gwasanaethau hyn. Mae canolfannau adsefydlu preswyl da yng Nghymru, gan gynnwys Rhosserchan yn fy etholaeth i. Pa gynlluniau sydd gennych i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau sy'n aros yng Nghymru, ac a gytunwch i ymweld â Rhosserchan yn fy etholaeth i weld ei waith da?

Carl Sargeant: Thank you for your question. I am aware of Rhosserchan and the issues that surround that unit. I would be pleased if you were to write to me on the detail of a potential future visit, which I may be able to join you on. In terms of our opportunities to enhance Welsh provision, it is our ambition to include and access more tier 4 services in Wales. However, before that, we must identify early opportunities for prevention before patients reach tier 4 units, which they will need to support their rehabilitation.

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn. Yr wyf yn ymwybodol o Rosserchan a'r materion sy'n gysylltiedig â'r uned honno. Byddwn yn falch pe baech yn ysgrifennu ataf ar fanylion ymweliad posibl yn y dyfodol, ac mae'n bosibl y byddaf yn gallu ymuno â chi. O ran ein cyfleoedd i wella darpariaeth iaith Gymraeg, ein huchelgais yw cynnwys a chael mynediad i fwy o wasanaethau haen 4 yng Nghymru. Fodd bynnag, cyn hynny, rhaid i ni nodi cyfleoedd cynnar i atal cyn i gleifion gyrraedd unedau haen 4, y bydd eu hangen arnynt i gefnogi eu hadsefydlu.

Mark Isherwood: How do you respond to statements by the Welsh Council on Alcohol and Other Drugs and other organisations working in this sector that many treatment facilities for drug and alcohol misuse operate a near-revolving-door policy, and that the most successful treatments for addiction are those that are peer-based? While this may run contrary to society's prevalent notions of how

Mark Isherwood: Sut ydych yn ymateb i ddatganiadau gan Gyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill a sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sector hwn fod llawer o gyfleusterau triniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol bron yn gweithredu polisi i mewn ac allan, ac mai'r triniaethau mwyaf llwyddiannus ar gyfer dibyniaeth yw'r rheiny sy'n seiliedig ar gyfoedion? Er y gallai

medical science works, it is nonetheless true and borne out by increasing statistical evidence.

Carl Sargeant: You always bring interesting statistics to the Chamber, Mark, and I thank you for that. I am surprised that you are unable to support the improved services that we are seeing in Wales, albeit in challenging times. I understand that this challenge may increase in the future as we see more people becoming unemployed and experiencing difficult personal circumstances where they may turn to drink or drugs. You could possibly help that situation by lobbying the Westminster Government to provide additional funding.

Peter Black: Minister, I recently attended the launch of the Heroin Ruins Lives campaign in Swansea, which is a collaboration between the police and the various drug agencies to deal with that particular problem in the Swansea area. What support and assistance are you giving to that campaign, and what additional help can you give to those agencies to try to deal with this problem, which is rife in the Swansea area?

Carl Sargeant: There are pressure points across the country in terms of this, and I welcome the campaign that was launched recently. One of our more recent initiatives is the naloxone project, which is a take-home project that provides naloxone, which temporarily reverses the symptoms of opiate overdose and overuse of the substance. We have launched 1,000 such kits across Wales and it is making a huge impact on people's lives. However, drug use is a challenging area. I recently attended a service user group in north Wales, and I was surprised to learn about the huge impact that the small investment in support services has had in helping to turn people's lives around. The campaign that you mentioned is just one of those projects that is clearly making a difference.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister, and that initiative is certainly very welcome. However, it is estimated that there

hyn redeg yn groes i syniadau cyffredin cymdeithas o sut mae gwyddoniaeth feddygol yn gweithio, mae, serch hynny, yn wir ac yn cael ei gadarnhau gan dystiolaeth ystadegol gynyddol.

Carl Sargeant: Yr ydych bob amser yn dod ag ystadegau diddorol i'r Siambr, Mark, ac yr wyf yn diolch ichi am hynny. Yr wyf yn synnu nad ydych yn gallu cefnogi'r gwasanaethau yr ydym yn eu gweld yng Nghymru, er bod hynny mewn cyfnod heriol. Rwy'n deall y gall yr her hon gynyddu yn y dyfodol wrth i ni weld mwy o bobl yn ddi-waith ac yn profi amgylchiadau personol anodd lle gallant droi at ddiod neu gyffuriau. Gallech o bosibl helpu'r sefyllfa honno drwy lobïo Llywodraeth San Steffan i ddarparu cyllid ychwanegol.

Peter Black: Weinidog, yn ddiweddar, mynychais lansiad ymgyrch Mae Heroin yn Difetha Bywydau yn Abertawe, sef cydweithrediad rhwng yr heddlu a'r gwahanol asiantaethau cyffuriau i ddelio â'r broblem benodol honno yn ardal Abertawe. Pa gefnogaeth a chymorth yr ydych yn eu rhoi i'r ymgyrch honno, a pha gymorth ychwanegol y gallwch ei roi i'r asiantaethau hynny i geisio delio â'r broblem hon, sydd yn rhemp yn ardal Abertawe?

Carl Sargeant: Mae pwysau ar draws y wlad o ran hyn, ac yr wyf yn croesawu'r ymgyrch a lansiwyd yn ddiweddar. Un o'n mentrau mwy diweddar yw'r prosiect naloxone, sef prosiect cartref sy'n darparu naloxone, sy'n gwrthdroi, dros dro, symptomau gorddos o opiadau a gordefnydd o'r sylwedd. Rydym wedi lansio 1,000 o becynnau o'r fath ledled Cymru ac mae'n cael effaith enfawr ar fywydau pobl. Fodd bynnag, mae defnyddio cyffuriau yn faes heriol. Yn ddiweddar bûm mewn grŵp defnyddwyr gwasanaeth yng ngogledd Cymru, ac yr oeddwn yn synnu i ddysgu am yr effaith aruthrol y mae buddsoddiad bychan mewn gwasanaethau cymorth wedi'i gael i helpu i droi bywydau pobl o gwmpas. Mae'r ymgyrch a grybwyllwyd gennych ond yn un o'r prosiectau hynny sydd yn amlwg yn gwneud gwahaniaeth.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac y mae'r fenter yn sicr i'w chroesawu. Fodd bynnag, amcangyfrifir bod

are 8,000 heroin users in Swansea, which is a huge number. Unfortunately, the time that users have to wait to get on to a treatment programme is growing. There is clearly a need for more resources to be made available for those treatment programmes. I understand that the budget is tight and that there are issues around that, but this is a problem that affects not only Swansea, but the whole of Wales. Will you have a look at the waiting times for treatment programmes across Wales? Will you look to see whether additional resources could be put into that area to try to ensure that those people who wish to come off their addiction to these substances are able to get swift treatment?

Carl Sargeant: I am quite happy to look into that in more detail. In fact, I have already asked my team to start looking at impact assessing our current interventions. Where we are seeing good value for money and good interventions, I am asking our teams to strengthen their proposals. Following your comments, I will look closer at that particular issue.

Blaenoriaethau

3. Keith Davies: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog dros gyfnod y Cynulliad hwn. OAQ(4)0049(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for Llanelli for that question. My priorities for this Assembly term are to reduce poverty among our poorest people and communities, to make our communities safer and to support the delivery of effective and efficient public services that meet the needs of people in Wales.

Keith Davies: Diolch am yr ateb hwnnw. Weinidog, cwrddais â rheolwyr Trenau Arriva Cymru yn ddiweddar yn Llanelli a'u llongyfarch am wella'r gwasanaethau i Abergwaun. Fodd bynnag, pwysleisiais hefyd yr angen am welliannau i'r orsaf yn Llanelli. Yn yr orsaf, mae angen gwella'r profiad cyffredinol i deithwyr ac mae angen gwaith brys i wella'r sgriniau gwybodaeth a'r mannau aros. A fydddech yn barod i gyfeirio at achos gorsaf Llanelli mewn unrhyw

8,000 o ddefnyddwyr heroin yn Abertawe, sy'n nifer enfawr. Yn anffodus, mae'r amser y mae'n rhaid i ddefnyddwyr aros i fynd ar raglen driniaeth yn tyfu. Mae'n amlwg bod angen mwy o adnoddau fod ar gael ar gyfer y rhaglenni triniaeth hynny. Deallaf fod y gyllideb yn dynn a bod materion yn ymwneud â hynny, ond mae hyn yn broblem sy'n effeithio ar nid yn unig Abertawe, ond ar Gymru gyfan. A wnewch chi gael golwg ar yr amseroedd aros ar gyfer rhaglenni triniaeth ledled Cymru? A wnewch chi edrych i weld a ellir rhoi adnoddau ychwanegol yn y maes hwnnw i geisio sicrhau bod y bobl hynny sy'n dymuno diddyfnu eu dibyniaeth ar y sylweddau hyn yn gallu cael triniaeth gyflym?

Carl Sargeant: Yr wyf yn ddigon hapus i edrych i mewn i hynny yn fwy manwl. A dweud y gwir, yr wyf eisoes wedi gofyn i fy nhîm i ddechrau edrych ar asesu effaith ein hymyriadau ar hyn o bryd. Pan yr ydym yn gweld gwerth da am arian ac ymyriadau da, yr wyf yn gofyn i'n timau i gryfhau eu cynigion. Yn dilyn eich sylwadau, byddaf yn edrych yn fanylach ar y mater penodol hwnnw.

Priorities

3. Keith Davies: *What are the Minister's priorities over the period of this Assembly. OAQ(4)0049(LGC)*

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod dros Lanelli am y cwestiwn hwnnw. Fy mlaenoriaethau ar gyfer tymor y Cynulliad hwn yw lleihau tlodi ymhlith ein pobl a chymunedau tlotaf, gwneud ein cymunedau'n fwy diogel a chefnogi cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl yng Nghymru.

Keith Davies: Thank you for that answer. Minister, I met the managers of Arriva Trains Wales recently in Llanelli and congratulated them on improving the service to Fishguard. However, I also emphasises the need for improvements to the station in Llanelli. At the station, there is a need to improve the general experience for travellers and urgent work must be undertaken to improve the information screens and the waiting areas. Would you be prepared to mention Llanelli

drafodaethau a gewch ar orsafoedd trenau yng Nghymru yn y dyfodol agos?

Carl Sargeant: Following the debate the other week regarding accessibility and the quality of train stations, you will be aware that many of these stations are under the remit of Network Rail. However, I will ask my officials to have a discussion with Carmarthenshire County Council and Llanelli Town Council to see whether the station you mentioned is a candidate for the national station improvement plan, and whether there is an opportunity for them to access that funding.

Janet Finch-Saunders: I am sure that the Minister has seen the recent press reports this week about the ongoing situation in Bridgend County Borough Council, where some employees are seeing their salaries slashed in an attempt to establish equal pay between genders. What steps are you taking to adopt a pan-Wales approach to support the process of job evaluation and equal pay by local authorities?

Carl Sargeant: I thank the Member for the important question regarding how we, as the Government, can support local authorities more broadly. The principle set out by the Welsh Government is to ensure that local authorities across Wales work towards achieving settlements with regard to the equal pay agenda. The matter concerning Bridgend is a matter for that council, as it would be for any of the other 22 authorities. However, we should come to a settlement as soon as possible to ensure that the valued workforce in the public sector is paid the appropriate rate.

Janet Finch-Saunders: To date, only 10 local authorities have undertaken the job evaluation exercise. Although I advocate localism and flexibility in most areas of local government, I am disappointed that the Welsh Government is not making the effort to unify the approach of local authorities towards job evaluation. Many community needs are localised, but fair and equal pay is an important and nationwide issue, which should be treated as such. I am aware of

station in any meetings about train stations in Wales that you may have in the near future?

Carl Sargeant: Yn dilyn y ddadl yr wythnos diwethaf ar hygyrchedd ac ansawdd y gorsafoedd trên, byddwch yn gwybod bod llawer o'r gorsafoedd hyn o dan gylch gwaith Network Rail. Fodd bynnag, byddaf yn gofyn i fy swyddogion gael trafodaeth gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Tref Llanelli i weld a yw'r orsaf yr oeddech yn sôn amdani'n ymgeisydd am y cynllun gwella gorsafoedd cenedlaethol, ac a oes cyfle iddynt gael y cyllid hwnnw.

Janet Finch-Saunders: Yr wyf yn siŵr fod y Gweinidog wedi gweld yr adroddiadau diweddar yn y wasg yr wythnos hon am y sefyllfa barhaus yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, lle mae cyflogau rhai gweithwyr yn cael eu torri mewn ymgais i sefydlu cyflog cyfartal rhwng y rhywiau. Pa gamau ydych yn eu cymryd i fabwysiadu dull Cymru gyfan i gefnogi'r broses o werthuso swyddi a chyflog cyfartal gan awdurdodau lleol?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am y cwestiwn pwysig ynghylch sut yr ydym, fel Llywodraeth, yn gallu cefnogi awdurdodau lleol yn fwy cyffredinol. Yr egwyddor a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yw sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn gweithio tuag at gyflawni setliadau mewn perthynas â'r agenda cyflog cyfartal. Mae'r mater sy'n ymwneud â Phen-y-bont ar Ogwr yn fater i'r cyngor hwnnw, fel y byddai i unrhyw un o'r 22 awdurdod arall. Fodd bynnag, dylem ddod i setliad cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod y gweithlu sy'n cael eu gwerthfawrogi yn y sector cyhoeddus yn cael eu talu'r gyfradd briodol.

Janet Finch-Saunders: Hyd yn hyn, dim ond 10 awdurdod lleol sydd wedi ymgymryd â'r ymarfer gwerthuso swyddi. Er fy mod yn argymhell lleoliaeth a hyblygrwydd yn y rhan fwyaf o ardaloedd llywodraeth leol, yr wyf yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrech i uno dull awdurdodau lleol tuag at werthuso swyddi. Mae llawer o anghenion y gymuned yn lleol, ond mae cyflog teg a chyfartal yn fater pwysig ledled y wlad, a dylid ei drin felly. Yr wyf yn

millions of pounds being spent on legal and consultancy costs, which really could be spent on improving equality of pay across the authorities. What plans do you have, Minister, to unify and streamline the job evaluation and equal pay exercise on a pan-Wales basis?

Carl Sargeant: You raise an important issue. My previous portfolio included responsibility for the equality duty, which has now gone to the Minister for Finance and Leader of the House. We included a clause on specific duty on equal pay in the Equality Act 2010. Regrettably, the Westminster Government has not included that in the Equality Act 2010, whereas, in Wales, we are clearly leading the way on ensuring that local authorities must address this.

2.30 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, yr oedd yn ddiddorol nodi yn eich ateb gwreiddiol i Keith Davies nad oeddech yn cynnwys ymhlith eich blaenoriaethau unrhyw beth i ymwneud â thrafnidiaeth, sy'n rhan bwysig o'ch portffolio. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o hynny. A gaf innau, fel Keith, eich cynorthwyo i gyfeirio'ch meddwl tuag at faterion yn ymwneud â thrafnidiaeth, a'ch cyfeirio at brosiect a lawnsiwyd gennych yng Nghaerdydd, sef prosiect cynllunio taith wedi'i phersonoleiddio? A yw hyn yn rhan o'ch ymrwymiad i hybu trafndiaeth gyhoeddus, a hybu pobl i ddefnyddio beiciau? Sut mae eich Llywodraeth yn cydweithio gyda Sustrans er mwyn sicrhau bod hynny yn digwydd ledled Cymru?

Carl Sargeant: Thank you for your question, Rhodri Glyn Thomas. The personalised travel plan is part of the national agenda. There are several areas in which we will be investing to seek a modal shift for local journeys in terms of public transport. We are working in partnership with Sustrans on personal travel plans, because it will be delivering the scheme for us across Wales, and it has a keen involvement in terms of the legislation that we are introducing in the near future around the Welsh Government's commitment to

gwybod am filiynau o bunnoedd yn cael eu gwario ar gostau cyfreithiol ac ymgynghori, a allai mewn gwirionedd gael eu gwario ar wella cydraddoldeb cyflog ar draws yr awdurdodau. Pa gynlluniau sydd gennych, Weinidog, i uno a symleiddio'r ymarfer gwerthuso swyddi a chyflog cyfartal ar sail Cymru gyfan?

Carl Sargeant: Yr ydych yn codi mater pwysig. Roedd fy mhortffolio blaenorol yn cynnwys cyfrifoldeb am y ddyletswydd cydraddoldeb, sydd bellach wedi mynd i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ. Rydym wedi cynnwys cymal ar ddyletswydd benodol ar gyflog cyfartal yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth San Steffan wedi cynnwys hynny yn Neddf Cydraddoldeb 2010, tra ein bod ni yng Nghymru yn arwain y ffordd yn glir ar sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â hyn.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, it was interesting to note in your original reply to Keith Davies that you did not include among your priorities anything on transport, which is an important part of your portfolio. I am sure that you are aware of that. May I, like Keith, assist you by directing your mind to matters relating to transport, and direct you to a project that you launched in Cardiff, namely the personalised travel plan? Is this part of your commitment to promote public transport, and to encourage people to use bikes? How is your Government collaborating with Sustrans in order to ensure that that happens across Wales?

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn, Rhodri Glyn Thomas. Mae'r cynllun teithio personol yn rhan o'r agenda cenedlaethol. Mae yna nifer o feysydd lle byddwn yn buddsoddi i geisio newid moddol ar gyfer siwrneiau lleol o ran trafndiaeth gyhoeddus. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Sustrans ar gynlluniau teithio personol, oherwydd bydd yn cyflwyno'r cynllun i ni ar draws Cymru, ac y mae'n cymryd rhan brwd o ran y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei chyflwyno yn y dyfodol agos o amgylch

walking and cycling.

ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gerdded a beicio.

Rhodri Glyn Thomas: Y cwestiwn oedd sut y byddwch yn sicrhau bod hyn yn digwydd ledled Cymru. Yr wyf yn falch iawn o glywed am y Bil; yr oedd hwnnw ym manifesto Plaid Cymru, ac yr ydym yn croesawu pob achlysur pan fydd Llywodraeth Cymru yn dwyn ein syniadau ni ac yn eu gweithredu er lles pobl Cymru. A allwch esbonio sut y bydd y prosiect yn cael ei ledu drwy Gymru? Pa siroedd sy'n cydweithio gyda chi, pa rai na fydd yn cydweithio gyda chi a beth yw'r rhesymeg y tu ôl i hynny?

Rhodri Glyn Thomas: The question was how you will ensure that that happens across Wales. I am very pleased to hear about the Bill; that was in Plaid Cymru's manifesto, and we always welcome the Welsh Government stealing our ideas and implementing them for the benefit of the people of Wales. Can you explain how the project will be rolled out across Wales? What counties are working with you, what counties are not collaborating and what is the reason for that?

Carl Sargeant: This is a roll-out programme, Rhodri Glyn Thomas. It starts in Cardiff and it will then be rolled out through Môn a Menai. I think that it then goes to Aberystwyth, but so as not to mislead the Chamber, I will write to you with the specific details of how this pilot scheme will be rolled out. If successful, I see this as a great opportunity for Wales to leading the way with personalised travel plans, and it is something that I will be keen to roll out across the country.

Carl Sargeant: Rhaglen gyflwyno yw hon, Rhodri Glyn Thomas. Mae'n dechrau yng Nghaerdydd ac yna bydd yn cael ei chyflwyno drwy Fôn a Menai. Credaf ei bod wedyn yn mynd i Aberystwyth, ond er mwyn peidio â chamarwain y Siambr, ysgrifennaf atoch gyda'r manylion penodol ynghylch sut y bydd y cynllun peilot hwn yn cael ei gyflwyno. Os bydd yn llwyddiannus, gwelaf hwn fel cyfle gwyh i Gymru i arwain y ffordd gyda chynlluniau teithio personol, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn awyddus i'w gyflwyno ar draws y wlad.

Un Llais Cymru

One Voice Wales

4. Janet Finch-Saunders: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Un Llais Cymru. OAQ(4)0041(LGC)

4. Janet Finch-Saunders: Will the Minister make a statement on One Voice Wales. OAQ(4)0041(LGC)

Carl Sargeant: One Voice Wales was formed in 2004. The Welsh Government recognises it as the national representative body for community and town councils across Wales.

Carl Sargeant: Ffurfiwyd Un Llais Cymru yn 2004. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod fel y corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref ledled Cymru.

Janet Finch-Saunders: Since its inception seven years ago, One Voice Wales has been core-funded by the Welsh Government. Despite this financial assistance, which this year alone amounts to £97,000, I am concerned about One Voice Wales's remit, policy and outcomes. Although it purports to act as a single representative voice for community and town councils in Wales, almost a third—around 200—are not represented. The cost of subscription is a major factor in this, as many smaller councils cannot add a precept to cover the high level

Janet Finch-Saunders: Ers ei sefydlu saith mlynedd yn ôl, mae Un Llais Cymru yn derbyn ei gyllid craidd gan Lywodraeth Cymru. Serch y cymorth ariannol hwn, sydd eleni yn unig yn cyfateb i £97,000, yr wyf yn poeni am gylch gwaith, polisi a chanlyniadau Un Llais Cymru. Er ei fod yn honni i fod yn lais cynrychioliadol sengl ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, mae bron i draean—oddeutu 200—nad ydynt yn cael eu cynrychioli. Mae cost tanysgrifio yn ffactor fawr yn hyn o beth, gan na all nifer o gynghorau llai ychwanegu praesept i dalu am

of subscriptions. In north Wales, for instance, many councils look to the North Wales Association of Town and Larger Community Councils for advocacy and training, yet it provides the same service on an almost voluntary basis, with only a small subscription. Will the Minister look again at the framework for providing support to these smaller councils and at incorporating a partnership framework and approach, while also acknowledging the excellent record of the support and training provided by the North Wales Association of Town and Larger Community Councils?

Carl Sargeant: I am very familiar with the North Wales Association of Town and Larger Community Councils, as I was one of its former delegates. I pay tribute to the voluntary work it does for its members. One Voice Wales is the national membership organisation for Wales; that is our position, but I would not like to think that any council across Wales feels that it cannot engage in the process because of cost. I will be keen to look at that.

William Powell: The One Voice Wales meeting that took place last weekend had a full agenda. Among the issues that were discussed was the implementation of the charters between town and community councils and principal local authorities, and a particular concern was the patchy progress in developing them and rolling them out. Can the Minister make a statement on the importance of those charters and reassure colleagues that this is more than a box-ticking exercise, and has genuinely meaningful objectives?

Carl Sargeant: It is important to work towards a charter provision between town and community councils and the primary unitary authorities. I have been at the launch of several of these partnership charters; it is something that I support. One Voice Wales, as a representative body, has a position on the table of the partnership council that is involved with all 22 authorities. You can rest assured that One Voice Wales makes its one voice in Wales heard regularly at partnership council meetings.

y lefel uchel o danysgrifiadau. Yn y gogledd, er enghraifft, mae llawer o gynghorau yn edrych i Gymdeithas Cynghorau Trefi a Chymdeithasau Mwyaf Gogledd Cymru ar gyfer eiriolaeth ac hyfforddiant, ac eto mae'n darparu'r un gwasanaeth ar sail wirfoddol bron, gyda dim ond tanysgrifiad bach. A wnaiff y Gweinidog edrych eto ar y fframwaith ar gyfer darparu cefnogaeth i'r cynghorau llai hyn ac ar ymgorffori fframwaith ac ymagwedd partneriaeth, tra hefyd yn cydnabod record ragorol o gefnogaeth ac hyfforddiant a ddarperir gan Gymdeithas Cynghorau Trefi a Chymdeithasau Mwyaf Gogledd Cymru?

Carl Sargeant: Yr wyf yn gyfarwydd iawn â'r Gymdeithas Cynghorau Trefi a Chymdeithasau Mwyaf Gogledd Cymru, gan fy mod yn un o'i chyn-gynrychiolwyr. Yr wyf yn talu teyrnged i'r gwaith gwirfoddol y mae'n ei wneud ar gyfer ei haelodau. Un Llais Cymru yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer Cymru; dyna yw ein sefyllfa, ond ni fyddwn yn hoffi meddwl bod unrhyw gyngor ledled Cymru yn teimlo na all gymryd rhan yn y broses oherwydd y gost. Byddaf yn awyddus i edrych ar hynny.

William Powell: Roedd gan y cyfarfod Un Llais Cymru a gynhaliwyd y penwythnos diwethaf agenda llawn. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd y broses o siarteri rhwng cynghorau tref a chymuned a'r prif awdurdodau lleol, a phryder arbennig oedd y cynnydd anghyson wrth eu datblygu a'u cyflwyno. A all y Gweinidog wneud datganiad am bwysigrwydd y siarteri hynny a rhoi sicrwydd i gydweithwyr bod hyn yn fwy nag ymarfer ticio blychau, a bod ganddo amcanion wirioneddol ystyrlon?

Carl Sargeant: Mae'n bwysig gweithio tuag at ddarpariaeth siarter rhwng cynghorau tref a chymuned a'r awdurdodau unedol cynradd. Rwyf wedi bod yn lansiad sawl un o'r siarteri partneriaeth hyn; mae'n rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi. Mae gan Un Llais Cymru, fel corff cynrychiadol, le ar fwrdd y cyngor partneriaeth sy'n ymwneud â phob un o'r 22 awdurdod. Gallwch fod yn sicr bod Un Llais Cymru yn gwneud yn siŵr bod ei un llais yng Nghymru yn cael ei glywed yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y cyngor partneriaeth.

Cynllun Bathodyn Glas

5. Sandy Mewies: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Bathodyn Glas. OAQ(4)0040(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for Delyn. Good progress is being made on reforming the blue badge scheme. We have already extended eligibility to young children with specific medical conditions and to seriously injured war veterans. We are consulting on plans for a new badge, badge fee and powers to tackle fraud and abuse of the scheme.

Sandy Mewies: Thank you for that, Minister. I know that a lot of hard work has taken place to make the blue badge scheme fit for purpose, but you will know that the scheme does not provide for people who are temporarily suffering from severe mobility problems. 'Temporarily' can be a short or long period. They would benefit from being able to use blue badges for those time-limited periods. Will you keep this under constant review, Minister? I feel that it is something that is badly needed in Wales.

Carl Sargeant: I thank the Member for her comments and I note her great personal interest and support for people in need of blue badges over many years. I will look at temporary badges, as part of the action plan, but we need to sort out some of the fundamental issues with the structure of the plan, which I will announce post consultation. I will keep this in mind as we move forward.

Darren Millar: I was pleased to hear the Minister's response, particularly on the extension of the scheme to disabled young children and their families and to veterans with serious injuries. I am also concerned with the temporary mobility problems that some people have. As the Minister will know, in the third Assembly, I proposed an extension of the scheme to mums-to-be, namely pregnant women in the third trimester, who often need a little extra space and help, and who have mobility problems.

Blue Badge Scheme

5. Sandy Mewies: *Will the Minister give an update on the Blue Badge Scheme. OAQ(4)0040(LGC)*

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod dros Ddelyn. Mae cynnydd da yn cael ei wneud ar ddiwygio'r cynllun bathodyn glas. Rydym eisoes wedi ymestyn cymhwysedd i blant ifanc sydd â chyflyrau meddygol penodol ac i gyn-filwyr a hanafwyd yn ddifrifol mewn rhyfel. Rydym yn ymgynghori ar gynlluniau am fathodyn newydd, ffi bathodyn a phwerau i fynd i'r afael â thwyll a camddefnyddio'r cynllun.

Sandy Mewies: Diolch ichi am hynny, Weinidog. Gwn fod llawer o waith caled wedi'i wneud i sicrhau bod y cynllun bathodyn glas yn addas at y diben, ond byddwch yn gwybod nad yw'r cynllun yn darparu ar gyfer pobl sy'n dioddef dros dro o broblemau symudedd difrifol. Gall 'dros dro' fod yn gyfnod byr neu hir. Byddent yn elwa o allu defnyddio bathodynau glas am gyfnodau cyfyngedig bryd hynny. A fyddwch yn parhau i adolygu hyn yn gyson, Weinidog? Rwy'n teimlo ei fod yn rhywbeth y mae ei angen yn wael yng Nghymru.

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau, a nodaf ei diddordeb a'i chymorth personol gwyd i bobl sydd angen bathodynau glas am lawer o flynyddoedd. Byddaf yn edrych ar fathodynau dros dro, fel rhan o'r cynllun gweithredu, ond mae angen i ni ddatrys rhai o'r materion sylfaenol gyda strwythur y cynllun, y byddaf yn ei gyhoeddi ar ôl yr ymgynghoriad. Byddaf yn cadw hyn mewn cof wrth inni symud ymlaen.

Darren Millar: Yr wyf yn falch o glywed ymateb y Gweinidog, yn arbennig ar ymestyn y cynllun i blant ifanc anabl a'u teuluoedd ac i gyn-filwyr ag anafiadau difrifol. Yr wyf hefyd yn pryderu ynglŷn â'r problemau symudedd dros dro sydd gan rai pobl. Fel y gwyr y Gweinidog, yn y trydydd Cynulliad, cynigais ymestyn y cynllun i ddarpar famau, sef menywod beichiog yn eu trydydd tymor, sydd yn aml angen ychydig o le ychwanegol a help, ac sydd â phroblemau symudedd. A fydd yn ystyried ymestyn y cynllun i bobl o'r

Will he consider extending the scheme to such people as part of the ongoing review?

Carl Sargeant: I recall the debate that you had in the Chamber, which, regrettably, was not successful at the time. You may wish to make representations during the consultation, which is still open for another 19 or 20 days. I would welcome your comments in that process.

Bethan Jenkins: I do a lot of work with a charity called Headway that works with people with head injuries. In fact, we launched a new branch in Neath Port Talbot recently. Often, people with head injuries leave their car in a certain location and, because of the nature of their head injuries, cannot remember where they put it when they return to the car park. Will you consider extending the blue badge scheme to people with head injuries, because they are not visible disabilities, but can be debilitating for people who suffer from them, post car crash, traumatic experience or illness? I urge you to look at this as part of the consultation.

Carl Sargeant: I thank the Member for her comments and refer her to my response to Darren Millar in terms of making her views known through the consultation process.

Jenny Rathbone: I welcome all of the Minister's announcements, particularly the one relating to ensuring that there is no fraudulent use of blue badges. I draw the Minister's attention to the frequent delays in getting blue badges for people who become seriously ill. A constituent of mine recently died while waiting for her blue badge. I wonder if you can tell me what you can do to ensure that councils manage their schemes effectively, and prioritise the people put in disabled spaces.

Carl Sargeant: Through this review process we are looking at the way that the scheme is implemented, and how the local authorities decide to distribute blue badges. It is another case of 22 authorities doing this 22 different ways, so we need to look at how this is delivered. I am concerned that the waiting

fath fel rhan o'r adolygiad parhaus?

Carl Sargeant: Yr wyf yn cofio'r ddadl a gawsoch yn y Siambr, nad oedd, yn anffodus, yn llwyddiannus ar y pryd. Efallai y byddwch yn dymuno gwneud sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad, sydd yn dal ar agor am 19 neu 20 diwrnod arall. Byddwn yn croesawu eich sylwadau yn y broses honno.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn gwneud llawer o waith gydag elusen o'r enw Headway, sydd yn gweithio gyda phobl ag anafiadau i'r pen. Yn wir, gwnaethom lansio cangen newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ddiweddar. Yn aml, mae pobl ag anafiadau i'r pen yn gadael eu car mewn lleoliad penodol ac, oherwydd natur eu hanafiadau pen, ni allant gofio lle y maent wedi ei roi pan fyddant yn dychwelyd i'r maes parcio. A wnewch chi ystyried ymestyn y cynllun bathodyn glas i bobl ag anafiadau i'r pen, gan nad ydynt yn anabledau gweladwy, ond gallant fod yn wanychol i bobl sy'n dioddef ohonynt, ar ôl damwain car, profiad trawmatig neu salwch? Yr wyf yn eich annog i edrych ar hyn fel rhan o'r ymgynghoriad.

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei sylwadau ac fe'i cyfeiriai at fy ateb i Darren Millar o ran gwneud ei barn yn hysbys drwy'r broses ymgynghori.

Jenny Rathbone: Croesawaf holl gyhoeddiadau'r Gweinidog, yn enwedig yr un yn ymwneud â sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd twyllodrus o fathodynau glas. Tynnaf sylw'r Gweinidog at yr oedi rheolaidd wrth gael bathodynau glas i bobl sy'n troi'n ddifrifol wael. Yn ddiweddar, bu farw etholwraig imi wrth aros am ei bathodyn glas. Tybed a allwch ddweud wrthyf beth y gallwch ei wneud i sicrhau bod cynghorau yn rheoli eu cynlluniau yn effeithiol, ac yn blaenoriaethu'r bobl sy'n cael eu rhoi mewn llefydd i'r anabl.

Carl Sargeant: Drwy'r broses adolygu hon rydym yn edrych ar y ffordd y mae'r cynllun yn cael ei weithredu, a sut y mae'r awdurdodau lleol yn penderfynu dosbarthu bathodynau glas. Mae'n achos arall o 22 o awdurdodau yn gwneud hyn mewn 22 o ffyrdd gwahanol, felly mae angen i ni edrych

times are too long for some people, and it is very sad to hear about the case that you referred to. I am aware that local authorities generally fast-track applications for the terminally ill, so if you have any details that you wish to share with me on that case, I will look at them for you.

ar sut mae hyn yn cael ei ddarparu. Yr wyf yn poeni bod yr amseroedd aros yn rhy hir i rai pobl, ac mae'n drist iawn i glywed am yr achos y cyfeiriasoch ato. Yr wyf yn ymwybodol bod awdurdodau lleol yn gyffredinol yn ceisio cyflymu ceisiadau ar gyfer y rheiny sy'n derfynol sâl, felly os oes gennych unrhyw fanylion yr hoffech eu rhannu gyda mi ar yr achos hwnnw, edrychaf arnynt ar eich cyfer.

Cysylltiadau Trafnidiaeth

6. Eluned Parrott: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch y cysylltiadau trafnidiaeth â'r parthau menter a ddynodwyd a pharthau menter posibl. OAQ(4)0039(LGC)*

Carl Sargeant: We will be working closely with local authority officials and colleagues in business, enterprise, technology and science to ensure that the transport requirements of the enterprise zones are appropriately considered.

Eluned Parrott: That is great news. As you may know, I live in Jane Hutt's constituency in the Vale of Glamorgan, and we are lucky enough to have an enterprise zone planned for St Athan. From here, it would take around an hour by car to get to St Athan, about 15 miles away, because of the state of the A-roads and B-roads that you have to navigate to make that journey. Public transport is also problematic; even though the Vale of Glamorgan line goes right past the site, sadly, it does not currently stop there. How much investment do you foresee each of the enterprise zones needing, given the extra demands on infrastructure if they are successful? Are you looking for your current transport plans to accommodate the enterprise zones as well?

Carl Sargeant: To take your last question first, I am considering the reprioritisation of the national transport plan, and one of the considerations is around the enterprise zones. I have not had detailed costing yet for enhancing provision for enterprise zones, but it is something that I have discussed with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. The Government

Transport Links

6. Eluned Parrott: *What discussions has the Minister had regarding the transport links to designated and potential enterprise zones. OAQ(4)0039(LGC)*

Carl Sargeant: Byddwn yn cydweithio'n agos â swyddogion awdurdodau lleol a chydweithwyr mewn busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth er mwyn sicrhau bod gofynion trafnidiaeth y parthau menter yn cael eu hystyried yn briodol.

Eluned Parrott: Mae hynny'n newyddion gwych. Fel y gwyddoch efallai, rwyf yn byw yn etholaeth Jane Hutt ym Mro Morgannwg, ac rydym yn ddigon ffodus i gael ardal fenter a gynlluniwyd ar gyfer Sain Tathan. Oddi yma, byddai'n cymryd tua awr yn y car i fynd i Sain Tathan, tua 15 milltir i ffwrdd, oherwydd cyflwr y ffyrdd A a B y mae'n rhaid i chi eu llywio i wneud y daith honno. Mae cludiant cyhoeddus hefyd yn broblem; er bod llinell Bro Morgannwg yn mynd heibio'r safle, yn anffodus, nid yw'n stopio yno ar hyn o bryd. Faint o fuddsoddiad ydych yn rhagweld y mae ei angen ar bob un o'r parthau menter, o ystyried y pwysau ychwanegol ar seilwaith os ydynt yn llwyddiannus? A ydych chi'n ystyried cael eich cynlluniau cludiant presennol i ddarparu ar gyfer parthau menter yn ogystal?

Carl Sargeant: I gymryd eich cwestiwn olaf yn gyntaf, yr wyf yn ystyried ailflaenoriaethu'r cynllun trafnidiaeth cenedlaethol, ac un o'r ystyriaethau yw o amgylch y parthau menter. Nid wyf wedi cael costau manwl eto ar gyfer gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ardaloedd menter, ond mae'n rhywbeth yr wyf wedi'i drafod gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a

collectively will look for opportunities to support enterprise zones across Wales.

Mohammad Asghar: Ebbw Vale is one of the five enterprise zones recently announced for Wales, and improving transport links between the town and the rest of Gwent is very important. After spending £286,000 on reports and assessments, I am sure that Ministers have enough information to at least improve the railway link between Newport and Ebbw Vale, which will not only benefit the economy, but connectivity among the communities. Can you assure my constituents, who have had enough of the constant delays, that you will finally deliver a passenger train service between Ebbw Vale and Newport?

Carl Sargeant: I have had similar enquiries from many Members, including John Griffiths, the local Member in Newport East, and Jocelyn Davies, as well as you and William Graham, of course. I am making no reference to Rosemary Butler. *[Laughter.]* There was some danger of being cut off there. I assure Members that I am seriously considering the issues around the Ebbw Vale-Newport link, and of course at the appropriate time I will make a statement to the Chamber.

Leanne Wood: Minister, there is a great opportunity to reduce emissions and congestion on our roads by taking more of an innovative approach to freight movement. Light rail is potentially one good option for both passengers and freight. The freight consolidation centre serving Broadmead in Bristol was initially set up for a trial period of eight months back in May 2004, but is being continued due to its huge success in acting as a central hub on the edge of the city, where deliveries are streamlined, therefore reducing the number of trucks travelling into Broadmead.

2.45 p.m.

Given that transport links are essential for business, will you consider the potential benefits of establishing a freight consolidation area for Cardiff and any other

Gwyddoniaeth. Bydd y Llywodraeth yn cydchwilio am gyfleoedd i gefnogi ardaloedd menter ar draws Cymru.

Mohammad Asghar: Mae Glynebwy yn un o'r pum parth menter a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer Cymru, ac mae gwella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y dref a gweddill Gwent yn bwysig iawn. Ar ôl treulio £286,000 ar adroddiadau ac asesiadau, yr wyf yn sicr bod gan Weinidogion ddigon o wybodaeth er mwyn o leiaf gwella'r cyswllt rheilffordd rhwng Casnewydd a Glynebwy, a fydd nid yn unig yn fudd i'r economi, ond cysylltedd ymhlith y cymunedau. A allwch sicrhau fy etholwyr, sydd wedi cael digon ar yr oedi cyson, y byddwch o'r diwedd yn cyflwyno gwasanaeth trên i deithwyr rhwng Glynebwy a Chasnewydd?

Carl Sargeant: Yr wyf wedi cael ymholiadau tebyg gan nifer o Aelodau, gan gynnwys John Griffiths, yr Aelod lleol yn Nwyrain Casnewydd, a Jocelyn Davies, yn ogystal â chi a William Graham, wrth gwrs. Nid wyf yn gwneud unrhyw gyfeiriad at Rosemary Butler. *[Chwerthin.]* Roedd rhywfaint o berygl o gael fy nhorri i ffwrdd yn y fan honno. Yr wyf yn sicrhau Aelodau fy mod yn ystyried o ddifrif y materion sy'n ymwneud â'r cyswllt rhwng Glynebwy a Chasnewydd, ac wrth gwrs ar yr adeg briodol byddaf yn gwneud datganiad i'r Siambr.

Leanne Wood: Weinidog, mae cyfle gwych i leihau allyriadau a thagfeydd ar ein ffyrdd trwy gymryd mwy o agwedd arloesol at symud nwyddau. Mae rheilffyrdd ysgafn o bosibl yn un opsiwn da ar gyfer teithwyr a nwyddau. Sefydlwyd y ganolfan gyfuno nwyddau sy'n gwasanaethu Broadmead ym Mryste yn wreiddiol am gyfnod prawf o wyth mis yn ôl yn mis Mai 2004, ond mae'n cael ei barhau oherwydd ei llwyddiant ysgubol o ran gweithredu fel canolbwynt canolog ar gyrion y ddinas, lle mae cyflenwadau yn cael eu symleiddio, gan leihau nifer y lorïau sy'n teithio i mewn i Broadmead.

O ystyried bod cysylltiadau trafnidiaeth yn hanfodol ar gyfer busnes, a wnewch chi ystyried y manteision posibl o sefydlu ardal cyfuno nwyddau ar gyfer Caerdydd ac

part of Wales that you consider may warrant one?

Carl Sargeant: I thank the Member for her question. It is certainly an issue that we need to consider in the broader context of finding Welsh solutions to freight transport industry issues. I have asked my officials to give further consideration to that, again working with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, to see whether we can have a better outcome with regard to freight transport and the environmental impact that it may have.

The Presiding Officer: Question 7, OAQ(4)0050(LGC), has been withdrawn.

Trefnu Etholiadau Awdurdodau Lleol

8. William Graham: *Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i drefnu etholiadau Awdurdodau Lleol ym mis Mai 2016. OAQ(4)0052(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for South Wales East. The Fixed-term Parliaments Act 2011 alters the date of the next National Assembly elections by one year to 2016, which coincides with local government elections. I will shortly be considering the implications for the local government elections scheduled for 2016.

William Graham: Thank you for your answer, Minister. What consultations will you allow?

Carl Sargeant: There is, I believe, a statutory obligation to consult on this process. I will work through the Welsh Local Government Association to ensure that we fulfil all of those criteria.

Mick Antoniw: As a result of Labour representations in the House of Commons, it appears that the coalition Government is to remove attempts to remove the obligation on local authorities to promote the electoral register. Have you given any consideration as to whether further legislation is needed in Wales with regard to the promotion and maintenance of an up-to-date and effective

unrhyw ran arall o Gymru yr ydych yn ystyried y gellid cyfiawnhau un?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae'n sicr yn fater y mae angen inni ei ystyried yn y cyd-destun ehangach o ddod o hyd i atebion Cymreig i faterion diwydiant cludo nwyddau. Yr wyf wedi gofyn i fy swyddogion roi ystyriaeth bellach i hynny, yn gweithio unwaith eto gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, i weld a allwn gael canlyniad gwell o ran cludo nwyddau a'r effaith amgylcheddol y gallai hynny ei gael.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ (4) 0050 (LGC), yn ôl.

Scheduling of Local Authority Elections

8. William Graham: *What consideration has the Minister given to the scheduling of Local Authority elections in May 2016. OAQ(4)0052(LGC)*

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain De Cymru. Mae Deddf Seneddau Cyfnod Penodol 2011 yn newid dyddiad etholiadau nesaf y Cynulliad Cenedlaethol gan flwyddyn hyd at 2016, sy'n cyd-fynd ag etholiadau llywodraeth leol. Byddaf yn ystyried yn fuan y goblygiadau ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ar gyfer 2016.

William Graham: Diolch am eich ateb, Weinidog. Pa ymgynghoriadau y byddwch yn eu caniatáu?

Carl Sargeant: Yr wyf yn credu bod rhwymedigaeth statudol i ymgynghori ar y broses hon. Byddaf yn gweithio drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau ein bod yn cyflawni pob un o'r meini prawf hynny.

Mick Antoniw: O ganlyniad i sylwadau Llafur yn Nhŷ'r Cyffredin, mae'n ymddangos bod y Llywodraeth glymblaid yn mynd i gael gwared ar ymdrechion i gael gwared ar y rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i hyrwyddo'r gofrestr etholiadol. A ydych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth ynghylch a oes angen deddfwriaeth bellach yng Nghymru mewn perthynas â hyrwyddo a chynnal

electoral register?

Carl Sargeant: I thank the Member for his question. There are implications for the way this operates in Wales, and I have written to the Minister in London expressing my concerns about the process. I hope that we, collectively across the Chamber, can find a Welsh solution for the Welsh electoral system. We are growing as an institution and have the ability to make some of those decisions ourselves.

Alun Ffred Jones: Cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, bydd etholiadau lleol 2012. A ragwelwch y bydd unrhyw newidiadau i ffiniau wardiau yng Nghymru cyn yr etholiad hwnnw? Beth fydd yn digwydd yn yr ardaloedd hynny lle mae comisiynwyr wedi'u gosod—a ragwelwch y bydd yr etholiadau yn mynd rhagddynt fel arfer?

Carl Sargeant: I do not anticipate that there will be any changes in electoral ward boundaries prior to the 2012 local elections.

Trafnidiaeth Gynaliadwy

9. Rebecca Evans: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gefnogaeth i drafnidiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. OAQ(4)0045(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for Mid and West Wales. The Welsh Government is delivering sustainable transport in rural areas through its initiatives for rail and local bus services, developing sustainable travel towns and taking forward the TrawsCymru network.

Rebecca Evans: We are told that transport poverty is as prevalent as fuel poverty in many parts of Wales and that it has an equally negative impact on households. How will the Welsh Government invest in alternative modes of transport to help tackle this problem and increase social inclusion and also to help address climate change and lower accident rates in rural Wales?

cofrestr etholiadol cyfredol ac effeithiol?

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae yna oblygiadau o ran y ffordd y mae hyn yn gweithredu yng Nghymru, ac yr wyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn Llundain yn mynegi fy mhryderon am y broses. Yr wyf yn gobeithio ein bod ni, ar draws y Siambr, yn gallu dod o hyd i ateb Cymreig i'r system etholiadol yng Nghymru. Rydym yn tyfu fel sefydliad ac mae gennym y gallu i wneud rhai o'r penderfyniadau hynny ein hunain.

Alun Ffred Jones: Before the Assembly elections in 2016, there will be the local elections in 2012. Do you anticipate that there will be any changes to the boundaries of wards in Wales prior to that election? What will happen in those areas where commissioners have been put in place—do you anticipate that the elections will take place as normal?

Carl Sargeant: Nid wyf yn rhagweld y bydd unrhyw newidiadau yn y ffiniau wardiau etholiadol cyn etholiadau lleol 2012.

Sustainable Transport

9. Rebecca Evans: *Will the Minister outline his support for sustainable transport in rural areas. OAQ(4)0045(LGC)*

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni cludiant cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig drwy ei mentrau ar gyfer trenau a gwasanaethau bws lleol, datblygu trefi teithio cynaliadwy a bwrw ymlaen â rhwydwaith TrawsCymru.

Rebecca Evans: Rydym yn deall bod tlodi trafndiaeth mor amlwg â thlodi tanwydd mewn llawer rhan o Gymru a'i fod yn cael effaith yr un mor negyddol ar deuluoedd. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn dulliau amgen o gludiant er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol a hefyd helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chyfraddau damweiniau is yn Gymru wledig?

Carl Sargeant: The issues that the Member raise cover very broad-ranging parts of my portfolio, from the anti-poverty agenda to the transport agenda to economics, with the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, to rural affairs, with Alun Davies, the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes. We often discuss the best outcomes in this regard. We are investing heavily in concessionary fares. Cerdyn Cymru pass holders in Carmarthenshire and Powys are able to travel for free on the Heart of Wales line, and that is just one example of extending opportunity in rural areas by using concessionary fares innovatively for the benefit of the local economy.

Russell George: The successful delivery of sustainable transport projects in rural Wales must be underpinned by excellent infrastructure. One of my concerns in Montgomeryshire is the state of the Dyfi bridge in Machynlleth. I appreciate that you are aware of the issue and the disruption that is caused when it is closed. The bridge and the surrounding road network are simply not fit for purpose. The Government stated last year that a number of options are being considered, including building a new structure over the Afon Dyfi. Can the Minister give an update on progress to date and tell us whether he has made a decision on this?

Carl Sargeant: I have not made a decision, but the issues that you raise are under consideration.

Llyr Huws Gruffydd: Yr wyf am ganolbwyntio ar y pwynt a wnaethpwyd gan Rebecca Evans. Mae'r cyfuniad o ddibyniaeth uchel ar geir sydd gennym yng Nghymru, a'r lefelau isel o gyflog sydd gennym o gymharu â rhannau eraill yn y Deyrnas Unedig, yn golygu bod tlodi trafnidiaeth yn broblem wirioneddol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig. Mae ymchwil yn dangos bod 20 y cant o'n cartrefi tlodaf yn gwario bron i chwarter eu hincwm ar gostau moduro. Pam, felly, nad oes targed penodol yn eich rhaglen llywodraethu i fynd i'r afael â thlodi trafnidiaeth?

Carl Sargeant: Mae'r materion y mae'r Aelod yn eu codi yn cwmpasu rhannau eang iawn o'm portffolio, o'r agenda gwrthdlodi at yr agenda trafnidiaeth i economeg, gyda'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, i faterion gwledig, gydag Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd. Rydym yn aml yn trafod y canlyniadau gorau yn hyn o beth. Rydym yn buddsoddi'n drwm mewn tocynnau teithio rhatach. Mae deiliaid Cerdyn Cymru yn Sir Gaerfyrddin a Phowys yn gallu teithio am ddim ar reilffordd Calon Cymru, a dyna un enghraifft yn unig o ymestyn cyfleoedd mewn ardaloedd gwledig drwy ddefnyddio tocynnau teithio rhad yn arloesol er budd yr economi leol.

Russell George: Mae'n rhaid i gyflawniad llwyddiannus prosiectau trafnidiaeth gynaliadwy yn y Gymru wledig gael ei ategu gan seilwaith ardderchog. Un o fy mhryderon yn Sir Drefaldwyn yw cyflwr pont Dyfi ym Machynlleth. Yr wyf yn sylweddoli eich bod yn ymwybodol o'r mater a'r amhariad a achosir pan gaiff ei gau. Nid oedd y bont a'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos, yn syml, yn addas at y diben. Dywedodd y Llywodraeth y llynedd bod nifer o opsiynau yn cael eu hystyried, gan gynnwys adeiladu strwythur newydd dros Afon Dyfi. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma a dweud wrthym a yw ef wedi gwneud penderfyniad ar hyn?

Carl Sargeant: Nid wyf wedi gwneud penderfyniad, ond mae'r materion a godwch yn cael eu hystyried.

Llyr Huws Gruffydd: I would like to focus on the point made by Rebecca Evans. The combination of the high dependency on the car that we have in Wales, and our low wage levels in comparison to other parts of the UK, mean that transport poverty is a very real problem, particularly in rural communities. Research shows that 20 per cent of our poorest households spend almost a quarter of their income on motoring costs. Why, therefore, is there not a specific target on tackling travel poverty in your programme for government?

Carl Sargeant: I thank the Member for his question. We have to look holistically at what we do on transport. We cannot pick out transport by rail or bus; we need to look at an integrated service that will have a great impact. I met one of your colleagues this morning to discuss details regarding the Cambrian line and issues of transfers between rail and bus infrastructure, which are really important. Ensuring that there is a mix of modes of transport is a big issue for the rural economy, with bus services, rail services and community transport all important to the economy that you describe.

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'n rhaid i ni edrych mewn ffordd gyfannol ar yr hyn rydym yn ei wneud ar drafnidiaeth. Nid ydym yn gallu dewis cludiant ar y rheilffyrdd neu fws; mae angen i ni edrych ar wasanaeth integredig a fydd yn cael effaith fawr. Cyfarfûm un o'ch cydweithwyr y bore yma i drafod y manylion am y llinell Cambrian a materion o drosglwyddiadau rhwng seilwaith rheilffyrdd a bysiau, sydd yn bwysig iawn. Mae sicrhau bod cymysgedd o fathau o gludiant yn fater pwysig i'r economi wledig, gyda gwasanaethau bysiau, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gymunedol i gyd yn bwysig i'r economi a ddisgrifiwch.

Blaenoriaethau

10. Andrew R.T. Davies: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0038(LGC)*

Carl Sargeant: As outlined in the programme for government, my key priorities for this Assembly will be tackling poverty, standing up for public services and creating safer communities in South Wales Central and across Wales.

Andrew R.T. Davies: Minister, you will be aware that in the extreme weather conditions that we faced last winter transport virtually ground to a halt in Cardiff. Now that you are responsible for transport and local government, what action has your department taken to test the measures that are in place to ensure that lessons have been learned from last winter should we have the same weather conditions replicated this winter?

Carl Sargeant: I am responsible for many things, including the Government's response to weather events, but the snow is beyond my control. However, the Member raises a serious issue about the economy and accessibility. My team has been working with local authorities to ensure that the levels of grit in storage are appropriate. I would be happy to write to the Member about those levels in Wales. We are in the lap of the gods in terms of the weather that is thrown at us, but we are doing our best to prepare for the

Priorities

10. Andrew R.T. Davies: *What are the Minister's priorities for the South Wales Central region. OAQ(4)0038(LGC)*

Carl Sargeant: Fel yr amlinellwyd yn y rhaglen lywodraethu, fy mlaenoriaethau allweddol ar gyfer y Cynulliad hwn bydd mynd i'r afael â thlodi, cefnogi gwasanaethau cyhoeddus a chreu cymunedau mwy diogel yng Nghanol De Cymru ac ar draws Cymru.

Andrew R.T. Davies: Weinidog, byddwch yn ymwybodol, yn yr amodau tywydd eithafol a wynebom yn ystod y gaeaf diwethaf, bod trafnidiaeth fwy neu lai wedi dod i ben yng Nghaerdydd. Nawr eich bod yn gyfrifol am drafnidiaeth a llywodraeth leol, pa gamau mae eich adran wedi'u cymryd i brofi'r mesurau sydd yn eu lle i sicrhau bod gwersi wedi'u dysgu o'r gaeaf diwethaf petai'r un tywydd yn cael ei ailadrodd y gaeaf hwn?

Carl Sargeant: Yr wyf yn gyfrifol am lawer o bethau, gan gynnwys ymateb y Llywodraeth i ddigwyddiadau tywydd, ond mae eira y tu hwnt i fy rheolaeth. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn codi mater difrifol am yr economi a hygyrchedd. Mae fy nhîm wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod y lefelau o raeon sydd wedi'u storio yn briodol. Byddwn yn hapus i ysgrifennu at yr Aelod am y lefelau hynny yng Nghymru. Rydym yn nwylo'r duwiau o ran y tywydd sy'n cael ei daflu atom, ond yr

approaching winter.

ydyd yn gwneud ein gorau i baratoi ar gyfer y gaeaf sy'n agosáu.

Leanne Wood: Over the last few months, you have made clear your vision for the future of local government in Wales. Your aim is for more services to be shared across local authority boundaries to improve accountability, efficiency and the delivery of services. I would, therefore, like to hear your view on what appears to be a snub to your strategy by Rhondda Cynon Taf County Borough Council, which has recently appointed a new director of education on a salary that is £21,000 per annum above the previous rate for the job. That comes after some of the lowest-paid employees in the local authority have taken big pay cuts. Would you have condemned this local authority had it not been controlled by Labour? Will you, as Minister, now set aside your party loyalties and condemn the actions of this Labour-controlled council?

Leanne Wood: Yn ystod y misoedd diwethaf, yr ydych wedi gwneud yn glir eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Eich nod yw i fwy o wasanaethau gael eu rhannu ar draws ffiniau awdurdodau lleol i wella atebolrwydd, effeithiolrwydd a chyflwyno gwasanaethau. Byddwn, felly, yn hoffi clywed eich barn am yr hyn sy'n ymddangos i fod yn sarhad i'ch strategaeth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd wedi penodi cyfarwyddwr addysg newydd yn ddiweddar ar gyflog sydd yn £21,000 y flwyddyn yn uwch na'r gyfradd flaenorol ar gyfer y swydd. Mae hynny'n dod ar ôl i rai o'r gweithwyr cyflog isaf yn yr awdurdod lleol gael toriadau cyflog mawr. A fydddech chi wedi condemnio'r awdurdod lleol hwn pe na bai wedi ei reoli gan Lafur? A wnewch chi, fel Gweinidog, roi eich teyrngarwch pleidiol i'r neilltu a chondemnio gweithredoedd y cyngor Llafur hwn?

Carl Sargeant: This is a matter for Rhondda Cynon Taf County Borough Council. As Minister responsible for improving public services across Wales, my expectation is that the 22 authorities work will together to drive better services for the public.

Carl Sargeant: Mae hwn yn fater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, yr wyf yn disgwyl bod y 22 awdurdod yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwell gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd.

Etholiadau Cyngor Ynys Môn

Council Elections on Anglesey

11. Aled Roberts: *A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y bydd cyhoeddiad ynglŷn ag etholiadau cyngor Ynys Môn ym mis Mai 2012. OAQ(4)0042(LGC)*

11. Aled Roberts: *Will the Minister confirm when there will be an announcement on the council elections on Anglesey in May 2012. OAQ(4)0042(LGC)*

Carl Sargeant: I thank the Member for his question. The Local Government Boundary Commission for Wales has yet to conclude its review of electoral arrangements on Anglesey. I will consider whether there are implications for the timing of local government elections on the island in light of that report.

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru eto i gwblhau ei adolygiad o drefniadau etholiadol ar Ynys Môn. Byddaf yn ystyried a oes goblygiadau ar gyfer amseru etholiadau llywodraeth leol ar yr ynys yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw.

Aled Roberts: Will you outline what opportunities we will have in the Chamber to discuss the success or otherwise of the democratic renewal process, which, I think, is a requirement of the commissioners' report?

Aled Roberts: A wnewch chi amlinellu pa gyfleoedd fydd gennym yn y Siambr i drafod llwyddiant neu fethiant y broses adnewyddu democrataidd, sydd, yr wyf yn meddwl, yn un o ofynion adroddiad y comisiynywyr?

Carl Sargeant: When I receive the report from the boundary commission on whether it is able to complete the review of the democratic renewal programme, and I expect that to be in the next few weeks, I will, of course, let the Chamber know about the next progress mark for Anglesey.

Mark Isherwood: Would you agree that both candidates for council elections and candidates for commissioners must be fit and proper persons to hold those offices, and would you consider somebody standing for election to be a fit and proper person if they had previously run a county council during a period described by PricewaterhouseCoopers as one when

‘so many failings were unearthed both managers and workers could be guilty of misconduct’,

when ‘dozens of crucial documents were missing’, and when a legally binding industrial tribunal said there had been positive falsification of documentation, and a former internal audit manager had told Queen’s counsel that a file relating to the candidate’s investigation was incomplete and that items had been removed? Would such a candidate be fit and proper to stand for election?

Carl Sargeant: Do I agree with Mark Isherwood? No.

Ieuan Wyn Jones: Mae cwestiwn sylfaenol o ddemocratiaeth yma, Weinidog, onid oes? Yr wyf yn siŵr eich bod yn derbyn bod ansicrwydd o hyd ynglŷn â beth fydd y wardiau ar gyfer Ynys Môn yn yr etholiadau nesaf ac ynglŷn ag a ydych yn bwriadu gohirio’r etholiadau os na fydd y trefniadau yn eu lle. Fel yr ydych yn gwybod, Weinidog, mae nifer o’r pleidiau gwleidyddol ar yr ynys, nid Plaid Cymru yn unig, yn awyddus i ddewis ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau. Nid yw hynny yn gallu digwydd hyd nes ein bod yn gwybod yn union beth sydd yn digwydd o ran y ffiniau. A gaf i gymryd, o’r ateb yr ydych wedi ei roi i Alun Ffred Jones, nad ydych yn bwriadu derbyn adroddiad i newid ffiniau Ynys Môn ar gyfer

Carl Sargeant: Pan fyddaf yn derbyn yr adroddiad gan y comisiwn ffiniau ynghylch a yw’n gallu cwblhau’r adolygiad o’r rhaglen adnewyddu democrataidd, ac yr wyf yn disgwyl i hynny fod yn ystod yr wythnosau nesaf, byddaf, wrth gwrs, yn rhoi gwybod i’r Siambr am y marc cynnydd nesaf ar gyfer Ynys Môn.

Mark Isherwood: A fydddech yn cytuno bod yn rhaid i ymgeisiwr ar gyfer etholiadau’r cyngor ac ymgeiswyr sydd am fod yn gomisiynwyr fod yn bobl addas a phriodol ar gyfer y swyddi hynny, ac a fydddech yn ystyried rhywun yn berson addas a phriodol i sefyll mewn etholiad os oeddent wedi rhedeg cyngor sir yn ystod cyfnod a ddisgrifir gan PricewaterhouseCoopers fel un pan oedd

cymaint o fethiannau wedi cael eu dadorchuddio y gallai rheolwyr a gweithwyr fod yn euog o gamymddwyn,

pan oedd dwsinau o ddogfennau hollbwysig ar goll, a phan ddywedodd tribiwnlys diwydiannol gyfreithiol rwymol y bu ffugio dogfennau, a phan ddywedodd cyn-reolwr archwilio mewnol wrth gwnsler y Frenhines bod ffeil yn ymwneud ag ymchwiliad i’r ymgeisydd yn anghyflawn a bod eitemau wedi cael eu tynnu allan? A fyddai ymgeisydd o’r fath yn addas a phriodol i sefyll mewn etholiad?

Carl Sargeant: A wyf yn cytuno â Mark Isherwood? Nag wyf.

Ieuan Wyn Jones: There is a fundamental issue of democracy here, Minister, is there not? I am sure that you accept that there is still uncertainty as regards what the wards will be for Anglesey in the next elections and about whether you intend to postpone the elections if the arrangements are not in place. As you know, Minister, a number of the political parties on the island, not just Plaid Cymru, are keen to select candidates for the elections. That cannot happen until we know what will be happening with the boundaries. May I assume, from the answer that you gave Alun Ffred Jones, that you do not intend to accept a report on changing boundaries for Anglesey for the local elections, and that the only decision that you have to take is whether

etholiadau lleol, ac mai'r unig benderfyniad sydd gennych i'w wneud yw a ydych yn gohirio'r etholiadau neu beidio?

Carl Sargeant: I think you would agree that Anglesey has been quite unique in the local government family in the way it has responded. You will also agree that, following recommendations of the auditor general to look at a democratic renewal programme, I should comply with that, and I am doing so. When I receive the outcome of the boundary commission report, whether or not it will suggest that it is able to look at a new boundary provision for Anglesey uniquely, in a way that does not affect any other local authority, then I will make that known to Members. Let me be clear on the process ahead. We cannot allow failing authorities to be placed in this situation now or in the future. I will make my informed decision based on the report from the boundary commission.

Gwasanaethau mewn Ardaloedd Gwledig

12. Antoinette Sandbach: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau'n well mewn ardaloedd gwledig. OAQ(4)0047(LGC)*

Carl Sargeant: The programme for government sets out our priorities for supporting the delivery of effective and efficient public services in both rural and urban areas.

Antoinette Sandbach: Minister, the dispersed nature of rural settlements and the methods your Government uses to assess poverty through the Welsh index of multiple deprivation, which looks at areas of 1,500 people at a time, means that there are pockets of rural deprivation that are all but invisible when it comes to allocating resources for public services. Will you confirm your Government's willingness to look again at how it can identify rural deprivation, which presents differently from deprivation in urban areas, and at how public services can be better targeted to lift people out of rural poverty?

to postpone the elections or not?

Carl Sargeant: Yr wyf yn meddwl y byddech yn cytuno bod Ynys Môn wedi bod yn eithaf unigryw yn rheulu llywodraeth leol yn y ffordd y mae wedi ymateb. Byddwch hefyd yn cytuno, yn dilyn argymhellion yr archwilydd cyffredinol i edrych ar raglen adnewyddu democrataidd, y dylwn gydymffurfio â hynny, ac yr wyf yn gwneud hynny. Pan dderbyniaf ganlyniad adroddiad y comisiwn ffiniau, pa un ai bydd yn awgrymu ei bod yn gallu edrych ar ddarpariaeth ffin newydd ar gyfer Ynys Môn ar ei ben ei hun ai peidio, mewn ffordd nad yw'n effeithio ar unrhyw awdurdod lleol arall, yna byddaf yn gwneud hynny'n hysbys i Aelodau. Gadewch imi fod yn glir am y broses sydd i ddod. Ni allwn ganiatáu i awdurdodau sydd yn methu i gael eu rhoi yn y sefyllfa hon yn awr neu yn y dyfodol. Byddaf yn gwneud fy mhenderfyniad gwybodus yn seiliedig ar yr adroddiad gan y comisiwn ffiniau.

Services in Rural Areas

12. Antoinette Sandbach: *Will the Minister make a statement on his priorities for improving the delivery of services in rural areas. OAQ(4)0047(LGC)*

Carl Sargeant: Mae'r rhaglen lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Antoinette Sandbach: Weinidog, mae natur wasgaredig aneddiadau gwledig a'r dulliau y mae eich Llywodraeth yn eu defnyddio i asesu tlodi drwy fynegai amddifadedd lluosog Cymru, sy'n edrych ar feysydd o 1,500 o bobl ar y tro, yn golygu bod pocedi o amddifadedd gwledig sydd bron yn anweledig pan ddaw at ddrynnu adnoddau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. A wnewch gadarnhau parodrwydd eich Llywodraeth i edrych eto ar sut y gall adnabod amddifadedd gwledig, sy'n cyflwyno'n wahanol i amddifadedd mewn ardaloedd trefol, ac ar sut y gall gwasanaethau cyhoeddus gael eu targedu'n well i godi pobl allan o dlodi gwledig?

Carl Sargeant: As I alluded to in my original response, rural communities are as important to us as urban communities. I expect, through my department, interventions to be targeted at the people in need in terms of support for poverty stricken areas. You will be aware that I am leading on the anti-poverty strategy in Wales, which brings together the interventions of all Ministers in moving this agenda forward. I can assure you that rural Wales is included in this plan.

Carl Sargeant: Fel y crybwyllais yn fy ateb gwreiddiol, mae cymunedau gwledig yr un mor bwysig i ni â chymunedau trefol. Yr wyf yn disgwyl, drwy fy adran, i ymyriadau gael eu targedu at y bobl mewn angen o ran cefnogaeth ar gyfer ardaloedd sy'n dioddef o dlodi. Byddwch yn ymwybodol fy mod yn arwain ar y strategaeth wrthdlodi yng Nghymru, sy'n dwyn ynghyd ymyriadau yr holl Weinidogion o ran symud yr agenda hwn yn ei blaen. Gallaf eich sicrhau bod y Gymru wledig yn cael ei chynnwys yn y cynllun hwn.

Gwasanaethau Bysiau

13. Alun Ffred Jones: *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau bysiau yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0053(LGC)*

3.00 p.m.

Carl Sargeant: I am already encouraging the use of quality bus partnerships and contracts to improve bus services across the whole of Wales. Regulatory powers remain with the UK Government.

Alun Ffred Jones: Diolch yn fawr. Mae cynigion i newid patrymau bysiau cyheoddus yn cael eu penderfynu gan gomisiynydd traffig. Mae'r un sy'n rheoli gogledd Cymru wedi'i leoli yn Birmingham. Yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf, mae'n dweud,

'it is very much regretted that the Welsh Traffic Area continues to be treated as an administrative adjunct to the West Midland Traffic Area'.

A ydych yn fodlon â'r sefyllfa fel y mae hi, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd i newid y sefyllfa?

Carl Sargeant: The Member is quite right to say that the traffic commissioner is responsible for ensuring that bus operators comply with the terms of their registration. We also provide about £100,000 per annum to employ bus compliance officers to ensure that bus services in Wales are significantly better than those in many parts of the UK. I am currently looking at the Transport Act

Bus Services

13. Alun Ffred Jones: *Will the Minister outline his plans for the regulation of bus services in North Wales. OAQ(4)0053(LGC)*

Yr wyf eisoes yn hybu'r defnydd o bartneriaethau a chontractau bysus o ansawdd er mwyn gwella gwasanaethau bws ym mhob rhan o Gymru. Mae'r pwerau rheoleiddiol yn parhau i fod ym meddiant Llywodraeth y DU.

Alun Ffred Jones: Thank you. Proposals to change the patterns of public bus services are decided by a traffic commissioner. The one who regulates north Wales is located in Birmingham. In his most recent annual report, he states,

mae'n fater o ofid bod ardal draffig Cymru yn parhau i gael ei thrin fel atodiad gweinyddol i ardal draffig gorllewin canolbarth Lloegr.

Are you content with the situation as it stands, and what steps are you taking to change the situation?

Carl Sargeant: Mae'r Aelod yn hollol iawn i ddweud bod y comisiynydd traffig yn gyfrifol am sicrhau bod gweithredwyr bysiau yn cydymffurfio â thelerau eu cofrestrriad. Rydym hefyd yn darparu tua £100,000 y flwyddyn i gyflogi swyddog cydymffurfiaeth bysiau i sicrhau bod gwasanaethau bysiau yng Nghymru yn sylweddol well na'r rheiny mewn nifer o fannau yn y DU. Yr wyf

2006 and the Local Transport Act 2008 to see whether the Welsh Government can have a broader range of influence in terms of the traffic commissioner and, as I mentioned earlier, on services in Wales through our bus quality partnership schemes.

wrthi'n edrych ar Ddeddf Trafnidiaeth 2006 a Deddf Trafnidiaeth Leol 2008 i weld a all Llywodraeth Cymru ddylanwadu mewn ffordd ehangach o ran y comisiynydd traffig ac, fel y soniais yn gynharach, ar wasanaethau yng Nghymru drwy ein cynlluniau partneriaeth bysiau o ansawdd.

Datganiad: Dulliau Llywodraeth Cymru i Sbarduno'r Economi **Statement: The Welsh Government's Approach to Economic Stimulus**

The First Minister (Carwyn Jones): Clearly there is uncertainty and turbulence in the European and wider world economies. Through my discussions with business leaders and workers, I am confident that Wales will show resilience and creativity in meeting the challenges ahead. However, there can be no doubt that the economic environment is tough. Just last week the Office for National Statistics revealed that the UK economy has virtually stopped growing. There is genuine concern about eurozone stability and low demand for goods and services. This puts pressure on Welsh businesses and jobs. The Bank of England is injecting £75 billion into the economy in an attempt to boost demand and to encourage banks to provide affordable loans. I hope this policy works.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Mae'n amlwg bod ansicrwydd a chynnwrf yn yr economïau Ewropeaidd a'r tu hwnt i Ewrop. Drwy fy nhrafodaethau gydag arweinwyr a gweithwyr ym myd busnes, yr wyf yn hyderus y bydd Cymru yn dangos gwytnwch a chreadigrwydd wrth fodloni heriau'r dyfodol. Fodd bynnag, ni all fod unrhyw amheuaeth bod yr amgylchedd economaidd yn anodd. Yr wythnos diwethaf, datgelodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod economi'r DU bron wedi stopio tyfu. Mae pryder gwirioneddol ynghylch sefydlogrwydd ardal yr ewro a'r galw isel am nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn rhoi pwysau ar fusnesau a swyddi yng Nghymru. Mae Banc Lloegr yn chwistrellu £75 biliwn i'r economi mewn ymgais i hybu'r galw ac i annog banciau i ddarparu benthyciadau fforddiadwy. Rwy'n gobeithio y bydd y polisi hwn yn gweithio.

Wales is clearly not sheltered from wider economic currents. The macroeconomic levers lie outside Welsh Government control, but it is vital that we use every opportunity to protect our economy. Members already know that we have nearly £40 million of extra money in our budget as a consequence of the UK Government decision to freeze council tax in England next year. I have already made it clear that I do not believe that freezing council tax in Wales for a year would produce significant benefit to our economy. In any case, council tax is, on average, substantially lower in Wales than in England. For example, it is 19 per cent lower for a band D property on the latest available figures. The Welsh Government intends to use this additional money to stimulate growth and protect jobs. With careful choices, we can make each pound work harder to produce maximum benefit for Wales.

Mae'n amlwg nad yw Cymru wedi'i chysgodi rhag y ceryntau economaidd ehangach. Mae'r trosolion macro-economaidd yn gorwedd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru, ond mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio pob cyfle i ddiogelu ein heconomi. Mae Aelodau eisoes yn gwybod bod gennym bron £40 miliwn o arian ychwanegol yn ein cyllideb o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i rewi'r dreth gyngor yn Lloegr y flwyddyn nesaf. Yr wyf eisoes wedi egluro nad wyf yn credu y byddai rhewi'r dreth gyngor yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn yn dod â budd sylweddol i'n heconomi. Beth bynnag, mae'r dreth gyngor ar gyfartaledd yn sylweddol is yng Nghymru nag yn Lloegr. Er enghraifft, y mae 19 y cant yn is ar gyfer eiddo band D yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd ar gael. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r arian ychwanegol hwn i ysgogi twf a diogelu

swyddi. Wrth ddewis yn ofalus, gallwn wneud i bob punt weithio'n galetach er mwyn dod â'r budd mwyaf i Gymru.

How should we spend the money? We have £38.9 million. It is a one-off sum that has been allocated to us in this financial year. I want to see immediate actions to benefit the economy, and these should complement our longer term economic strategy. Where possible, we want to lever in additional funding to make our pound go further. We want proposals that will impact across Wales and can be delivered immediately. Our priority will be the short-run impact on jobs as well as a lasting impact on the economy. We want to boost business confidence and create opportunity for young people as well as for more experienced workers.

My Ministers have come forward with a range of proposals, and I am considering options on the skills and apprenticeship agenda, and on infrastructure investment in schools, hospitals, housing and transport. These will run alongside actions already under way to support business. For example, the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science recently announced the preferred location for five enterprise zones, with others still under discussion. She also announced three new priority sectors within the economic renewal programme and the establishment of a group that will look at how to energise microbusiness. We have also started work with local authorities on using their borrowing powers to boost investment in Welsh infrastructure.

The phrase 'we're all in this together' has been used many times—in Wales, at least, I would like to think it has some basis in reality. The Government is open to discussions about how precisely to invest the additional cash to produce best results. My offer to all parties here is to work with us to produce the most effective package of measures to boost the economy. My office will contact opposition party leaders in the near future to arrange meetings where ideas can be discussed in order to find the most effective way forward. In parallel, we will

Sut y dylid gwario'r arian? Mae gennym £38.9 miliwn. Swm untro ydyw a ddyrannwyd inni yn y flwyddyn ariannol hon. Yr wyf am weld gweithredu ar unwaith er budd yr economi, a dylai hyn ategu ein strategaeth economaidd ar gyfer yr hirdymor. Lle bo modd, yr ydym am ddenu arian ychwanegol er mwyn gwneud i'n punt fynd ymhellach. Yr ydym am gynigion a fydd yn cael effaith ledled Cymru ac y gellir eu rhoi ar waith ar unwaith. Ein blaenoriaeth fydd yr effaith yn y tymor byr ar swyddi yn ogystal â'r effaith barhaol ar yr economi. Yr ydym am roi hwb i hyder busnes ac i greu cyfle i bobl ifanc yn ogystal ag i weithwyr mwy profiadol.

Mae fy Ngweinidogion wedi cyflwyno ystod o gynigion, ac yr wyf yn ystyried opsiynau ar yr agenda sgiliau a phrentisiaethau, ac ar fuddsoddi mewn seilwaith mewn ysgolion, ysbytai, tai a thrafnidiaeth. Bydd y rhain yn rhedeg ochr yn ochr â'r camau sydd eisoes ar y gweill i gefnogi busnes. Er enghraifft, yn ddiweddar cyhoeddodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth y lleoliad dewisol ar gyfer pum parth menter, tra bod eraill yn dal i fod yn destun trafodaeth. Cyhoeddodd hefyd dri sector blaenoriaeth newydd yn rhaglen adnewyddu'r economi, ynghyd â grŵp a fydd yn cael ei sefydlu i edrych ar sut y gellid grymuso microfusnesau. Hefyd, rydym wedi dechrau gweithio gydag awdurdodau lleol ar ddefnyddio eu pwerau benthyca i hybu buddsoddiad yn seilwaith Cymru.

Mae'r ymadrodd 'rydym ni i gyd yn rhan o hyn' wedi cael ei ddefnyddio lawer gwaith—yng Nghymru, o leiaf, hoffwn feddwl ei fod wedi'i seilio ar rywfaint o wirionedd. Mae'r Llywodraeth yn agored i drafodaethau ynghylch sut yn union i fuddsoddi arian ychwanegol i gynhyrchu'r canlyniadau gorau. Fy nghynnig i bob plaid yma yw i weithio gyda ni i lunio'r pecyn mwyaf effeithiol o fesurau i roi hwb i'r economi. Bydd fy swyddfa yn cysylltu ag arweinwyr y gwrthbleidiau yn y dyfodol agos i drefnu cyfarfodydd lle y gellir trafod syniadau er

also be consulting with business, trade unions and the WLGA. Time is short, but I aim to announce a detailed package of measures before the council for economic renewal meets on 9 November.

These are testing times for Welsh business. The people of Wales expect leadership. The Government is playing its part, and I hope that the whole Assembly can work together for the good of the country.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): Thank you for your statement, First Minister. You are quite right to point out that these are trying times. All of us go home at night and watch the television or listen to the radio, and we can see and hear about the economic turmoil going on around the world and, indeed, on our doorstep. I welcome your offer of a dialogue. We will not be found wanting on this side of the Chamber in engaging with you. Obviously, given previous discussions, I think that quite a bit of the ideology might prevent those discussions going too far, but we have what we think are very innovative solutions to many of the issues people face. We believe that money needs to stay in businesses' bank accounts and people's pockets. Surely, part of the issue to do with the Bank of England introducing a second phase of quantitative easing, something you highlighted in the statement, which is about introducing liquidity to the marketplace and the economy.

One of the quickest ways to achieve an effective spend of this one-off money that you have identified would be to cap council tax so that households could spend that money themselves in their local economy and, it is hoped, complement that spend. I think that you said that your officials had worked out that it adds up to between £3 and £5 a week for the average household—

The First Minister: It is per month.

Andrew R.T. Davies: It is per month, is it? However, if households complemented that amount, that spend could make a difference

mwyn canfod y ffordd fwyaf effeithiol ymlaen. Ar yr un pryd, byddwn hefyd yn ymgynghori gyda busnes, undebau llafur a CLILC. Mae amser yn brin, ond bwriadaf gyhoeddi pecyn o fesurau manwl cyn i gyngor adnewyddu'r economi gwrdd ar 9 Tachwedd.

Mae'r rhain yn amseroedd anodd i fusnesau Cymru. Mae pobl Cymru yn disgwyl arweiniad. Mae'r Llywodraeth yn chwarae ei rhan, a gobeithiaf y gall y Cynulliad cyfan gydweithio er lles y wlad.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Diolch i chi am eich datganiad, Brif Weinidog. Yr ydych yn hollol iawn i nodi bod y rhain yn amseroedd anodd. Mae pob un ohonom yn mynd adref yn y nos ac yn gwyllo'r teledu neu'n gwrandao ar y radio, a gallwn weld a chlywed am yr ansefydlogrwydd economaidd o amgylch y byd ac, yn wir, ar garreg ein drws. Croesawaf eich cynnig i gynnal deialog. Byddwn ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn barod iawn i ymgysylltu â chi. Wrth gwrs, o gofio'r trafodaethau blaenorol, credaf y gallai cryn dipyn o ideoleg atal y trafodaethau hynny rhag mynd yn rhy bell, ond rydym o'r farn bod gennym atebion arloesol iawn i nifer o'r materion y mae pobl yn eu hwynebu. Credwn fod angen i arian aros yn nghyfrifon banc busnesau ac ym mhocedi pobl. Yn sicr, mae rhan o'r mater yn ymwneud â Banc Lloegr yn cyflwyno ail gam lleddfu meintiol, sef rhywbeth a amlygwyd gennych yn y datganiad, sydd yn ymwneud â chyflwyno hylifedd i'r farchnad a'r economi.

Un o'r ffyrdd cyflymaf i wario'n effeithiol yr arian untro hwn a nodwyd gennych fyddai drwy rewi'r dreth gyngor fel bod aelwydydd yn gallu gwario'r arian eu hunain yn eu heconomi leol gan, fe obeithir, ategu'r gwariant hwnnw. Credaf ichi ddweud bod eich swyddogion wedi gweithio allan fod hyn yn golygu rhwng £3 a £5 yr wythnos i'r aelwyd gyffredin—

Y Prif Weinidog: Mae hynny fesul mis.

Andrew R.T. Davies: Fesul mis yw e, ie? Beth bynnag, pe bai aelwydydd yn ategu'r swm hwnnw, gallai'r gwariant wneud

locally. Business rate relief is another way that could help businesses to keep money within their accounts and on their balance sheets so that they could grow or, at least, ensure that they maintained the jobs they had. I am also grateful for the timeline that you indicated in your statement. It is very helpful from our perspective that you are going to bring announcements forward by 9 November, as that gives us a timeline to work to.

In response to your statement, First Minister, you will find an open door and willingness to engage. I hope that, collectively, we can bring forward imaginative solutions with this limited pot of money available to us.

The First Minister: I am grateful to the leader of the opposition for his comments. Clearly, we will not agree about council tax. The reality is that, with a freeze next year, it might be worth between £3 and £5 per month for some families. However, we know that council tax is already very low in Wales compared with England. I cannot see how there would be an extra multiplier effect if that policy was pursued. In relation to the comments on business rates, I urge Members to remember that this is a one-off payment. This will be with us for one year only. We cannot make commitments year on year as a result of this money, but it is obviously important to ensure that it is used as widely as possible and, wherever possible, to lever in extra money to help with the difficult economic situation that not only we in Wales but other countries across the world find ourselves in.

Ieuan Wyn Jones: Diolchaf yn fawr i'r Prif Weinidog am y ddod â'r datganiad i'r Siambr mor fuan. Mae'n dangos parodrwydd i drafod. Yr ydym yn croesawu hynny, a'r ffaith eich wedi gofyn am y drafodaeth honno, oherwydd mae'n gyfle i'r Cynulliad. Mae pob un ohonom yn llefaru ar ran ein hetholwyr, ac yn gwybod pa mor anodd yw'r sefyllfa economaidd ar hyn o bryd. Mae'r ffigurau diweithdra heddiw, yn arbennig y cynnydd yn niweithdra pobl ifanc rhwng 16 a 24 yn hynod frawychus. Mae'r ffigurau'n

gwahaniaeth yn lleol. Mae rhyddhad ardrethi busnes yn ffordd arall a allai helpu busnesau i gadw arian yn eu cyfrifon ac ar eu mantolen fel y gallent dyfu neu, o leiaf, sicrhau eu bod yn cynnal y swyddi sydd ganddynt. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar am yr amserlen a nodwyd gennych yn eich datganiad. Mae'n ddefnyddiol iawn o'n safbwynt ni eich bod yn mynd i wneud cyhoeddiadau erbyn 9 Tachwedd gan fod hynny'n rhoi amserlen inni weithio iddi.

Mewn ymateb i'ch datganiad, Brif Weinidog, fe welwch chi ddrws agored a pharodrwydd i ymgysylltu. Gobeithiaf y gallwn ni, ar y cyd, gyflwyno atebion dychmygus gyda'r swm cyfyngedig o arian sydd ar gael i ni.

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn ddiolchgar i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau. Mae'n amlwg na fyddwn yn cytuno am y dreth gyngor. Y realiti yw, gyda'r rhewi y flwyddyn nesaf, y gallai fod yn werth rhwng £3 a £5 y mis i rai teuluoedd. Fodd bynnag, gwyddom fod y dreth gyngor eisoes yn isel iawn yng Nghymru o gymharu â Lloegr. Ni allaf weld sut y byddai effaith lluosydd ychwanegol yn digwydd pe bai'r polisi hwnnw'n cael ei ddilyn. O ran y sylwadau am ardrethi busnes, anogaf Aelodau i gofio mai taliad untro yw hwn. Bydd gennym ni'r arian hwn ar gyfer un flwyddyn yn unig. Ni allwn wneud ymrwymadau flwyddyn ar ôl blwyddyn o ganlyniad i'r arian hwn, ond, wrth gwrs, mae'n bwysig sicrhau y caiff ei ddefnyddio mor eang â phosibl a, lle bo hynny'n bosibl, i ddenu arian ychwanegol i helpu gyda'r sefyllfa economaidd anodd hynny sydd gennym nid yn unig yng Nghymru ond mewn gwledydd eraill ar draws y byd.

Ieuan Wyn Jones: I thank the First Minister very much for bringing this statement to the Chamber so soon. It shows a willingness to collaborate and to discuss. We welcome that, and the fact that you have requested these discussions, because they are an opportunity for the Assembly. Each one of us is responsible for speaking on behalf of our constituents, and we know how difficult the situation is. The unemployment figures today, particularly the increase in unemployment among young people between

uchel yng Nghymru yn barod, ac mae'r ffaith eu bod yn codi'n uwch yn peri pryder i ni i gyd. Fe wyddom, fel yr ydych wedi cydnabod, mae'r sefyllfa ar gyfer twf economaidd am y 18 mis nesaf yn edrych yn hynod o fregus.

Yr ydym ni ym Mhlaid Cymru yn croesawu yn gynnes iawn y ffaith eich bod yn gwrthod y syniad y dylid defnyddio'r arian hwn i rewi trethi cyngor yng Nghymru. Credaf mai dyna'r penderfyniad cywir. Mae ffyrdd eraill y gallwn sicrhau help i'r economi. Nodaf eich bod yn ystyried cynlluniau sy'n ymwneud â sgiliau a phrentisiaid, a buddsoddi mewn isadeiledd, sydd yn hollol iawn. Yr hyn nad wyf yn hollol siŵr yn ei gylch yw'r hyn yr ydych yn ei ddweud am gyllideb y Gweinidog busnes, sef eich bod yn ystyried rhoi mwy o arian i'w hadran hi. Gwyddom fod y symiau sydd ar gael ar gyfer y parthau menter yn isel iawn, ac er mwyn iddynt gael effaith wirioneddol bydd yn rhaid rhoi arian ychwanegol sylweddol i'r gyllideb honno. Yn ogystal â rhoi arian at sgiliau a phrentisiaid ac isadeiledd, a ydych yn fodlon ystyried rhoi mwy o arian yng nghyllideb y Gweinidog busnes—nid ar gyfer y parthau menter yn unig, ond hefyd ar gyfer y sectorau ychwanegol y mae hi wedi'u cyhoeddi?

Yr wyf yn derbyn eich pwynt am ardrethi busnes, ond fe hoffwn gael gwybod bod y Llywodraeth, mewn egwyddor, yn derbyn mai un ffordd o gael arian i fusnesau, yn uniongyrchol ac yn gyflym, yw drwy'r cynllun lleihau ardrethi busnes. Hoffwn gael sicrwydd bod y Llywodraeth, y tu hwnt i'r swm hwn o arian, yn ystyried hynny o ddifrif. Byddai hynny yn rhoi rhyw fath o sicrwydd i ni eich bod am weld arian yn mynd i'r sector busnes. Diolch am eich datganiad; gallaf eich sicrhau bod parodrwydd i drafod ymhellach dros y dyddiau a'r wythnosau sydd i ddod.

Y Prif Weinidog: Diolch i arweinydd Plaid Cymru am ei sylwadau. Fel Llywodraeth, ni allwn osgoi'r ffaith bod diweithdra ar lefel uchel a bod diweithdra ymhlith pobl ifanc ar lefel uchel iawn. Mae'n bwysig dros ben bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf buddiol, er lles y bobl hynny.

16 and 24, are exceptionally concerning. The figures are already high in Wales and the fact that they are on the increase is causing us concern. We know, as you have acknowledged, that the economic situation for growth over the coming 18 months is looking extremely fragile.

We in Plaid Cymru warmly welcome the fact that you reject the idea that this money should be used to freeze council tax in Wales. I think that that is the right decision. There are other ways that we can ensure assistance for the economy. I note that you are considering schemes relating to skills and apprenticeships, and investing in infrastructure, which are the right things to do. What I am not quite certain about is what you are saying about the Minister for business's budget, in that you are considering giving more money to her department. We know that the sums that are available for the enterprise zones are very low, and in order for them to have a real impact, significant additional funds will have to be provided for that budget. In addition to giving money for skills and apprenticeships and infrastructure, are you will to consider putting more money in the Minister for business's budget—not only for the enterprise zones, but for the additional sectors that she has announced?

I accept your point on business rates, but I would like to know that, in principle, the Government accepts that one way of getting money to businesses, directly and quickly, is through a business rate relief scheme. I would like an assurance that the Government, outwith this sum of money, is considering that seriously. That would give us some sort of an assurance that you want to see money going to the business sector. Thank you for your statement; I can assure you that we are willing to discuss the matter further in the ensuing days and weeks.

The First Minister: I thank the leader of Plaid Cymru for his comments. As a Government, we cannot get away from the fact that unemployment is at a high level and that youth unemployment is very high. It is very important that this money should be used in the most beneficial way possible, in order to benefit those people.

Ynglŷn â rhoi arian i un adran, buaswn yn mynd ymhellach a dweud ei bod yn bwysig dros ben bod yr arian yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swyddi ac ar gyfer hybu'r economi, ond nid oes rhaid i bob ceiniog fynd i un adran yn unig. Mae'n hynod bwysig bod sawl adran yn y Llywodraeth yn chwarae rôl, fel y byddai pobl yn erfyn, i gyrraedd yr un gôl neu'r un targed.

Ynglŷn ag ardrethi busnes, bydd arweinydd Plaid Cymru yn ymwybodol bod y Gweinidog ar hyn o bryd yn ystyried adolygiad o'r system ardethi ar gyfer busnesau bach yng Nghymru. Bydd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail casgliadau'r adolygiad hwnnw.

Kirsty Williams: I thank the First Minister for his statement this afternoon. I would not disagree with any of the analysis at the beginning of the statement about the precarious state of the world economy. There has been a huge slowdown in the German and French economies, and the United States of America is in a difficult and precarious situation. Huge uncertainties arise from the sovereign debt crisis in the eurozone and from the exposure of British banks, as well as banks across Europe, to the Greek, Portuguese and Italian economies. It potentially puts us in a very difficult position.

Jenny Rathbone: The previous speakers have acknowledged that 120,000 people now live with cancer; many of them are surviving and are able to live a relatively normal life. That is to be welcomed. However, I want to emphasise the challenge that faces us, which is that, by 2020—which is just down the road—according to current trends and increasing numbers, half the people of Wales and the UK will have cancer at some point in their lives. We absolutely must do something about preventing this trauma, and look at some of the reasons why we have this exponential increase in cancer. We have to put much more of our time, effort and money into preventing cancer.

anghenion cymorth a thriniaeth. Mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd drafft terfynol y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer canser yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad erbyn y Nadolig. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, ac ar y modd y mae'n rhagweld y bydd y cynllun hwn yn datblygu'r gofal sy'n cael ei dderbyn gan gleifion yng Nghymru.

Mae angen gweithredu cyflym, pendant gan Lywodraeth Cymru i bobl Cymru er mwyn sicrhau gwelliannau pellach i'r cyfraddau goroesi canser. Yn anffodus, mae perfformiad diweddar ar amseroedd aros yn peri pryder. Mae loteri cod post ar amseroedd aros ar hyn o bryd mewn achosion brys lle mae amheuaeth bod gan glaf ganser. Rwy'n croesawu'r ystadegau diweddaraf sy'n awgrymu bod y targed 62-diwrnod wedi cael ei fodloni gan Fwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan. Fodd bynnag, mae perfformiad yn llawer mwy anghyson ar draws rhannau eraill o Gymru.

Mae canser yn glefyd cymhleth. Mae rhagfynegiadau yn amcangyfrif y bydd yr effaith y mae'n ei gael ar gymdeithas yng Nghymru yn tyfu yn y dyfodol. Mae angen i Gymru fod yn barod i ymgymryd â'r her honno. Rydym yn credu bod cynllun canser cadarn a chydlynnydd canser yn gamau hanfodol yn y frwydr yn erbyn y clefyd hwn yn y rhan hon o'r byd.

Jenny Rathbone: Mae'r siaradwyr blaenorol wedi cydnabod bod 120,000 o bobl yn awr yn byw gyda chanser; mae llawer ohonynt yn goroesi ac yn gallu byw bywyd cymharol normal. Mae hynny i'w groesawu. Fodd bynnag, yr wyf am bwysleisio'r her sy'n ein hwynebu sef, erbyn 2020—nad yw'n bell i ffwrdd—yn ôl y tueddiadau presennol a niferoedd cynyddol, bydd hanner pobl Cymru a'r DU yn dioddef canser rywbyrd yn ystod eu bywydau. Mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth ynglŷn ag atal y trawma hwn, ac edrych ar rai o'r rhesymau pam yr ydym wedi gweld y cynnydd cyflymach hwn mewn canser. Mae'n rhaid i ni roi llawer mwy o'n hamser, ymdrech ac arian i mewn i atal canser.

We know that cancer prevention is about lifestyle changes: it is about the food we eat, the air we breathe, the amount of exercise we take and so on. Many people are working on this, and we need to work with them. For example, take simple broccoli; it is well known to have cancer-preventing properties. However, scientists have recently developed this super broccoli, called beneforte, which is about to hit our supermarket shelves. It contains high-levels of glucoraphanin—I am sure that some of you could pronounce that better than me. It is not genetically modified. It has been developed from wild broccoli, which was discovered in 1983, with very high proportions of this substance. It is something that all of us are able to afford to buy, and all of us could be eating it at some stage during our normal week. It is a perfectly simple way of combating cancer.

We know that people in general do not eat enough fruit and vegetables. For example, a few weeks ago, the World Cancer Research Fund launched a new campaign called My Packed Lunch, which was based on the evidence that more than two out of five packed lunches contain no fruit or vegetables whatsoever. Cancer Research UK trialled a cheap nicotine substitute, called tabex, which was three times more likely to succeed than a placebo tablet. This could save the national health service a huge amount of money.

I am proud of the nearly £200 million that Wales is investing in public health to promote cancer prevention; we are leading the way on this. We now have over 1,000 primary schools providing free healthy breakfast for pupils. Obviously, that has other benefits as well, but it is hugely beneficial to ensure that our next generation makes these small steps to improve their health.

We have also recently signed up to the new guidelines on physical activity, but we still have a huge amount to do in combating high levels of obesity in Wales. Of course, we need to continue to take steps to stop people smoking. This is the most important factor in

Rydym yn gwybod bod atal canser yn ymwneud â newid ffordd o fyw: y bwyd yr ydym yn ei fwyta, yr aer a anadlwn, faint o ymarfer yr ydym yn ei wneud ac yn y blaen. Mae llawer o bobl yn gweithio ar hyn, ac mae angen i ni weithio gyda nhw. Er enghraifft, os ystyriwn rywbeth syml fel brocoli; mae'n hysbys ei fod yn gallu helpu atal canser. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae gwyddonwyr wedi datblygu brocoli arbennig, o'r enw beneforte, sydd ar fin cyrraedd silffoedd ein harchfarchnadoedd. Mae'n cynnwys lefelau uchel o glucoraphanin—yr wyf yn siŵr y gallai rhai ohonoch ynganu'r gair yna yn well na fi. Nid yw wedi ei addasu'n enetig. Fe'i datblygwyd o frocoli gwyllt, a ddarganfuwyd ym 1983, gyda chyfran uchel iawn o'r sylwedd hwn. Mae'n rhywbeth y mae pob un ohonom yn gallu fforddio ei brynu, a gallai pob un ohonom ei fwyta ar ryw adeg yn ystod ein hwythnos arferol. Mae'n ffordd berffaith syml o frwydro yn erbyn canser.

Rydym yn gwybod nad yw pobl yn gyffredinol yn bwyta digon o ffrwythau a llysiau. Er enghraifft, ychydig wythnosau yn ôl, lansiodd Cronfa Ymchwil Canser y Byd ymgyrch newydd o'r enw 'My Packed Lunch', a oedd yn seiliedig ar y dystiolaeth nad yw mwy na dau o bob pum pecyn cinio yn cynnwys unrhyw ffrwythau neu lysiau o gwbl. Bu i Cancer Research UK dreialu rhywbeth rhad i gymryd lle nicotin, a elwir yn tabex, a oedd deirgwaith yn fwy tebygol o lwyddo na thabled plasebo. Gallai hyn arbed swm sylweddol o arian i'r gwasanaeth iechyd gwladol.

Yr wyf yn falch o'r bron i £200 miliwn y mae Cymru'n ei fuddsoddi mewn iechyd cyhoeddus i hyrwyddo atal canser; rydym yn arwain y ffordd ar hyn. Erbyn hyn mae gennym dros 1,000 o ysgolion cynradd yn darparu brecwast iach am ddim i ddisgyblion. Wrth gwrs, mae buddion eraill yn deillio o hynny hefyd, ond mae'n hynod fuddiol i sicrhau bod ein cenhedlaeth nesaf yn cymryd y camau bychain hyn i wella eu hiechyd.

Rydym hefyd wedi llofnodi'n ddiweddar y canllawiau newydd ar weithgarwch corfforol, ond mae gennym lawer iawn i'w wneud er mwyn mynd i'r afael â lefelau uchel o ordewdra yng Nghymru. Wrth gwrs, mae angen i ni barhau i gymryd camau i atal pobl

preventing cancer, which we have known about for the last 40 or 50 years, and we are still talking about it. We know that one in five cancers is caused by smoking. Three quarters of all lung cancers could be avoided if people did not smoke.

3.45 p.m.

Quite rightly, we were the first nation in the UK to ban smoking in public places and we will be the first in Europe to ban smoking in cars carrying children if the incidences of that happening do not drop as a result of the publicity programme that the Government has launched. However, I must question why we still have to have negotiations with the tobacco industry about whether or not we will sell tobacco under the counter, put it in plain packaging or ban it from machines. Why can the tobacco industry not do something more healthy and effective and stop doing what it knows is causing people to die of lung cancer?

Suzy Davies: Darren Millar said earlier that we have the highest proportion of people living with cancer in Wales, but, in addition to that, only last year a YouGov poll found that the majority of the Welsh public thinks that cancer is the disease or illness that should be given top priority by the Assembly. In acknowledgement of that finding, the chairman of the Wales Cancer Alliance said:

‘The scale of the challenge facing the government in ensuring that everyone affected by cancer in Wales is offered the best treatment and support throughout their entire cancer journey, regardless of who they are, their age, where they live, and the type of cancer they have, is enormous.’

A universally approved pathway of care and support for patients and their families is the primary reason why we need a national cancer plan, championed by an independent cancer care co-ordinator. Major charities such as Macmillan Cancer Support and Cancer Research UK are united in their call for a national strategy that does not just improve

rhag ysmygu. Dyma’r ffactor pwysicaf o ran atal cancer, ac yr ydym wedi bod yn ymwybodol o hyn am y 40 neu 50 mlynedd diwethaf, ond yr ydym yn dal i siarad am y peth. Rydym yn gwybod bod un o bob pum cancer yn cael ei achosi gan ysmygu. Gallai tri chwarter o achosion cancer yr ysgyfaint gael eu hosgoi pe na bai pobl yn ysmygu.

Yn gwbl briodol, ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i wahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus, a ni fydd y cyntaf yn Ewrop i wahardd ysmygu mewn ceir sy’n cludo plant os nad yw nifer yr achosion o hynny’n digwydd yn gostwng o ganlyniad i’r rhaglen gyhoeddusrwydd y mae’r Llywodraeth wedi ei lansio. Fodd bynnag, rhaid i mi gwestiynu pam bod yn rhaid i ni gael trafodaethau gyda’r diwydiant tybaco ynghylch a fyddwn yn gwerthu tybaco o dan y cownter ai peidio, ei roi mewn pecynnau plaen neu ei wahardd o beiriannau. Pam na all y diwydiant tybaco wneud rhywbeth mwy iach ac effeithiol a rhoi’r gorau i wneud yr hyn y mae’n gwybod sy’n achosi pobl i farw o ganser yr ysgyfaint?

Suzy Davies: Dywedodd Darren Millar yn gynharach bod gennym y gyfran uchaf o bobl sy’n byw gyda chanser yng Nghymru, ond, yn ychwanegol at hynny, dim ond y llynedd, canfu pŵl YouGov fod y rhan fwyaf o’r cyhoedd yng Nghymru yn credu mai cancer yw’r clefyd neu’r salwch a ddylai gael blaenoriaeth gan y Cynulliad. Wrth gydnabod y canfyddiad hwnnw, dywedodd cadeirydd Cynghrair Canser Cymru:

Mae maint yr her sy’n wynebu’r llywodraeth i sicrhau bod pawb yr effeithir arnynt gan ganser yng Nghymru yn cael cynnig y driniaeth a’r gefnogaeth orau drwy gydol eu taith canser gyfan, waeth pwy ydynt, beth yw eu hoedran, lle maent yn byw, a’r math o ganser sydd ganddynt, yn enfawr.

Yr angen am lwybr a gymeradwywyd yn gyffredinol o ofal a chefnogaeth i gleifion a’u teuluoedd yw’r prif reswm pam y mae arnom angen gynllun canser cenedlaethol, wedi’i hyrwyddo gan gydlynnydd gofal canser annibynnol. Mae elusennau mawr megis Cymorth Canser Macmillan ac Ymchwil Canser y DU yn unedig wrth alw am

clinical outcomes, but integrates policies and services, dedicates resources and improves focus on research, diagnostics and the whole care pathway.

Understandably, with 200 different types of cancer to deal with, the focus of Government investment has been on improved clinical care. While there have been periods of improvement, I cannot hide my disappointment that Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board has been the worst-performing health board in Wales for three quarters running with regard to hitting targets for the treatment of urgent cancer cases. The Welsh Labour Government has to accept that cutting funding to LHBs makes the scale of the challenge identified by the Wales Cancer Alliance even more enormous. A national cancer plan would help my region's health board plan to meet its targets, and an independent national cancer co-ordinator would help to ensure that my region's health board meets those targets.

Abertawe Bro Morgannwg already belongs to a cancer network for south-west Wales in which LHBs collaborate to design services for the region. Its experience would be valuable in designing a national cancer plan. Buried away on its website is a link to information about cancer support services, primarily national charities, that help to meet the non-clinical needs of patients. If that is it, it is not surprising that Cancer Information and Support Services in Swansea, which confirms that it has not even been approached about a national cancer plan, states that any such plan must improve signposting by health professionals to cancer support services. This indicates an existing disconnect between clinical care and support care, which limits patients' knowledge of what help they could have. That could be overcome by a national cancer care plan and is a second reason for its prompt introduction.

Those support services are often provided by charities—Tenovus, Macmillan Cancer

strategaeth genedlaethol nad yw'n gwella canlyniadau clinigol yn unig, ond yn integreiddio polisiau a gwasanaethau, neilltuo adnoddau ac yn gwella'r ffocws ar ymchwil, diagnosteg a llwybr gofal cyfan.

Mae'n ddealladwy, gyda 200 o wahanol fathau o ganser i ddelio â hwy, bod y Llywodraeth wedi canolbwyntio ei buddsoddiad ar wella gofal clinigol. Er y bu cyfnodau o welliant, ni allaf guddio fy siom mai Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg sydd â'r perfformiad gwaethaf o ran byrddau iechyd yng Nghymru ar gyfer y tri chwarter diwethaf o ran cyrraedd targedau ar gyfer trin achosion cancer brys. Mae'n rhaid i Lywodraeth Lafur Cymru dderbyn bod torri cyllid i fyrddau iechyd lleol yn gwneud maint yr her a nodwyd gan Gynghrair Canser Cymru hyd yn oed yn fwy. Byddai cynllun cancer cenedlaethol yn helpu'r bwrdd iechyd yn fy rhanbarth i gyrraedd ei dargedau, a byddai cydlynnydd cancer cenedlaethol annibynnol yn helpu i sicrhau bod bwrdd iechyd fy rhanbarth yn bodloni'r targedau hynny.

Mae Abertawe Bro Morgannwg eisoes yn perthyn i rwydwaith cancer ar gyfer de-orllewin Cymru, lle mae byrddau iechyd lleol yn cydweithio i ddylunio gwasanaethau ar gyfer y rhanbarth. Byddai ei brofiad yn werthfawr wrth ddylunio cynllun cancer cenedlaethol. Wedi'i guddio ar ei wefan mae dolen i gael mynediad at wybodaeth am wasanaethau cymorth cancer, elusennau cenedlaethol yn bennaf, sy'n helpu i ddiwallu anghenion anghlinigol cleifion. Os dyna'n unig sydd, nid yw'n syndod bod Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser yn Abertawe, sydd wedi cadarnhau nad oes unrhyw un wedi eu holi am gynllun cancer cenedlaethol, yn nodi bod yn rhaid i unrhyw gynllun o'r fath wella cyfeirio gan weithwyr iechyd proffesiynol at wasanaethau cymorth cancer. Dengys hyn bod diffyg cysylltiad ar hyn o bryd rhwng gofal clinigol a gofal cymorth, sy'n cyfyngu ar wybodaeth cleifion o'r cymorth y gallent ei gael. Gallai hynny gael ei oresgyn gan gynllun gofal cancer cenedlaethol ac mae'n ail reswm dros ei gyflwyno'n brydlon.

Yn aml, darperir gwasanaethau cymorth gan elusennau—Tenovus, Cymorth Canser

Support, Cancer Research UK, Marie Curie Cancer Care, Bacup—and a host of cancer-specific support groups that support patients, carers and families. Then there are the local organisations, such as CISS and the wonderful Maggie's Cancer Caring Centres, whose centre at the Singleton Hospital site in Swansea offers information, psychological and emotional support and benefits advice. I must also mention the incomparable Bracken Trust in Llandrindod, which is the absolute acme of holistic cancer support. When you have groups such as the Neath Port Talbot Cancer Challenge spending £30,000 on radiotherapy equipment for Singleton as well as buying PillCams to allow Neath Port Talbot Hospital to become one of only two Welsh hospitals to be able to use capsule endoscopy, it is immediately obvious why Baroness Findlay highlighted the role of the third sector in cancer care. This is the third reason why we need a national cancer plan, championed by an independent national cancer co-ordinator: to ensure that the third sector is recognised, integral and financially protected as part of the provision of cancer care. For it to work, the third sector, through the Welsh Cancer Alliance, perhaps, needs to be centrally involved in the design of any national plan, especially when it comes to non-acute and non-clinical care. The previous Minister for health observed that:

'Most patients express the wish to be in their own homes as much as possible and we're working with community teams to make this happen'.

Again, in the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board area, much emphasis is being placed on the community integrated intermediate care service, which is tasked with preventing unnecessary hospital admissions. That will only be feasible if various third sector organisations are included from the beginning in designing the care pathways required by any individual. The effect of a national cancer plan designed in part by the third sector on unnecessary hospital admissions for cancer-related care

Macmillan, Ymchwil Canser y DU, Gofal Canser Marie Curie, Bacup—a llu o grwpiau cymorth ar gyfer cancer yn benodol sy'n cefnogi cleifion, gofalcwyr a theuluoedd. Yna mae sefydliadau lleol, fel CISS a'r Canolfannau Gofal Canser Maggie sy'n arbennig o dda, ac mae ei ganolfan ar safle Ysbyty Singleton yn Abertawe yn cynnig gwybodaeth, cefnogaeth seicolegol ac emosiynol a chyingor ar fudd-daliadau. Rhaid i mi hefyd sôn am wasanaeth rhagorol Ymddiriedolaeth Bracken yn Llandrindod, sydd ar y brig o ran cymorth cancer holistaidd. Pan fydd gennych grwpiau megis Her Canser Castell-nedd Port Talbot yn gwario £30,000 ar offer radiotherapi ar gyfer Singleton yn ogystal â phrynu PillCams i ganiatáu i Ysbyty Castell-nedd Port Talbot i fod yn un o ddim ond dau ysbyty yng Nghymru i allu defnyddio endosgopi capsiwl, mae'n dod yn amlwg yn syth pam y tynnodd y Farwnes Findlay sylw at rôl y trydydd sector mewn gofal cancer. Dyma'r trydydd rheswm pam y mae angen cynllun cancer cenedlaethol, wedi ei hyrwyddo gan gydlynnydd cancer cenedlaethol annibynnol: i sicrhau bod y trydydd sector yn cael ei gydnabod, ei fod yn ganolog ac yn cael ei ddiogelu'n ariannol fel rhan o ddarpariaeth gofal cancer. Er mwyn iddo weithio, efallai bod angen i'r trydydd sector, drwy Gynghrair Canser Cymru, chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddyfeisio cynllun cenedlaethol, yn enwedig o ran gofal nad yw'n aciwt a gofal anghlinigol. Bu i'r cyn-Weinidog iechyd ddweud:

Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn mynegi dymuniad i fod yn eu cartrefi eu hunain gymaint ag y bo modd ac yr ydym yn gweithio gyda thimau cymunedol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Unwaith eto, yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, mae llawer o bwyslais yn cael ei roi ar y gwasanaeth gofal canolraddol integredig yn y gymuned, sydd â'r dasg o atal pobl rhag gorfod mynd i mewn i'r ysbyty yn ddiangen. Bydd hynny ond yn ymarferol os bydd rhai sefydliadau trydydd sector yn cael eu cynnwys o'r cychwyn wrth ddylunio'r llwybrau gofal y mae ar unigolion eu hangen. Bydd effaith cynllun cancer cenedlaethol a ddylunir yn rhannol gan y trydydd sector ar

will help to set a benchmark of achievement for services provided to patients with other post-acute and chronic illnesses.

Finally, on 14 April 2010, the previous Minister for health promised us that every cancer patient in Wales would be allocated a key worker who would understand their needs and support them after treatment. Those key workers were to be in place by the end of March 2011. In its 2011 manifesto, Labour was still talking about that as a future aim. I would say that a fourth reason why we need a national cancer plan championed by an independent national co-ordinator is to help this Welsh Labour Government stick to its promises.

Kirsty Williams: I welcome the opportunity to build on the work of last week's debate and to explore fully what the Assembly voted for last week, when it unanimously voted for a cancer plan. This is a useful opportunity to talk about the essential elements of that cancer plan, and what needs to be included if we are to fulfil the promise that we made last week in our vote. I will spell out what I believe to be the essential elements in the cancer plan in the Welsh Liberal Democrat debate later on, and so I will use this contribution to talk about a clinical lead for cancer. You can call it a cancer tsar, or an independent advisor, or a national clinical director, but it is crucial that we have a strong clinical lead to drive cancer services forward in Wales.

It is clear to me that, if we are to see a step change in our cancer survival rates, we need to recognise the need for change in the existing system. Secondly, we need a clear view of where we need to go. Thirdly, we need to know how to get there, and, finally, which is the crucial element, we need someone with key responsibility for ensuring that it all happens. That has been one of the critical elements of the success in England, Scotland and Northern Ireland in driving cancer services forward. We cannot all be

dderbyniadau diangen i ysbytai ar gyfer gofal sy'n gysylltiedig â chanser yn helpu i feincnodi cyflawniad ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i gleifion â salwch ôl-aciwt a chronig eraill.

Yn olaf, ar 14 Ebrill 2010, addawodd y Gweinidog iechyd blaenorol wrthym y byddai gan bob claf canser yng Nghymru weithiwr allweddol a fyddai'n deall eu hanghenion ac yn eu cefnogi ar ôl y driniaeth. Yr oedd y gweithwyr allweddol hynny i fod yn gweithredu erbyn diwedd mis Mawrth 2011. Yn ei manifestio yn 2011, yr oedd Llafur yn dal i siarad am hynny fel nod i'r dyfodol. Byddwn yn dweud mai'r pedwerydd rheswm pam y mae angen cynllun canser cenedlaethol wedi ei hyrwyddo gan gydlynnydd cenedlaethol annibynnol yw helpu Llywodraeth Lafur Cymru i gadw ei haddewidion.

Kirsty Williams: Yr wyf yn croesawu'r cyfle i adeiladu ar waith y ddadl a gawsom yr wythnos diwethaf ac i archwilio'n llawn yr hyn y pleidleisiodd y Cynulliad o'i blaid pan bleidleisiodd yn unfrydol am gynllun canser. Mae hwn yn gyfle defnyddiol i siarad am elfennau hanfodol y cynllun canser hwnnw, a'r hyn y mae angen ei gynnwys os ydym i gyflawni'r addewid a wnaethom yr wythnos diwethaf yn ein pleidlais. Gwnaf amlinellu'r elfennau yr wyf yn credu sy'n hanfodol i'r cynllun canser yn nadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn nes ymlaen, ac felly defnyddiaf y cyfraniad hwn i siarad am arweinydd clinigol ar gyfer canser. Gallwch ei alw'n tsar canser, neu ymgynghorydd annibynnol, neu gyfarwyddwr clinigol cenedlaethol, ond mae'n hanfodol bod gennym arweinydd clinigol cryf i yrru gwasanaethau canser ymlaen yng Nghymru.

Mae'n amlwg i mi, os ydym i weld newid sylweddol yn y nifer sy'n goroesi canser, bod angen i ni gydnabod bod angen newid y system bresennol. Yn ail, mae angen darlun clir o ble y mae angen inni fynd. Yn drydydd, mae angen inni wybod sut mae cyrraedd yno, ac, yn olaf, sef yr elfen hollbwysig, mae angen rhywun sydd â chyfrifoldeb allweddol dros sicrhau ei fod i gyd yn digwydd. Dyna un elfen allweddol sydd wedi cyfrannu at y llwyddiant yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran gwella gwasanaethau canser.

lucky enough to have a Professor Mike Richards, but he has been instrumental in that role in driving change forward. Incidentally, he is the only national clinical director of the Department of Health in England who works full time; most clinical leads maintain practice and work on a part-time basis. However, because of the size of the challenge, a full-time post was created for this particular clinical lead. Elin Jones is quite right: the delivery of cancer services is incredibly complex. Most patients will start in the community and in primary care, and all of them will probably go through their district general hospital or the regional cancer centre. Some of them will end up in hospices, and the vast majority of patients will benefit from the third sector support and advice outlined by Suzy Davies. It is a complex field with multiple layers and with patients going through a vast array of services. If we do not co-ordinate those correctly and get all those players pulling in the same direction, the likelihood is that patients will fall through the gap, and the services and improvements that we are trying to obtain for patients will be weaker because of it.

I thought that I knew about politics until I saw politics in the NHS. If we are honest with ourselves, some of the barriers to change exist within the NHS itself and in the turf war between different parts of Wales, different clinicians and different clinical teams. Sometimes, frankly, they need their heads knocking together to get them to work co-operatively towards a stated goal. That is why we need a strong clinical lead to ensure that that happens. As far as I can see—and I took a hard look—the last time that the cancer networks in Wales were looked at independently by Healthcare Inspectorate Wales was in 2006. In 2006, a significant list of improvements with regard to how cancer networks needed to work better was drawn up by Healthcare Inspectorate Wales. There were problems with regard to accountability, commissioning arrangements and compliance, and an action plan was drawn up in 2007 with clear timescales as to what should be happening in those cancer

Ni allwn i gyd fod yn ddigon ffodus i gael yr Athro Mike Richards, ond mae wedi bod yn allweddol yn y rôl o ran cyflwyno newidiadau. Gyda llaw, ef yw unig gyfarwyddwr clinigol cenedlaethol yr Adran Iechyd yn Lloegr sy'n gweithio amser llawn; mae'r rhan fwyaf o arweinyddwr clinigol fel arfer yn parhau i ymarfer ac yn gweithio rhan amser. Fodd bynnag, oherwydd maint yr her, crëwyd swydd lawn-amser ar gyfer yr arweinydd clinigol penodol hwn. Mae Elin Jones yn llygad ei lle: mae gwasanaethau cancer yn hynod o gymhleth i'w gweithredu. Bydd y rhan fwyaf o gleifion yn dechrau yn y gymuned ac mewn gofal sylfaenol, a bydd pob un ohonynt yn ôl pob tebyg yn mynd i'w ysbyty cyffredinol dosbarth neu ganolfan cancer ranbarthol. Bydd rhai ohonynt, yn y pen draw, yn mynd i mewn i hosbis, a bydd y mwyafrif helaeth o gleifion yn elwa ar gymorth a chynghor gan y trydydd sector, fel yr amlinellwyd gan Suzy Davies. Mae'n faes cymhleth gyda sawl haen a gyda chleifion yn defnyddio sawl gwasanaeth amrywiol. Os nad ydym yn cydlynu'r rhain yn gywir ac yn sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un nod, y tebygrwydd yw y bydd cleifion yn disgyn drwy'r bwlch, a bydd y gwasanaethau a'r gwelliannau yr ydym yn ceisio eu sicrhau er budd cleifion yn wannach oherwydd hynny.

Roeddwn yn meddwl fy mod yn gwybod am wleidyddiaeth nes i mi weld gwleidyddiaeth y gwasanaeth iechyd gwladol. Os ydym yn onest â'n hunain, mae rhai o'r rhwystrau i newid yn bodoli o fewn y gwasanaeth iechyd ei hun ac yn y rhyfel dros dir rhwng gwahanol rannau o Gymru, gwahanol glinigwyr a gwahanol dimau clinigol. Weithiau, a dweud y gwir, mae angen curo'u pennau â'i gilydd i'w cael i gydweithio i gyrraedd nod arbennig. Dyna pam y mae arnom angen arweinydd clinigol cryf i sicrhau bod hynny'n digwydd. Cyn belled ag y gallaf weld—ac edrychais yn fanwl—yn 2006 y cafwyd yr arolwg annibynnol diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o rwydweithiau cancer yng Nghymru. Yn 2006, lluniwyd rhestr sylweddol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o'r gwelliannau yr oedd angen eu gweithredu o ran sut y dylai'r rhwydweithiau cancer weithio yn well. Roedd problemau o ran atebolrwydd, trefniadau comisiynu a

networks to ensure improvements. However, for the life of me, I have not been able to find any follow-up documentation to see whether any of those things actually happened. I am sure that they did, but there is no documentary evidence that I can find to satisfy me that the failings identified in 2006 have been overcome.

We need a cancer plan—we are all agreed on that, although I dare say that we will disagree about what exactly it entails. However, if a cancer plan is to work, then we need a strong clinical lead to deliver it to ensure that all the players work together and that we achieve the stated aim of all of us, which is better cancer services for all of our constituents.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to speak in this debate and to the motion that we have tabled calling for a national cancer plan and a cancer co-ordinator. We, on these benches, championed this extensively in the previous Assembly. The Plaid Cymru health spokesperson is right to point out that there is a commitment across this Chamber to improving cancer services, and that there is now, thankfully, a commitment to a national cancer plan following last week's debate. I hope that Plaid Cymru, following the discussions today, will reflect on its amendment, because if its amendment is agreed it will take away a key plank with regard to delivering a national cancer plan, which is to have a cancer co-ordinator in place.

I ask the Plaid Cymru spokesperson to reflect on the comments made by her predecessor, Helen Mary Jones, in the *Western Mail* on 4 February, under the heading, 'Plaid calls for a cancer tsar in Wales'. She was quoted extensively on the issue and called for cancer services to be improved. I also draw her attention to the article that was written in the *Western Mail* on 11 April by the same individual, which highlighted the same issues. I appreciate that Helen Mary is no

chydymffurfiaeth, a lluniwyd cynllun gweithredu yn 2007 gydag amserlenni clir ynghylch yr hyn a ddylai fod yn digwydd yn y rhwydweithiau cancer hynny er mwyn sicrhau gwelliannau. Fodd bynnag, er fy mod wedi ceisio gwneud hynny, nid wyf wedi gallu dod o hyd i unrhyw ddogfennau dilynol i weld a ddigwyddodd y pethau hynny mewn gwirionedd. Mae'n siŵr gennyf y gwnaethant, ond nid oes unrhyw dystiolaeth ddogfennol y gallaf ddod o hyd iddi sy'n fy modloni bod y diffygion a nodwyd yn 2006 wedi cael eu goresgyn.

Mae arnom angen gynllun cancer—yr ydym i gyd yn gytûn ar hynny, er rwy'n sicr y byddwn yn anghytuno am beth yn union y mae'n ei olygu. Fodd bynnag, er mwyn i gynllun cancer weithio, mae angen arweinydd clinigol cryf i'w roi ar waith er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd a'n bod yn cyflawni'r nod datganedig y mae pob un ohonom am ei weld, sef gwasanaethau cancer gwell ar gyfer ein holl etholwyr.

Andrew R.T. Davies: Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon ac am y cynnig a gyflwynwyd gennym sy'n galw am gynllun cancer cenedlaethol a chydlynnydd cancer. Bu i ni, ar y meinciau hyn, hyrwyddo hyn yn helaeth yn y Cynulliad blaenorol. Mae llfarydd iechyd Plaid Cymru yn iawn i nodi bod yna ymrwymiad ar draws y Siambr hon i wella gwasanaethau cancer a bod erbyn hyn, diolch byth, ymrwymiad i gynllun cancer cenedlaethol yn dilyn y ddadl yr wythnos diwethaf. Yr wyf yn gobeithio bod Plaid Cymru, yn dilyn y trafodaethau heddiw, yn myfyrio ar ei gwelliant, oherwydd bydd ei gwelliant yn cael ei gytuno, bydd yn tynnu elfen allweddol o ran cyflwyno cynllun cancer cenedlaethol, sef rôl cydgysylltydd cancer.

Gofynnaf i lefarydd Plaid Cymru i fyfyrio ar y sylwadau a wnaed gan ei rhagflaenydd, Helen Mary Jones, yn y *Western Mail* ar 4 Chwefror, o dan y pennawd, 'Plaid yn galw am tsar cancer yng Nghymru'. Cafodd ei dyfynnu yn helaeth ar y mater a galwodd am wasanaethau cancer gwell. Rwyf hefyd yn tynnu ei sylw at erthygl a ysgrifennwyd yn y *Western Mail* ar 11 Ebrill gan yr un unigolyn, a dynnodd sylw at yr un materion. Yr wyf yn sylweddoli nad yw Helen Mary yn y Siambr

longer with us in this Chamber, but that is, I believe, Plaid Cymru policy; I am not aware that Plaid policy has changed in this regard. We welcome Plaid's support for the national cancer plan, but its Members must surely recognise that it is vital that, in order to drive this forward, there is an independent professional oncologist, with that expertise, to join up the service provision that a cancer plan would seek to deliver.

I hope that the Minister will reflect on the evidence that has been put forward, not just by politicians, but by all the cancer charities and the medical fraternity, which emphasise the important role that a cancer co-ordinator could undertake. You only need to look at what Mike Richards has achieved in England in terms of developing a cancer plan that encompasses the community and the whole patient pathway. There are some criticisms with regard to some aspects of the plan that has been put forward in England, and we have a unique opportunity in Wales to devise a plan that looks from the start to the finish of the patient pathway. One criticism that could be levied against the English plan is that it tends to focus too strongly on the start and the end, and not on the middle, which is the treatment part. We have a unique ability in Wales, with our understanding, to develop that centre ground, because, ultimately, it is through treatment that people will, hopefully, overcome the disease.

We have heard today from the Member from Cardiff Central about the real explosion that we will see in cancer cases across our communities and population. I therefore hope that the Minister, in responding to this debate, will emphasise the time frame to which the Government is working to bring this proposal forward. Sadly, when time frames have been put in place around treatment and access to cancer drugs in the past, the Government and its predecessors has been found wanting.

4.00 p.m.

My colleague Suzy Davies touched on access to key workers. Sadly, it looks like that target has been missed. In last week's debate, we touched on the exceptions committees and the guidance that was going to provide

hon bellach, ond dyna, yn fy marn i, yw polisi Plaid Cymru; nid wyf yn ymwybodol bod polisi Plaid wedi newid yn hyn o beth. Rydym yn croesawu cefnogaeth y Plaid am y cynllun canser cenedlaethol, ond mae'n rhaid i'w Haelodau gydnabod ei bod yn hanfodol, er mwyn symud hyn yn ei flaen, bod oncolegydd proffesiynol annibynnol, gyda'r arbenigedd hwnnw, i uno'r ddarpariaeth y byddai cynllun canser yn ceisio ei chynnig.

Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd, nid yn unig gan wleidyddion, ond gan yr holl elusennau canser a'r frawdoliaeth feddygol, sy'n pwysleisio'r rôl bwysig y gallai cydgyssylltydd canser ei chwarae. Gallwn weld yn glir yr hyn y mae Mike Richards wedi ei gyflawni yn Lloegr o ran datblygu cynllun canser sy'n cwmpasu'r gymuned a'r llwybr cyfan i'r claf. Mae rhai yn beirniadu rhai elfennau o'r cynllun sydd wedi ei gyflwyno yn Lloegr, ac mae gennym gyfle unigryw yng Nghymru i ddyfeisio cynllun sy'n edrych ar lwybr y claf o'r dechrau i'r diwedd. Un feirniadaeth y gellid ei godi yn erbyn y cynllun yn Lloegr yw ei fod yn tueddu i ganolbwyntio gormod ar y dechrau a'r diwedd, ac nid ar y canol, sef y driniaeth. Mae gennym allu unigryw yng Nghymru, gyda'n dealltwriaeth, i ddatblygu'r tir canol, oherwydd, yn y pen draw, drwy driniaeth y bydd pobl, rydym yn gobeithio, yn goresgyn y clefyd.

Yr ydym wedi clywed heddiw gan yr Aelod o Gaerdydd Canolog am y ffrwydrad go iawn y byddwn yn ei weld mewn achosion o ganser ar draws ein cymunedau a'n poblogaeth. Felly, yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog, wrth ymateb i'r ddadl hon, yn pwysleisio amserlen y Llywodraeth wrth weithio i weithredu'r cynnig hwn. Yn anffodus, pan gyflwynwyd amserlenni o ran triniaeth a mynediad at gyffuriau canser yn y gorffennol, mae diffyg wedi bod ar ran y Llywodraeth a'i rhagflaenwyr.

Mae fy nghydweithiwr Suzy Davies wedi cyffwrdd ar fynediad at weithwyr allweddol. Yn anffodus, mae'n edrych fel y methwyd y targed hwnnw. Yn y ddadl yr wythnos diwethaf, roeddem wedi cyffwrdd ar y

continuity so that, irrespective of where you live in Wales, you would be treated fairly. Those guidelines were meant to be with us in September 2010; September 2011 has been and gone, and I am led to believe that some aspects of the guidance are yet to be firmed up. I hope that the Minister will be able to confirm that the health boards will be working to national guidance in that respect.

We must use the tools that we have at the moment, such as the rural health plan, which has a crucial role to play in addressing the needs of patients in remote parts of Wales. Many Members will be aware of the excellent service offered by the Tenovus chemotherapy bus, as I believe it is called, which came to the Assembly. People could see that where the voluntary sector is engaged with the state sector, we can offer a comprehensive model of care and assistance, whatever part of Wales you live in. That is, surely, what the cancer plan needs to address to ensure that there is not a silo mentality. We should look at the voluntary sector as well as at the state sector, and look at working in partnership to ensure that people do not feel excluded from the treatment pathway that they want. I hope that those in Plaid Cymru will reflect on what their health spokesperson said and withdraw their amendment, given the evidence that I have presented. It is vital that this motion is passed in its entirety so that we can have confidence that the plan will be in place, with a co-ordinator who is independent of the Government having expert medical advice and assistance to drive this plan forward.

David Rees: Thank you, Presiding Officer, for letting me speak in this debate on an illness that is probably one of the most emotive that we will ever come across. We have heard a lot about the situation, and I do not think that anyone in the Chamber would dispute that we want to improve cancer services in Wales. I have heard some comments that suggest that our cancer services are in dire straits, however. In reply,

pyllgorau eithriadau a'r canllawiau a oedd yn mynd i ddarparu dilyniant fel y byddech, waeth lle rydych yn byw yng Nghymru, yn cael eich trin yn deg. Roedd y canllawiau hynny i fod gyda ni ym mis Medi 2010; mae Medi 2011 wedi mynd heibio, ac fe'm harweinir i gredu bod rhai agweddau ar y canllawiau yn dal heb eu cadarnhau eto. Yr wyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu cadarnhau y bydd y byrddau iechyd yn gweithio i ganllawiau cenedlaethol yn hynny o beth.

Rhaid i ni ddefnyddio'r offer sydd gennym ar hyn o bryd, megis y cynllun iechyd gwledig, sydd â rôl hanfodol i'w chwarae wrth fynd i'r afael ag anghenion cleifion mewn rhannau anghysbell o Gymru. Bydd llawer o Aelodau'n ymwybodol o'r gwasanaeth rhagorol a gynigir gan fws cemotherapi Tenovus, fel yr wyf yn credu y'i gelwir, a ddaeth i'r Cynulliad. Gallai pobl weld y gallwn gynnig model cynhwysfawr o ofal a chymorth ble mae'r sector gwirfoddol yn ymgysylltu â sector y wladwriaeth, pa bynnag ran o Gymru yr ydych yn byw ynddi. Dyna'r hyn y mae angen i'r cynllun canser i fynd i'r afael ag ef i sicrhau nad oes meddylfryd seilo. Dylem edrych ar y sector gwirfoddol yn ogystal â sector y wladwriaeth, ac edrych ar weithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau nad yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cau allan o'r llwybr triniaeth y maent ei eisiau. Yr wyf yn gobeithio y bydd y rhai ym Mhlaid Cymru yn myfyrio ar yr hyn a ddywedodd eu llefarydd iechyd ac yn tynnu eu gwelliant yn ôl, o ystyried y dystiolaeth yr wyf wedi'i gyflwyno. Mae'n hanfodol bod y cynnig hwn yn cael ei basio yn ei gyfanrwydd fel y gallwn fod yn hyderus y bydd y cynllun yn ei le, gyda chydlynnydd sy'n annibynnol ar y Llywodraeth yn cael cyngor a chymorth meddygol arbenigol i yrru'r cynllun yn ei flaen.

David Rees: Diolch, Lywydd, am adael i mi siarad yn y ddadl hon ar salwch sydd mwy na thebyg yn un o'r rhai mwyaf emosiynol y byddwn byth yn dod ar ei draws. Yr ydym wedi clywed llawer am y sefyllfa, ac nid wyf yn meddwl y byddai neb yn y Siambr yn anghytuno ein bod yn awyddus i wella gwasanaethau canser yng Nghymru. Yr wyf wedi clywed rhai sylwadau sy'n awgrymu bod ein gwasanaethau canser mewn sefyllfa

I will note some points from a report published last month by the Welsh Cancer Intelligence and Surveillance Unit, which Darren Millar mentioned in his speech last week. The report details survival and mortality rates for different cancers over 15 years. It shows that survival rates in Wales over one year have improved, with some being at 96 per cent. Similarly, many cancers have shown a decrease in mortality over the same period. The director of the WCISU stated that this was firm evidence of real progress being made in developing cancer services and improved outcomes for those diagnosed with the disease. The report also mentions Professor Karol Sikora, one of the UK's leading cancer specialists and medical director of Cancer Partners UK. He said that cancer services in Wales are very well organised, and that there can be no doubt that a lot of thought has put into them over the last 10 years. The results for many cancers are better than in the rest of Britain.

Darren Millar *rose—*

David Rees: I do not know if I have time, Darren. If I have time at the end, I will let you come in.

We should also acknowledge something that we have so far ignored, namely the hard work and dedication of professionals and third sector organisations in delivering diagnostic, medical and support services to those 120,000 patients in Wales who are diagnosed with cancer and their families. We must not forget that, particularly as we expect the numbers to increase over the next 15 years or so. We must also talk about diagnosis, which is when treatment starts. Early diagnosis is important, and prevention and treatment have also been pivotal in the progress made over the last 10 years. Screening programmes in Wales have been vital in the battle against breast, bowel and cervical cancers. The report shows that screening women between the ages of 50 and 70 for breast cancer dramatically improved survival rates. In fact, 53.3 per cent of invasive cancers—ones that

enbyd, fodd bynnag. Wrth ymateb, nodaf rai pwyntiau o adroddiad a gyhoeddwyd fis diwethaf gan Uned Gwybodaeth a Gwyliaidwriaeth Canser Cymru, a grybwyllwyd gan Darren Millar yn ei araith yr wythnos diwethaf. Mae'r adroddiad yn manylu cyfraddau goroesi a marwolaethau ar gyfer gwahanol ganserau dros 15 mlynedd. Dengys fod cyfraddau goroesi yng Nghymru dros gyfnod o flwyddyn wedi gwella, gyda rhai ar 96 y cant. Yn yr un modd, mae llawer o ganserau wedi dangos gostyngiad yn nifer y marwolaethau dros yr un cyfnod. Dywedodd cyfarwyddwr UGCC fod hyn yn dystiolaeth gadarn o gynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud o ran datblygu gwasanaethau cancer a gwell canlyniadau ar gyfer y rhai sydd wedi cael diagnosis o'r clefyd. Mae'r adroddiad hefyd yn crybwyll yr Athro Karol Sikora, un o arbenigwyr cancer mwyaf blaenllaw'r DU a chyfarwyddwr meddygol Cancer Partners UK. Dywedodd fod gwasanaethau cancer yng Nghymru yn cael eu trefnu'n dda iawn, ac na all fod unrhyw amheuaeth bod llawer o feddwl wedi'i rhoi iddynt dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae'r canlyniadau ar gyfer llawer o ganserau yn well nag yng ngweddill Prydain.

Darren Millar *a gododd—*

David Rees: Nid wyf yn gwybod os oes gennyf amser, Darren. Os oes gennyf amser ar y diwedd, byddaf yn gadael i chi ymyrryd.

Dylem hefyd gydnabod rhywbeth yr ydym hyd yn hyn wedi'i hanwybyddu, sef gwaith caled ac ymroddiad gweithwyr proffesiynol a sefydliadau trydydd sector mewn darparu gwasanaethau diagnostig, meddygol a chymorth i'r 120,000 o gleifion yng Nghymru sy'n cael diagnosis o ganser a'u teuluoedd. Rhaid inni beidio ag anghofio hynny, yn enwedig gan ein bod yn disgwyl i'r niferoedd gynyddu dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'n rhaid i ni hefyd sôn am ddiagnosis, a dyna pryd y mae triniaeth yn dechrau. Mae diagnosis cynnar yn bwysig, ac y mae atal a thrin hefyd wedi bod yn allweddol yn y cynnydd a wnaed dros y 10 mlynedd diwethaf. Y mae rhaglenni sgrinio yng Nghymru wedi bod yn hanfodol yn y frwydr yn erbyn cancer y fron, cancer y coluddyn a chanser ceg y groth. Dengys yr adroddiad fod sgrinio menywod rhwng 50 a

would not have been spotted by any checks by hand—were spotted through screening. However, there are problems with screening for breast cancer, as only 76 per cent of women participate. We need to increase the number of women who take up the invitation. We are not going to reach 100 per cent, because the three-year cycle is a problem. People may receive an invitation on their fifty-third birthday rather than on their fiftieth because of that cycle. England is proposing an age range of 47 to 73, so that, by the time a lady is 50, she will have been screened once. It is important that we look at this.

Moving on to bowel cancer, for which screening has just been introduced, it has been shown that 90 per cent of bowel cancer is in those over 50 years old. The screening that has been put in place is for the over-50s. That is excellent news. I would like to see that coming in sooner for the over 50s, because we are doing 61 to 69-year-olds at the moment, with a progression towards all the age groups by 2015. I hope that that will be brought in a bit sooner so that we can cover the whole range—the 90 per cent bracket—sooner than 2015. It has been shown that the risk of dying from bowel cancer is being reduced by 15 per cent because of screening. Research work done in Cardiff into genetics has identified that there may be a genetic factor with bowel cancer. Perhaps we should be looking at encouraging those people as well to be screened. I also admit that there has to be some form of embarrassment and that it is not easy to go through that screening process. It is something that we need to look at.

With cervical cancer, this is a screening process that is reducing the occurrence of cancer. However, we also now have the vaccination approach being introduced, which has already been seen in Australia to reduce the number of cases that will occur later in life. It is about early diagnosis: the earlier you spot the cancer, the less likely it is to have spread elsewhere. Therefore, it is

70 ar gyfer canser y fron wedi gwella cyfraddau goroesi yn ddramatig. Yn wir, gwelwyd 53.3 y cant o ganserau ymledol—rhaid na fyddai wedi cael eu gweld gan unrhyw wiriadau â llaw—drwy sgrinio. Fodd bynnag, mae problemau gyda sgrinio ar gyfer canser y fron, gan mai dim ond 76 y cant o fenywod sy'n cymryd rhan. Mae angen i ni gynyddu nifer y menywod sy'n derbyn y gwahoddiad. Nid ydym yn mynd i gyrraedd 100 y cant, oherwydd bod y cylch tair blynedd yn broblem. Gall pobl dderbyn gwahoddiad ar eu pen-blwydd yn 53 yn hytrach nag ar eu hanner canfed oherwydd y cylch hynny. Mae Lloegr yn cynnig ystod oedran o 47 i 73, fel, erbyn i fenyw gyrraedd 50, y bydd wedi cael ei sgrinio unwaith. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar hyn.

Gan symud ymlaen at ganser y coluddyn, y mae sgrinio newydd gael ei gyflwyno ar ei gyfer, mae wedi bod yn dangos bod 90 y cant o ganser y coluddyn ymhlith y rheini sydd dros 50 oed. Mae'r sgrinio sydd wedi cael ei roi ar waith ar gyfer pobl dros 50 oed. Mae hynny'n newyddion gwych. Hoffwn weld hwnnw'n cael ei gyflwyno'n gynt ar gyfer pobl dros 50 oed, oherwydd yr ydym yn ei wneud ar gyfer y rheini sy'n 61 i 69 oed ar hyn o bryd, gyda dilyniant tuag at yr holl grwpiau oedran erbyn 2015. Yr wyf yn gobeithio y caiff hynny ei dwyn i mewn ychydig yn gynt fel y gallwn ymdrin â'r holl amrediad—y braced 90 y cant—yn gynt na 2015. Dangoswyd bod y risg o farw o ganser y coluddyn yn cael ei leihau o 15 y cant oherwydd sgrinio. Y mae gwaith ymchwil a wnaed yng Nghaerdydd i eneteg wedi nodi y gall fod ffactor genetig â chanser y coluddyn. Efallai y dylem fod yn edrych ar annog y bobl hynny yn ogystal i gael eu sgrinio. Rwyf hefyd yn cyfaddef bod rhyw fath o embaras ac nad yw'n hawdd mynd drwy'r broses sgrinio. Mae'n rhywbeth y mae angen inni edrych arno.

The plan should also seek to achieve consistency across Wales, which means that wherever you are, you can expect a certain standard of service, whether you live in an urban area or the countryside. The plan should also mean that, regardless of your age, and especially if you are an older citizen, you can be confident that you will receive treatment and that you will not be consigned to lesser treatment because you are deemed to be too old and it has been decided that resources should be spent on someone younger. You should also receive a certain standard of service whether you are female or male: we are aware of the statistics on bowel cancer, in particular, and the challenge of getting men to interact earlier with the health service to participate in screening.

The plan should also mean that it should not matter what race you are, as the plan should recognise that some members of our ethnic communities will have a particular predisposition to cancer, and that significant cultural issues may need to be addressed in the process of commissioning and providing services for people from different religious and racial backgrounds. It should also be a plan that focuses on the individual in their journey through the system and provides support for the individual and their family.

We want to make sure that the individual has access to a comprehensive range of treatments—everything from the latest in medical technology that we can offer in terms of cures and prolonging life, through to the support that the individual needs to cope with the diagnosis and the huge impact that it can have. That includes everything from spiritual and emotional support through to the practical issues of transport, maintaining your job or livelihood, and coping with the additional bills that a cancer diagnosis may bring.

In addition, we need to focus on one of the things that have dogged us as a nation, namely the early detection of cancer. The sad reality is that many cancer patients will only receive a cancer diagnosis after an incident at

Dylai'r cynllun hefyd geisio sicrhau cysondeb ar draws Cymru, sy'n golygu, ble bynnag yr ydych, gallwch ddisgwyl safon benodol o wasanaeth, p'un ai a ydych yn byw mewn ardal drefol neu yng nghefn gwlad. Dylai'r cynllun hefyd olygu, beth bynnag eich oedran, ac yn enwedig os mai dinesydd hŷn ydych, y gallwch fod yn hyderus y byddwch yn derbyn triniaeth ac na chewch eich traddodi i driniaeth lai oherwydd ystyrir eich bod yn rhy hen a'i bod wedi'i benderfynu y dylid gwario'r adnoddau ar rywun iau. Dylech hefyd gael safon benodol o wasanaeth, boed yn fenyw neu'n wryw: rydym yn ymwybodol o'r ystadegau ar ganser y coluddyn, yn arbennig, a'r her o gael dynion i ryngweithio yn gynharach gyda'r gwasanaeth iechyd i gymryd rhan mewn sgrinio.

Dylai'r cynllun hefyd olygu na ddylai fod gwahaniaeth o ran eich hil, gan y dylai'r cynllun gydnabod y bydd gan rai aelodau o'n cymunedau ethnig ragdueddiad arbennig i ganser, ac y gallai bod angen mynd i'r afael â materion diwylliannol arwyddocaol yn ystod y broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl o wahanol gefndiroedd crefyddol a hiliol. Dylai hefyd fod yn gynllun sydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei daith drwy'r system ac yn rhoi cefnogaeth i'r unigolyn a'i deulu.

Rydym eisiau sicrhau bod yr unigolyn yn cael mynediad at ystod gynhwysfawr o driniaethau—popeth o'r diweddaraf mewn technoleg feddygol y gallwn ei gynnig o ran iachâd ac ymestyn bywyd, hyd at y gefnogaeth y mae ar yr unigolyn ei angen i ymdopi â'r diagnosis a'r effaith enfawr y gall ei chael. Mae hynny'n cynnwys popeth o gymorth ysbrydol ac emosiynol drwodd i'r materion ymarferol o deithio, cynnal a chadw eich swydd neu eich bywoliaeth, ac ymdopi â'r biliau ychwanegol y gall diagnosis o ganser ddwyn ar eich traws.

Yn ogystal â hyn, mae angen i ni ganolbwyntio ar un o'r pethau sydd wedi ein llethu fel cenedl, sef canfod canser yn gynnar. Y gwirionedd trist yw mai dim ond ar ôl digwyddiad mewn adran ddamweiniau

an accident and emergency department. They go in only to find that the symptoms that led them to the accident and emergency department, that particular moment of crisis, are the result of a long-standing disease. We need to redouble our efforts at screening. David Rees spoke eloquently earlier about the amazing strides that we have seen in screening recently, but also acknowledged that we can do even better in terms of the number of people whom we screen, when we screen them and by focusing on the people who receive screening invitations, but do not take them up—the women who do not attend for a mammography or the people who do not send back their bowel cancer screening kits. We need to redouble our efforts, because if we want our cancer survival rates to go up, we need to detect more of our cancers earlier.

A key part of that is training and support for GPs. Many people who go on to have a cancer diagnosis will have visited their GP on a number of occasions reporting symptoms that have been diagnosed as something else. Teenagers in particular can expect to make six visits to a GP on average before cancer is even considered. It is difficult because cancer symptoms can often be symptoms that point to much less dangerous and serious conditions, but we must do more to train and support GPs so that they can get people moving through the system more quickly.

The most controversial aspect of our motion today is the issue of a cancer drugs fund. We spent a great deal of time talking about this last week, when I acknowledged what a difficult issue this is for the NHS because of the huge improvements in science. It was also clear last week that our current system is not working for patients or clinicians and that we need to get patient groups, clinicians and pharmaceutical companies to sit around a table. I will pick this point to say that I regret the slightly intemperate language that the First Minister has used about the pharmaceutical industry. The reality is that it is a significant industry for the UK. It

ac achosion brys y bydd llawer o gleifion cancer yn derbyn diagnosis o ganser. Ânt yno dim ond i ganfod bod y symptomau a'u harweiniwyd at yr adran ddamweiniau ac achosion brys—yr argyfwng penodol hwnnw—yn ganlyniad i glefyd hir-sefydlog. Mae angen i ni ailddyblu ein hymdrechion wrth sgrinio. Siaradodd David Rees yn huawdl yn gynharach am y camau rhyfeddol yr ydym wedi'u gweld mewn sgrinio yn ddiweddar, ond cydnabu hefyd y gallwn wneud hyd yn oed yn well o ran nifer y bobl yr ydym yn eu sgrinio, pan fyddwn yn eu sgrinio a thrwy ganolbwyntio ar y bobl sy'n derbyn gwahoddiadau i sgrinio, ond nad ydynt yn eu derbyn—y benywod nad ydynt yn mynd i gael mamograffeg neu'r bobl nad ydynt yn dychwelyd eu citiau sgrinio am ganser y coluddyn. Mae angen inni ailddyblu ein hymdrechion, oherwydd os dymunwn i'n cyfraddau goroesi cancer godi, mae angen inni ganfod mwy o'n canserau ynghynt.

Rhan allweddol o hynny yw hyfforddiant a chefnogaeth i feddygon teulu. Bydd llawer o bobl sy'n mynd ymlaen i gael diagnosis o ganser wedi ymweld â'u meddyg teulu ar nifer o achlysuron yn adrodd symptomau sydd wedi cael diagnosis fel rhywbeth arall. Gall pobl yn eu harddegau, yn arbennig, ddisgwyl gwneud chwe ymweliad â meddyg teulu, ar gyfartaledd, cyn i ganser gael ei ystyried hyd yn oed. Mae'n anodd oherwydd gall symptomau cancer yn aml fod yn symptomau sy'n cyfeirio at amodau llawer llai peryglus a difrifol, ond mae'n rhaid inni wneud mwy i hyfforddi a chefnogi meddygon teulu fel y gallant symud pobl drwy'r system yn gyflymach.

Agwedd fwyaf dadleuol ein cynnig heddiw yw mater y gronfa cyffuriau cancer. Treuliasom gryn amser yn siarad am hyn yr wythnos ddiwethaf, pan gydnabûm pa mor anodd oedd y mater hwn i'r gwasanaeth iechyd gwladol oherwydd y gwelliannau mawr mewn gwyddoniaeth. Roedd hefyd yn glir yr wythnos ddiwethaf nad yw ein system bresennol yn gweithio i gleifion na chlinigwyr a bod angen inni gael grwpiau cleifion, clinigwyr a chwmnïau fferyllol i eistedd o amgylch bwrdd. Ar y pwynt hwn hoffwn ddweud fy mod yn gresynu at yr iaith anghymedrol braidd y mae'r Prif Weinidog wedi ei defnyddio am y diwydiant fferyllol.

employs an awful lot of people, it spends an awful lot of money on research and development and on economic development, and those are the people who will come up with the therapeutical treatments that we will need in the future. We need to find a way for the right treatment to be given to the right patient at the right time. I believe that we need to look at a cancer drugs fund; the Government does not accept that. We need to do something that works better for patients than what we have at the moment. I will be pleased to hear from the Minister if she has a better idea than what we have at the moment.

Earlier this afternoon, the Minister said that her consultation paper will address many of the issues that we have outlined today. I hope that it will; time will tell. However, this afternoon, I would like to hear from the Minister—this is what worried me most about her response earlier—how she will ensure that her plan makes a difference on the ground. From what she said earlier in response to the Conservative Party debate, there is much agreement between us about what a cancer plan looks like, a consensus about the need for a person-centred approach and about treating cancer patients and their families in the round, a willingness to engage with the third sector, which has a crucial role to play in this—we are not a million miles apart. However, what we did not hear from the Minister this afternoon, in her answer to the Tory debate, was what safeguards she will put in place so that this cancer plan will result in real differences for people on the ground. Too often have I sat on committees of various kinds in the Assembly and heard professionals say, ‘The plan was great—it was absolutely right—it is just that we fell down on the implementation.’ The goals and aspirations of Ministers have not resulted in a better service for patients.

5.30 p.m.

If nothing else, perhaps we can hear from the

Y gwir amdani yw ei fod yn ddiwydiant arwyddocaol i'r Deyrnas Unedig. Mae'n cyflogi llawer iawn o bobl, mae'n gwario llawer iawn o arian ar ymchwil a datblygu ac ar ddatblygu economaidd, a'r rheiny yw'r bobl a fydd yn cyflwyno'r triniaethau therapiwtical y bydd arnom eu hangen yn y dyfodol. Mae angen inni ddod o hyd i ffordd o gael y driniaeth gywir wedi'i rhoi i'r claf cywir ar yr adeg gywir. Credaf fod angen inni ystyried cronfa cyffuriau canser; nid yw'r Llywodraeth yn derbyn hynny. Mae angen inni wneud rhywbeth sy'n gweithio'n well i gleifion na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd. Byddaf yn falch clywed gan y Gweinidog os oes ganddi syniad gwell na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd.

Yn gynharach y prynhawn yma, dywedodd y Gweinidog y bydd ei phapur ymgynghori yn mynd i'r afael â llawer o'r materion yr ydym wedi'u hamlinellu heddiw. Yr wyf yn gobeithio y gwnaiff hynny; amser a ddengys. Fodd bynnag, y prynhawn yma, hoffwn glywed gan y Gweinidog—dyma'r hyn a oedd yn fy mhryderu fwyaf am ei hymateb yn gynharach—sut y bydd yn sicrhau bod ei chynllun yn gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad. O'r hyn a ddywedodd yn gynharach mewn ymateb i ddadl y Blaid Geidwadol, mae llawer o gytundeb rhyngom am ymddangosiad cynllun canser, consensws ynghylch yr angen am ddull sy'n canolbwyntio ar y person ac am drin cleifion canser a'u teuluoedd yn gyffredinol, parodrwydd i ymgysylltu â'r trydydd sector, sydd â rôl hanfodol i'w chwarae yn hyn—nid ydym filiwn o filltiroedd ar wahân. Serch hynny, yr hyn na chlywsom gan y Gweinidog y prynhawn yma, yn ei hateb i ddadl y Toriaid, oedd pa gamau diogelu y bydd yn eu cymryd fel bod y cynllun canser hwn yn arwain at wir wahaniaethau i bobl ar lawr gwlad. Yn rhy aml yr wyf wedi eistedd ar bwyllgorau o wahanol fathau yn y Cynulliad a chlywed gweithwyr proffesiynol yn dweud, ‘Roedd y cynllun yn wych—roedd yn llygad ei le—dim ond ein bod wedi methu gyda'r gweithredu.’ Nid yw nodau a dyheadau Gweinidogion wedi arwain at wasanaeth gwell i gleifion.

Os dim byd arall, efallai y gallwn glywed gan

Minister this afternoon about how the plan that she comes up with—I am sure that there will be a lot of consensus about its content—will translate into transformational change for patients, clinicians and staff. This time, we cannot let that implementation gap prevent the service from being as good as anyone in the Chamber would want.

Gwelliant 1 Jocelyn Davies

Cynnwys ar ddechrau pwynt 1:

‘Yn nodi cymeradwyaeth unfrydol y Cynulliad ar 5 Hydref 2011 i lunio a gweithredu Cynllun Canser Cenedlaethol ac felly’.

Lindsay Whittle: I move amendment 1 in the name of Jocelyn Davies.

Our position in Plaid Cymru is, first and foremost, to take heed of what organisations like Macmillan Cancer Support and the Wales Cancer Alliance are telling us loudly and clearly. One disturbing feature is that the Welsh Government does not seem to have made much effort to draw those organisations—*[Interruption.]*

I will take your intervention.

The Deputy Presiding Officer: Order. He has only been at it for 20 seconds, but as the Member has given way, I call Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies: On the point that you make about taking research and evidence from the voluntary sector, Macmillan Cancer Support and the Wales Cancer Alliance, one of the tenets of their argument is that we need a cancer co-ordinator to drive through a national cancer plan, yet you are rejecting that.

Lindsay Whittle: You have a reputation for being a bull in a china shop; I am coming to that. Try to be patient. You will enjoy it, I promise. Sorry, Dirprwy Lywydd, I am getting into a debate that I should not.

First, Plaid Cymru believes that we should

y Gweinidog y prynhawn yma o ran sut y bydd ei chynllun—yr wyf yn sicr y bydd llawer o gonsensws am ei gynnwys—yn arwain at newid trawsffurfiol i gleifion, clinigwyr a staff. Y tro hwn, ni allwn adael i'r bwlch gweithredu atal y gwasanaeth rhag bod cystal ag y byddai pawb yn y Siambr yn dymuno iddo fod.

Amendment 1 Jocelyn Davies

Insert at start of point 1:

‘Notes the unanimous endorsement of the Assembly on 5 October 2011 for drawing up and implementing a National Cancer Plan and therefore’.

Lindsay Whittle: Cynigiai welliant 1 yn enw Jocelyn Davies.

Ein safbwynt ni ym Mhlaid Cymru yw, yn gyntaf ac yn bennaf, i gymryd sylw o'r hyn y mae sefydliadau fel Cymorth Canser Macmillan a Chynghrair Canser Cymru yn ei ddweud wrthym yn uchel ac yn glir. Un peth sy'n peri pryder yw nad yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o ymdrech i dynnu'r sefydliadau hynny—*[Torri ar draws.]*

Cymeraf eich ymyriad.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dim ond am 20 eiliad y mae wedi siarad, ond gan fod yr Aelod wedi ildio, galwaf Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies: O ran y pwynt a wnaethoch am gymryd ymchwil a thystiolaeth o'r sector gwirfoddol, Cymorth Canser Macmillan a Chynghrair Canser Cymru, un elfen o'u dadl yw bod angen cydlynnydd canser i yrru cynllun canser cenedlaethol yn ei flaen, ond yr ydych yn gwrthod hynny.

Lindsay Whittle: Mae gennych hanes o fod fel tarw mewn siop lestri; yr wyf yn dod at hynny. Ceisiwch fod yn amyneddgar. Byddwch yn ei fwynhau, yr wyf yn addo. Mae'n ddrwg gennyf, Ddirprwy Lywydd, yr wyf yn cymryd rhan mewn dadl na ddylwn.

Yn gyntaf, mae Plaid Cymru yn credu na

not focus our attention and our much-valued resources on creating a national drugs fund. As important as that might be, Kirsty Williams—and we recognise that—we want to focus on a patient-centred plan that offers support before, during and after treatment. That is the most important issue. Secondly, we must ensure that services across Wales are not patchy; that has been a common theme throughout the debate. They are inconsistent, and that is the opinion of the Wales Cancer Alliance itself. We must make sure, particularly in rural parts of Wales, that people are not subject to this now-famous postcode lottery as far as access to diagnosis, screening and treatment is concerned. We need a strategic plan that recognises that survival rates in Wales are worse than in comparable countries in Europe. That is a fact. We need further research to clarify why that is so, because it should not be so. We need to make resources available to tackle the problems when we have identified them.

Our plan in Plaid Cymru is to provide all patients with a specialist cancer nurse to work with local authorities to ensure that cancer patients get the social care services that they need, as well as advice on all of their welfare rights. We have to ensure improved co-ordination of services among and between professionals. As Helen Mary Jones—who is much missed in the Chamber—has said, we must appoint a director of cancer services to help draft a new strategy and work with health boards to drive forward implementation. We are paying the piper, and we will ensure that he plays our tune.

We are all agreed that what we need is a more holistic approach. Designing an updated cancer plan means not just supporting and encouraging professionals to work more closely together; it also means that this Welsh Government must work in partnership with specialist, third sector organisations. They need to be central to the processes. We owe this to the sufferers of cancer, the survivors of cancer, and the relatives of those who have lost their lives to cancer.

ddylem ganolbwyntio ein sylw a'n hadnoddau gwerthfawr ar greu cronfa cyffuriau cenedlaethol. Er mor bwysig yw hynny, Kirsty Williams—ac rydym yn cydnabod hynny—yr ydym am ganolbwyntio ar gynllun sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n cynnig cefnogaeth cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth. Dyna'r mater pwysicaf. Yn ail, rhaid inni sicrhau nad yw gwasanaethau ledled Cymru yn anghyson; mae hynny wedi bod yn thema gyffredin trwy gydol y ddadl. Maent yn anghyson, a dyna yw barn Cynghrair Canser Cymru. Mae'n rhaid i ni sicrhau, yn enwedig mewn rhannau gwledig o Gymru, nad oes loteri cod post cyn belled ag y mae mynediad at ddiagnosis, sgrinio a thriniaeth yn y cwestiwn. Mae arnom angen gynllun strategol sy'n cydnabod bod cyfraddau goroesi yn waeth yng Nghymru na mewn gwledydd tebyg yn Ewrop. Mae hynny'n ffaith. Mae angen ymchwil pellach i egluro'r rheswm dros hynny, oherwydd ni ddylai fod felly. Mae angen i ni ddarparu adnoddau i fynd i'r afael â phroblemau pan ydym wedi eu nodi.

Ein cynllun ym Mhlaid Cymru yw darparu nyrs cancer arbenigol ar gyfer pob claf i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod cleifion cancer yn cael y gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae arnynt eu hangen, yn ogystal â chynghor ar bob un o'u hawliau lles. Mae'n rhaid i ni sicrhau gwell cydlyniant ar gyfer gwasanaethau ymysg a rhwng gweithwyr proffesiynol. Fel y dywedwyd gan Helen Mary Jones—sy'n cael ei cholli'n fawr yn y Siambr—mae'n rhaid i ni benodi cyfarwyddwr gwasanaethau cancer er mwyn helpu i ddrafftio strategaeth newydd a gweithio gyda byrddau iechyd i fwrw ymlaen â'r gwaith. Ni sy'n talu'r pibydd, a byddwn yn sicrhau mai ni sy'n dewis y dôn.

Rydym i gyd yn cytuno mai'r hyn y mae arnom ei angen yw dull mwy cyfannol. Mae dylunio cynllun cancer wedi ei ddiweddarau yn golygu nid yn unig cefnogi ac annog gweithwyr proffesiynol i weithio'n agosach gyda'i gilydd; mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau arbenigol o'r trydydd sector. Mae angen iddynt fod yn ganolog i'r prosesau. Mae dyletswydd arnom yn hynny o beth i ddioddefwyr cancer, goroeswyr cancer, a pherthnasau'r rhai sydd

wedi colli eu bywydau i ganser.

Gwelliant 2 Jane Hutt

Amendment 2 Jane Hutt

Dileu pwyntiau b.) ac c.) a rhoi yn eu lle:

Delete points b.) and c.) and replace with:

sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar driniaethau canser diogel ac effeithiol mewn modd teg a phrydlon.

ensure people have equity of access, promptly, to safe and effective cancer treatment.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move amendment 2 in the name of Jane Hutt.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigias welliant 2 yn enw Jane Hutt.

Aled Roberts: In making these remarks, I want to recognise that there are examples in Wales of excellent cancer treatment. However, I think that we would all recognise that the difficulty we have is the lack of consistency. I say that because the Minister will know that my father-in-law has been a prostate cancer sufferer for many years. He was lucky in that his GP recognised it at an early stage and, accordingly, he was referred to Ysbyty Glan Clwyd, where the department that deals with different forms of cancer is excellent.

Aled Roberts: Wrth wneud y sylwadau hyn, rwyf am gydnabod bod enghreifftiau yng Nghymru o driniaeth canser rhagorol. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl y byddem i gyd yn cydnabod mai'r anhawster sydd gennym yw diffyg cysondeb. Dywedaf hynny oherwydd bydd y Gweinidog yn gwybod bod fy nhad-yng-nghyfraith wedi bod yn dioddef o ganser y prostad am flynyddoedd lawer. Roedd yn ffodus gan fod ei feddyg teulu wedi ei adnabod yn gynnar ac, yn unol â hynny, cafodd ei gyfeirio i Ysbyty Glan Clwyd, lle mae'r adran sy'n ymdrin â gwahanol fathau o ganser yn ardderchog.

I will confine my remarks to the preventative agenda and, particularly, to screening to ensure early diagnosis. The reality of the situation is that, currently, Wales has more instances of bowel cancer than England, we have higher levels of male forms of cancer than any other parts of the UK, and, as other speakers have said, we have problems with our survival rates, which are well below the European average. However, despite all of those, there has been reluctance, as far as the Welsh NHS is concerned, to take on board the most modern screening programmes. In fact, Minister, in a recent written response to Kirsty Williams, you made it clear that there was no current proposal for flexible sigmoidoscopy to be used in Wales. You said that it was used as far as the diagnosis of individual patients was concerned, but that you did not accept that it should be adopted as a screening method for bowel cancer.

Cyfyngaf fy sylwadau at yr agenda ataliol ac, yn arbennig, i sgrinio i sicrhau diagnosis cynnar. Realiti'r sefyllfa yw, ar hyn o bryd, bod gan Gymru fwy o achosion o ganser y coluddyn na Lloegr, mae gennym lefelau uwch o ffurfiau gwrywaidd o ganser nag unrhyw rannau eraill o'r DU, ac, fel y dywedwyd gan siaradwyr eraill, mae gennym broblemau gyda'n cyfraddau goroesi, sydd yn llawer is na'r cyfartaledd Ewropeaidd. Fodd bynnag, er gwaethaf hynny i gyd, bu amharodrwydd, cyn belled ag y mae'r GIG yng Nghymru yn y cwestiwn, i ystyried y rhaglenni sgrinio mwyaf modern. Yn wir, Weinidog, mewn ymateb ysgrifenedig diweddar i Kirsty Williams, fe'i gwnaethoch yn glir nad oedd unrhyw gynllun presennol i ddefnyddio sigmoidosgopi hyblyg yng Nghymru. Dywedasoch ei fod yn cael ei ddefnyddio cyn belled ag y mae diagnosis cleifion unigol yn y cwestiwn, ond nad oeddech yn derbyn y dylid ei fabwysiadu fel dull sgrinio ar gyfer canser y coluddyn.

Therefore, while Wales, as a result of strategies, is getting closer to the UK

Felly, er bod Cymru, o ganlyniad i strategaethau, yn dod yn nes at gyfartaledd y

average, the reality is that Welsh citizens are less likely to survive an instance of cancer than their English counterparts. It is our belief, as stated in this motion, that good screening programmes are crucial to detect cancer at an early stage. Early detection provides an early opportunity for treatment and, ultimately, to save lives. Therefore, our belief is that the Welsh Government needs to make the early detection of cancer a priority for the NHS, which includes embracing new, more effective screening methods than is currently the case.

I will also refer to intensity-modulated radiation therapy, which allows the accurate treatment of tumours. That is particularly important in the pelvic area and in the head and neck forms of cancer, where there are a number of organs and structures that could easily be damaged by more conventional treatments. Wales's current capacity is to treat fewer than 50 patients with this treatment per annum. Surely, as part of a national cancer plan, we should be looking at increasing our capacity in this area. This revolutionary treatment brings together a number of benefits; not only does it allow more accurate treatment, but also provides fewer side-effects for patients. It is also relatively inexpensive, and requires investment from the Welsh Government of £1 million a year, according to Cancer Research UK. It is our belief that the national cancer plan, which, as other speakers have already said, has been broadly welcomed across the Chamber, should ensure that we invest in these newer treatments, which are more effective in reducing long-term side-effects and could save money in the long term. It is an indictment on us here that this treatment has been available for five years. Today, 42 per cent of cancer patients the other side of the border are receiving this revolutionary treatment. Yet, in Wales, our current capacity only allows two patients per month who are suffering from neck, head and prostate cancer to receive the treatment.

Fortunately, there have been major advances in cancer treatments over the past few years,

Deyrnas Unedig, y realiti yw bod dinasyddion Cymru yn llai tebygol o oroesi achos o ganser na'u cymheiriaid yn Lloegr. Rydym yn credu, fel y nodwyd yn y cynnig hwn, bod rhaglenni sgrinio da yn hanfodol i ganfod cancer yn gynnar. Mae canfod achosion yn gynnar yn rhoi cyfle i gael triniaeth gynnar ac, yn y pen draw, i achub bywydau. Felly, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod canfod cancer yn gynnar yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth iechyd gwladol, sy'n cynnwys mabwysiadu dulliau sgrinio newydd, mwy effeithiol na'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

Byddaf hefyd yn cyfeirio at therapi ymbelydredd fodiweiddio dwyster, sy'n caniatáu i'r tiwmorau gael eu trin yn gywir. Mae hynny'n arbennig o bwysig yn ardal y pelfis a gyda chanser y pen neu'r gwddf, lle mae nifer o organau a strwythurau y gellir eu difrodi'n hawdd gan driniaethau mwy confensiynol. Y capasiti presennol yng Nghymru yw trin llai na 50 o gleifion gyda'r driniaeth hon bob blwyddyn. Yn sicr, fel rhan o gynllun cancer cenedlaethol, dylem fod yn edrych ar gynyddu ein capasiti yn y maes hwn. Mae'r driniaeth chwyldroadol hon yn dwyn ynghyd nifer o fuddion; nid yn unig y mae'n caniatáu triniaeth fwy cywir, ond mae hefyd yn darparu llai o sgil-ffeithiau ar gyfer cleifion. Mae hefyd yn gymharol rad, ac angen buddsoddiad o £1 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru, yn ôl Cancer Research UK. Credwn y bydd y cynllun cancer cenedlaethol, sydd, fel y mae siaradwyr eraill wedi ei ddweud yn barod, wedi'i groesawu'n gyffredinol ar draws y Siambr, yn sicrhau ein bod yn buddsoddi yn y triniaethau mwy newydd hyn, sydd yn fwy effeithiol wrth leihau sgil-ffeithiau hirdymor, ac y gallai arbed arian yn y tymor hir. Mae'n ddiad arnom ni yma fod y driniaeth hon wedi bod ar gael ers pum mlynedd. Heddiw, mae 42 y cant o gleifion cancer ar ochr arall y ffin yn derbyn y driniaeth chwyldroadol hon. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae ein capasiti presennol ond yn caniatáu i ddau o gleifion y mis sy'n dioddef o ganser y gwddf, y pen neu'r prostad i gael y driniaeth.

Yn ffodus, cafwyd datblygiadau sylweddol mewn triniaethau cancer dros y blyneddau

but the reality is that one in three of us are likely to develop cancers during our lifetime. It is, therefore, imperative that, as an Assembly and Government, we ensure that our citizens have access to the best surgery, radiotherapy and medicines. The Welsh Government has a duty to make IMRT available, and I hope that the national cancer plan will address that. It is only by making this treatment more accessible that we can turn the tide and ensure that Wales does not fall further behind in this sphere.

Mick Antoniw: This is an important debate and there is no doubt that there is commonality among everyone here—I doubt that anyone here has not had either a member of their family or a friend who has suffered from cancer. It is, therefore, right that we explore some of the sensitive issues that arise. I am sure that we all share the same objective, which is the best form of cancer treatment and prevention.

My comments are more to do with the drug companies. I have a number of concerns about the way that drug companies operate. There has been a lot of what I think is groundbreaking research in America on this issue that raises concerns that we have to take into consideration, whichever way we go on these particular arguments. Referring to a number of particular new drugs, the commentary in America from some cancer experts is that these drugs sell well. Last year, Gleevec, one particular drug, grossed \$4.3 billion. Roche's Herceptin, which I mention because Vaughan Gething and I were involved in a judicial review of its use when the Minister for health rightly stepped in to overrule the National Institute for Health and Clinical Excellence on its allocation of the drug, did even better—it grossed \$6 billion.

Cancer drugs could rescue major drugs makers from a tricky situation. More than \$50 billion-worth of drugs will lose their patent protection in the next three years, so

diwethaf, ond y gwir amdani yw bod un o bob tri ohonom yn debygol o ddatblygu cancer yn ystod ein hoes. Y mae, felly, yn hanfodol ein bod, fel Cynulliad a Llywodraeth, yn sicrhau bod gan ein dinasyddion fynediad at y llawdriniaethau, radiotherapi a meddyginiaethau gorau. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i ddarparu bod radiotherapi dwyster modyledig ar gael, ac yr wyf yn gobeithio y bydd y cynllun cancer cenedlaethol yn mynd i'r afael â hynny. Dim ond drwy wneud y driniaeth hon yn fwy hygyrch y gallwn droi'r llanw a sicrhau nad yw Cymru'n disgyn ymhellach y tu ôl yn y maes hwn.

Mick Antoniw: Mae hon yn ddadl bwysig ac nid oes amheuaeth bod yna brofiadau cyffredin gan bawb yma—yr wyf yn amau nad oes unrhyw un yma nad oes ganddynt aelod o'u teulu neu ffrind sydd wedi dioddef o ganser. Y mae, felly, yn briodol ein bod yn archwilio rhai o'r materion sensitif sy'n codi. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn rhannu'r un amcan, sef y math gorau o drin ac atal cancer.

Mae fy sylwadau yn ymwneud yn fwy â'r cwmnïau cyffuriau. Mae gennyf nifer o bryderon ynghylch y ffordd y mae cwmnïau cyffuriau yn gweithredu. Bu llawer o'r hyn yr wyf yn ei ystyried yn ymchwil arloesol yn America ar y mater hwn sy'n codi pryderon y mae'n rhaid inni eu hystyried, pa bynnag ffordd yr ydym yn mynd o ran y dadleuon penodol hyn. Gan gyfeirio at nifer o gyffuriau newydd, mae'r sylwebaeth yn America gan rai arbenigwyr cancer yn dweud bod y cyffuriau hyn yn gwerthu'n dda. Y llynedd, gwnaeth Gleevec, un cyffur penodol, gros o \$4.3 biliwn. Gwnaeth Herceptin, gan Roche, yr wyf yn ei grybwyll am fod Vaughan Gething a minnau wedi cymryd rhan mewn adolygiad barnwrol yn ymwneud â'i ddefnydd pan gamodd y Gweinidog iechyd i mewn, yn gywir, a herio'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol ar ei ddyraniad o'r cyffur, hyd yn oed yn well—bu iddo wneud gros o \$6 biliwn.

Gallai cyffuriau canser achub gwneuthurwyr cyffuriau mawr o sefyllfa anodd. Bydd gwerth mwy na \$50 biliwn o gyffuriau yn colli eu patent yn y tair blynedd nesaf, felly

the drug companies are looking for alternatives to replace them to maximise their profit-making capacity. Experts say that cancer plays a huge role in increasing costs for America's National Institutes of Health. They predict that spending on all cancer treatment in the States will rise from \$125 billion last year to \$158 billion in 2020, potentially reaching as high as \$207 billion. They also say that not all of these drugs work. In December, America's Food and Drugs Administration said that Avastin's side effects outweigh its meagre impact on breast cancer. Some experts believe that new cancer drugs offer small benefits at an exorbitant price. Provenge costs \$93,000 for a course of treatment and extends life by an average of four months. Yervoy costs \$120,000 and extends life by three and a half months. The chief medical officer of the American Cancer Society notes that some patients spend a lot but get little in return. He adds that the next frontier of treatments is not buying any significant prolongation of life. Experts recognise the dilemma that we all face, with dying patients understandably placing a high value on life and being willing to pay more for treatments. According to the experts at the University of Chicago, this means that firms can charge steep prices. It has also been said that this is corporate chutzpah and that there are no checks in the system.

The reason that I raise these points is that anyone in a situation where a family member needs or wants a particular drug is incredibly vulnerable. We have to pay attention to the role of the drug companies and question whether they are out of control, whether they are abusing the system and whether they are charging exorbitant prices for drugs because they know that they can get away with it. Vaughan and I know that drug companies have their own mechanisms for raising public opinion on specific drugs, particularly those that come in when a patent is about to run out. There is an important debate to be had. We want the best drugs, but what are they? As the British Medical Association said, we have to be very alert so that we do not fall

mae'r cwmnïau cyffuriau yn chwilio am bethau eraill i gymryd eu lle i wneud yr elw mwyaf posibl. Mae arbenigwyr yn dweud bod cancer yn chwarae rhan enfawr mewn codi costau ar gyfer sefydliadau iechyd cenedlaethol America. Maent yn rhagweld y bydd gwariant ar driniaeth cancer yn ei chyfanrwydd yn yr Unol Daleithiau yn codi o \$125 biliwn y llynedd i \$158 biliwn yn 2020, ac o bosibl yn cyrraedd mor uchel â \$207 biliwn. Maent hefyd yn dweud nad yw pob un o'r cyffuriau hyn yn gweithio. Ym mis Rhagfyr, dywedodd gweinyddiaeth bwyd a chyffuriau America bod sgil-ffeithiau Avastin yn gorbwyso'i effaith pitw ar ganser y fron. Mae rhai arbenigwyr yn credu bod cyffuriau cancer newydd yn cynnig manteision bach am bris afresymol. Mae Provenge yn costio \$93,000 am gwrs o driniaeth ac yn ymestyn bywyd gan bedwar mis, ar gyfartaledd. Mae Yervoy yn costio \$120,000 ac yn ymestyn bywyd gan dri mis a hanner. Mae prif swyddog meddygol cymdeithas cancer America yn nodi bod rhai cleifion yn gwario llawer ond yn cael ychydig yn ôl. Ychwanegodd nad yw'r grŵp newydd o driniaethau yn ymestyn bywyd mewn ffordd arwyddocaol. Mae arbenigwyr yn cydnabod y sefyllfa anodd yr ydym oll yn ei wynebu, gyda chleifion sy'n marw wrth reswm yn rhoi gwerth uchel ar fywyd ac yn barod i dalu mwy ar gyfer triniaethau. Yn ôl yr arbenigwyr ym Mhrifysgol Chicago, mae hyn yn golygu y gall cwmnïau godi prisiau uchel. Dywedwyd hefyd mai chutzpah corfforaethol yw hwn ac nad oes unrhyw rwystrau yn y system.

Y rheswm yr wyf yn codi'r pwyntiau hyn yw bod unrhyw un sydd mewn sefyllfa lle mae aelod o'u teulu angen neu'n dymuno cael cyffur penodol yn hynod agored i niwed. Mae'n rhaid i ni dalu sylw at rôl y cwmnïau cyffuriau a gofyn a ydynt allan o reolaeth, a ydynt yn camddefnyddio'r system ac a ydynt yn codi tâl prisiau afresymol ar gyfer cyffuriau oherwydd eu bod yn gwybod na fydd unrhyw un yn eu herio. Mae Vaughan a minnau'n gwybod bod gan gwmnïau cyffuriau eu mecanweithiau eu hunain er mwyn gwella barn y cyhoedd am gyffuriau penodol, yn enwedig y rhai sy'n dod i mewn pan fod patent ar fin rhedeg allan. Mae trafodaeth bwysig i'w chael. Rydym am gael y cyffuriau gorau, ond beth yw'r rhain? Fel y

into a trap set by the drug companies.

William Powell: As Mick Antoniwn said, very few of us have not been touched by this disease, either through family or friends. It is, therefore, entirely right and proper that we should focus on it again today. I confine my remarks to support services for families and to mutual support groups. The Welsh Liberal Democrats feel that the Welsh Government should be playing a stronger and more proactive role in organising support groups to provide comfort, reassurance and advice. Knowing that there is somebody there who can help and who has experience of going through similar trauma can make the whole process so much easier, and aid recovery.

5.45 p.m.

During the previous debate, Suzy Davies referred to the Bracken Trust and its work in Llandrindod Wells. Many will also be familiar with the work of Usk House in Brecon, and we have the services of Macmillan and other enormously appreciated services across the whole of Wales.

A cancer strategy needs to provide services for families as well as patients, because a holistic approach is required. We are advocating a service for people whose relationships have been affected by a cancer diagnosis, as well as counselling and practical and financial advice. An ideal service would offer help to individuals, couples and their families, all of whom will have been affected. That is exactly the kind of service that the Welsh NHS should be providing as a matter of course. Thousands of people in Wales are living with and, indeed, beyond cancer and, as has been stated previously, that figure is likely to rise. Many survivors of cancer are left with physical or psychological effects from the diagnosis and treatment of their disease. Many more will have social, spiritual, financial and other needs. For those survivors, we are neither identifying nor meeting their needs.

dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain, mae'n rhaid i ni fod yn effro iawn fel nad ydym yn syrthio i fagl a osodwyd gan y cwmnïau cyffuriau.

William Powell: Fel y dywedodd Mick Antoniwn, ychydig iawn ohonom sydd heb ein cyffwrdd gan y clefyd hwn, naill ai drwy deulu neu ffrindiau. Y mae, felly, yn hollol gywir a phriodol y dylem ganolbwyntio arno eto heddiw. Cyfyngaf fy sylwadau i gefnogi gwasanaethau i deuluoedd a grwpiau cydgymorth. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fod yn chwarae rhan gryfach a mwy rhagweithiol o ran trefnu grwpiau cymorth i ddarparu cysur, sicrwydd a chynghor. Mae gwybod bod yna rywun yno sy'n gallu helpu ac sydd â phrofiad o fynd trwy drawma tebyg yn gallu gwneud y broses gyfan gymaint yn haws, a helpu'r adferiad.

Yn ystod y ddadl flaenorol, cyfeiriodd Suzy Davies at y Bracken Trust a'i gwaith yn Llandrindod. Bydd llawer hefyd yn gyfarwydd â gwaith Usk House yn Aberhonddu, ac mae gennym wasanaethau Macmillan a gwasanaethau hynod o werthfawr eraill ar draws Cymru gyfan.

Mae angen i strategaeth ganser ddarparu gwasanaethau i deuluoedd yn ogystal â chleifion, oherwydd mae angen dull gweithredu cyfannol. Rydym yn argymhell gwasanaeth ar gyfer pobl y mae eu perthnasau wedi gweld effaith diagnosis o ganser, yn ogystal â chwnsela a chynghor ymarferol ac ariannol. Byddai gwasanaeth delfrydol yn cynnig help i unigolion, cyplau a theuluoedd, bob un ohonynt wedi gweld effaith hynny. Dyna'r union math o wasanaeth y dylai'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru ei ddarparu fel mater o drefn. Mae miloedd o bobl yng Nghymru yn byw gyda ac, yn wir, y tu hwnt i ganser ac, fel y dywedwyd o'r blaen, mae'r ffigur hwnnw'n debygol o godi. Gadewir llawer o oroeswyr cancer ag effeithiau corfforol neu seicolegol o ddiagnosis a thriniaeth eu clefyd. Bydd gan lawer mwy anghenion cymdeithasol, ysbrydol, ariannol ac eraill. I'r rheiny sydd wedi goroesi, nid ydym yn adnabod nac yn diwallu eu hanghenion.

Cancer survival rates are improving, and we must not lose sight of that. If you were diagnosed with cancer 30 years ago, you had a one in four chance of survival. Today, it is one in two. We have to recognise that progress. Obviously, it is good news that medical science is improving enough to enable more people to survive, but this means that we now have a greater responsibility to those who are survivors of cancer. The Welsh Government needs to develop a clearer plan to deal with the thousands of survivors of cancer. It is important that the increasing numbers of people living with and beyond cancer, their carers and their wider families, have the support and services that they need to resume as normal a life as possible, as soon as possible. We would develop a national cancer survivorship programme to aid those survivors, their families and carers to deal with the after-effects of the disease. Wales can tackle cancer, but that requires that the Government give it more priority and attention, as it rightly deserves. As a party, we have set out today our plans to develop a comprehensive, national cancer plan for the whole of Wales. We would redirect money currently in the NHS budget to fund newer medicines and modern equipment to tackle cancer. We will ensure that better facilities are available to help cut waiting times and to further improve patients' quality of life.

Darren Millar: I am pleased that we are having another debate on cancer this afternoon, because it is so crucial. There is a great deal of consensus across the Chamber on many of the themes within the two debates that we have had this afternoon. We will be supporting the Liberal Democrats' motion in full. We will reject amendment 1 and we will also be opposing amendment 2. It is rather disappointing that the Government wants to delete point c) in the motion, which calls for developing a plan to support cancer survivors. I would have hoped that that was something that we could all agree upon.

Mae cyfraddau goroesi canser yn gwella, a rhaid inni beidio â cholli golwg ar hynny. Os oedd eich diagnosis o ganser 30 mlynedd yn ôl, roedd gennych un ymhob pedwar cyfle i oroesi. Heddiw, un ymhob dau ydyw. Rhaid inni gydnabod y cynnydd hwnnw. Wrth gwrs, mae'n newyddion da bod gwyddoniaeth feddygol yn gwella digon i alluogi mwy o bobl i oroesi, ond mae hyn yn golygu bod gennym bellach fwy o gyfrifoldeb i'r rheiny sydd yn oroeswyr canser. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynllun cliriach i ymdrin â'r miloedd o bobl sy'n goroesi canser. Mae'n bwysig bod y nifer cynyddol o bobl sy'n byw gyda chanser a thu hwnt i ganser, eu gofalu a'r teuluoedd ehangach, yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen er mwyn iddynt aildechrau bywydau mor normal ag y bo modd, cyn gynted ag y bo modd. Byddem yn datblygu rhaglen goroesi canser cenedlaethol i helpu'r goroeswyr hynny, eu teuluoedd a gofaluwr i ymdrin ag ôl-ffeithiau'r clefyd. Gall Cymru fynd i'r afael â chanser, ond mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth roi mwy o flaenoriaeth a sylw iddo, fel y mae'n ei haeddu. Fel plaid, yr ydym wedi gosod allan heddiw ein cynlluniau i ddatblygu cynllun canser cenedlaethol, cynhwysfawr ar gyfer Cymru gyfan. Byddwn yn ailgyfeirio arian sydd ar hyn o bryd yng nghyllideb y gwasanaeth iechyd gwladol i ariannu meddyginiaethau newydd ac offer modern i fynd i'r afael â chanser. Byddwn yn sicrhau bod gwell cyfleusterau ar gael i helpu i gwtogi amseroedd aros ac i wella ansawdd bywyd cleifion ymhellach.

Darren Millar: Yr wyf yn falch ein bod yn cael dadl arall ar ganser y prynhawn yma, oherwydd ei fod yn hollbwysig. Mae llawer iawn o gonsensws ar draws y Siambr ar lawer o'r themâu o fewn y ddwy ddadl a gawsom y prynhawn yma. Byddwn yn cefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol yn llawn. Byddwn yn gwrthod gwelliant 1, a byddwn hefyd yn gwrthwynebu gwelliant 2. Mae braidd yn siomedig bod y Llywodraeth am ddileu pwynt c) y cynnig, sy'n galw am ddatblygu cynllun i gefnogi goroeswyr canser. Byddwn yn gobeithio bod hynny yn rhywbeth y gallem ni oll gytuno arno.

Turning to the theme of the ingredients of a cancer plan, there are four fundamental ingredients that we should all be in agreement upon. There is a need to improve assessment and care planning. There is a need to reform the follow-up care for cancer victims. There is a need for a much more tailored approach to cancer care for individuals who are suffering from cancer, and for support for their wider families, and there is also a need for key workers to be appointed when somebody has been diagnosed. Another ingredient is broccoli; I am glad that we saw some broccoli in the Chamber, because it reminds us that healthy eating is an important part of the preventive measures that we need to be taking more seriously as a nation in order to reduce our risk of developing cancer in the future, as is reducing our alcohol consumption, dealing with smoking addiction and the need to take more exercise. I am sure that all of us in the Chamber today are listening to those lessons. However, of course, a cancer plan in itself will not help the current situation unless it is delivered. That is why we are still firmly wedded to this principle of the need for a cancer co-ordinator to ensure delivery. We have had debate after debate in this Chamber where we have heard references to reports saying that national service frameworks are not being implemented, where we have heard that guidance issued to local health boards is not being implemented, and where we have heard that targets are being missed. Frankly, another glossy document on a shelf is not going to make a blind bit of difference to the quality of care that cancer patients need to see or in terms of the improvements that we want to bring forward.

